

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

48/2019

DYDDIAD CYHOEDDI:

24/10/2019

Ymchwil i'r potensial ar gyfer newid sylweddau ar ôl cyflwyno isafswm prasio ar gyfer alcohol yng Nghymru

Ymchwil i'r potensial ar gyfer newid sylweddau ar ôl cyflwyno isafswm prisio ar gyfer alcohol yng Nghymru.

Katy Holloway¹, Tom May¹, Marian Buhociu¹, Wulf Livingston³, Andy Perkins² ac Iolo Madoc-Jones³.

¹ Prifysgol De Cymru

² Figure 8 Consultancy Services Ltd (Dundee)

³ Prifysgol Glyndŵr (Wrecsam)



Adroddiad Ymchwil Llawn: Katy Holloway, Tom May, Marian Buhociu, Wulf Livingston, Andy Perkins ac Iolo Madoc-Jones (2019). *Ymchwil i'r potensial ar gyfer newid sylweddau ar ôl cyflwyno isafswm prisio ar gyfer alcohol yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif GSR yr adroddiad 48/2019.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/isafswm-prisio-ar-gyfer-alcohol-ymchwil-i-ganlyniadau-posibl>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Janine Hale

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6539

E-bost: Ymchwil.lechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigurau	2
Cydnabyddiaeth.....	3
Geirfa 4	
1. Cyflwyniad.....	5
2. Cefndir a chyd-destun	8
3. Adolygiad Llenyddiaeth	13
4. Dulliau	28
5. Nodweddion y sampl.....	42
6. Effaith bosibl ar ddefnydd o sylweddau eraill	49
7. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o isafbris am alcohol	62
8. Effaith bosibl ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed.....	83
9. Effaith bosibl ar agweddau eraill ar fywydau yfwyr.....	92
10. Paratoi, Cynllunio a Chymorth.....	110
11. Casgliadau ac argymhellion	124
Cyfeiriadau.....	133
Atodiad A - Siart llif prisma o astudiaethau a ganfuwyd drwy chwiliad systematig o lenyddiaeth.....	139
Atodiad B – Nodweddion Ymatebwyr i'r Arolwg a'r Cyfweliadau (Yfwyr a darparwyr)	140
Atodiad C – Pynciau wedi'u cynnwys yn Holiaduron yr Arolwg a Chwestiynau'r Cyfweliadau	147

Rhestr o dablau

Tabl 3.1: Nodweddion astudiaethau sy'n edrych ar y berthynas rhwng cynnydd ym mhrisiau alcohol a'r defnydd o alcohol a newid/amnewid cysylltiedig	17
Tabl 3.2: Nodweddion astudiaethau sy'n edrych ar y berthynas rhwng cynnydd ym mhrisiau alcohol a'r defnydd o alcohol a newid/amnewid cysylltiedig	18
Tabl 6.1: Tebygolrwydd o newid (yfwyr).....	50
Tabl 6.2: Tebygolrwydd o effaith ar ddefnydd o sylweddau ymhlith defnyddwyr â phrofiad blaenorol o ddefnyddio'r sylweddau hynny (darparwyr)	52
Tabl 6.3: Tebygolrwydd o effaith ar ddefnyddwyr sylweddau ymhlith defnyddwyr heb DDIM profiad blaenorol o ddefnyddio'r sylweddau hynny (darparwyr)	53
Tabl 7.1: Tebygolrwydd o effaith ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol (darparwyr) .	85
Tabl 7.2: Tebygolrwydd o effaith ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol (yfwyr).....	87
Tabl 9.1: Tebygolrwydd o effaith ar ymddygiadau'n gysylltiedig ag yfed (darparwyr)	93
Tabl 9.2: Tebygolrwydd o effaith ar agweddau eraill ar eich bywyd (yfwyr)	94
Tabl B.1: Nodweddion ymatebwyr i'r arolwg (yfwyr) [n=93]	140
Tabl B.2: Sgoriau AUDIT cyfranogwyr yr 'arolwg yfwyr' [n=90].....	141
Tabl B.3: Hanes o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon ymhlith cyfranogwyr yr 'arolwg yfwyr'	142
Tabl B.4: Nodweddion ymatebwyr i'r arolwg (darparwyr) [n=100].....	143
Tabl B.5: Nodweddion cyfweleion (defnyddwyr gwasanaeth) [n=49]	145
Tabl B.6: Nodweddion cyfweleion (darparwyr) [n=38].....	146

Rhestr o ffigurau

Ffigur 10.1: A yw eich sefydliad yn paratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol	111
Ffigur B.1: Ardal Awdurdod Lleol ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg yfwyr	141
Ffigur B.2: Yn ardal pa Awdurdod(au) Lleol yng Nghymru ydych chi'n gweithio? (Ticiwch bob un perthnasol)	144

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i lawer o bobl am eu help gyda'r prosiect hwn. Heb eu cefnogaeth hwy ni fyddem wedi gallu casglu cymaint o ddata gwerthfawr. Yn bwysicach na hynny, hoffem ddiolch i'r bobl hynny a roddodd o'u hamser i gwblhau'r arolwg ar-lein neu i gymryd rhan mewn cyfweiliad. Hoffem hefyd fynegi ein diolch i Grŵp Cynghori'r Prosiect am eu cefnogaeth barhaus ac, yn benodol, i Elwyn Thomas am ei ymdrechion i'n helpu i recriwtio samplau mor fawr o gyfweleion ac ymatebwyr i'r arolwg. Hoffem ddiolch hefyd i gydweithwyr yn y Byrddau Cynllunio Ardal (BCAau) a ledaenodd wybodaeth am yr astudiaeth ymhlith rhanddeiliaid perthnasol ac i'r rhanddeiliaid hynny a gynorthwyodd gyda'n hymdrechion i recriwtio.

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
<p>*Mae sawl acronym sy'n cael eu defnyddio o fewn un paragraff/darn – ond nid mewn unrhyw ran arall o'r adroddiad. Maent yn benodol i'r pwynt sy'n cael ei fynegi ac nid ydynt yn gyffredinol i'r cyfanwaith. Ni restrir mo'r rhain yma ond roddir teitl llawn i bob un y tro cyntaf y cânt eu defnyddio.</p>	
BCA	Bwrdd Cynllunio Ardal
APOSM	Panel Cynghori ar Gam-drin Sylweddau
HMPPS	Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi
MPA	Isafbris am Alcohol
MUP	Isafbris Uned – y talfyriad a ddefnyddir yn aml am y polisi a weithredir yn yr Alban
NBA	Alcohol nad yw'n Ddiod (h.y. golchwr ceg, persawr eillio, golchwyr dwylo)
GIG	Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
NPS	Sylweddau Seicoweithredol Newydd (gweler hefyd 'Sbeis')
GCP	Grŵp Cynghori'r Prosiect
OTC	Meddyginiaeth 'Dros y Cownter'
REA	Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth
RTD	Diodydd 'Parod i'w Hyfed' sy'n seiliedig ar Wirod
SARG	Sheffield Alcohol Research Group
Sbeis	Enw cyffredin ar fath/au o Sylweddau Seicoweithredol Newydd (h.y. canabinoidau synthetig)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau astudiaeth yn ymchwilio i effeithiau posibl cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru gyda phwyslais ar y posibilrwydd o 'newid sylweddau'. Cafodd yr astudiaeth ei chynnal gan gonsortïwm o ymchwilwyr o Figure 8 Consultancy, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr.
- 1.2 Roedd yr ymchwil yn casglu barn a safbwyntiau darparwyr gwasanaeth ac yfwyr gan ddefnyddio cyfuniad o gyfweiliadau ansoddol a holiaduron arolwg ar-lein (gweler Adrannau 1.7-1.10 'laith' a Phennod 5 am ragor o fanylion am y defnydd o'r labeli/disgrifyddion hyn).
- 1.3 Yn achos darparwyr gwasanaeth, prif amcanion yr astudiaeth oedd edrych ar:
- eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o ddeddfwriaeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) Act 2018 (cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y ddeddfwriaeth Isafbris am Alcohol)
 - y dulliau y gellid eu defnyddio i helpu pobl i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol;
 - eu canfyddiadau o'r tebygolrwydd y byddai pobl yn cyfnewid sylweddau;
 - eu syniadau am ba ddeunyddiau neu ganllawiau cymorth ychwanegol a allai fod yn ofynnol.
- 1.4 Yn achos yfwyr, roedd amcanion yr ymchwil yn debyg i'r rhai ar gyfer darparwyr gwasanaeth ond roeddent hefyd yn cynnwys rhai materion ychwanegol a oedd yn berthnasol i newid sylweddau. Yr amcanion ar gyfer yfwyr felly oedd edrych ar:
- eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth Isafbris am Alcohol;
 - eu canfyddiadau o'r ddeddfwriaeth arfaethedig;
 - sut y byddant yn paratoi ar gyfer y newid i'r ddeddfwriaeth;
 - eu defnydd presennol o sylweddau eraill;
 - a fyddent yn debygol o newid i sylwedd arall ac os felly, i beth, ac os na fyddant, pam;
 - a fyddent yn defnyddio unrhyw strategaethau i ymdopi â'r newid mewn pris, a
 - pha gymorth a all fod ei angen arnynt i baratoi ar gyfer y newid.

Strwythur yr adroddiad

1.5 Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n bedair prif ran:

- Mae'r rhan gyntaf yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol a throsolwg o'r dulliau ymchwilio.
- Mae'r ail ran yn cyflwyno canlyniadau'r astudiaeth ac sy'n seiliedig ar bum prif thema.
- Mae'r drydedd ran yn crynhoi'r canlyniadau ac mae'n cynnwys cyfres o argymhellion.
- Y bedwaredd ran yw'r **Atodiadau**, sy'n cynnwys cyfres o dablau a dogfennau eraill sy'n berthnasol i'r astudiaeth.

1.6 Gellir crynhoi cynnwys y penodau unigol fel a ganlyn:

Mae **Pennod 2** yn rhoi'r ymchwil yn ei gyd-destun drwy edrych ar beth yw isafbris am alcohol yn ymarferol ac ym mha rannau o'r byd mae'n weithredol. Mae'r bennod hefyd yn adolygu pam mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno isafbris am alcohol ac mae'n olrhain datblygiad y ddeddfwriaeth dros amser.

Mae **Pennod 3** yn cyflwyno canlyniadau Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA) o astudiaethau a fu'n ymchwilio i unrhyw effeithiau amnewid/newid a strategaethau ymdopi cysylltiedig unigolion a oedd yn deillio o gynnydd ym mhris alcohol.

Mae **Pennod 4** yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu ein data ni, gan gynnwys cyflawnhad dros y dewis o ddulliau ymchwil a sut yr aethom ati'n ymarferol i gasglu'r data ac i wneud y dadansoddiadau.

Mae **Pennod 5** yn crynhoi nodweddion y darparwyr a'r yfwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil, gan gynnwys manylion am yr arolwg ar-lein yn ogystal â'r cyfweiliadau.

Penodau 6 i 10 yw penodau'r canfyddiadau.

Mae **Pennod 6** yn edrych ar y posibilrwydd y gallai yfwyr newid sylweddau o ganlyniad i gyflwyno isafbris am alcohol. Mae'n defnyddio data'r arolwg a'r cyfweiliadau i edrych ar y tebygolrwydd o newid a natur unrhyw ymddygiad newid.

Mae **Pennod 7** yn defnyddio data'r arolwg a'r cyfweiliadau i ystyried ymwybyddiaeth, dealltwriaeth ac agweddau darparwyr ac yfwyr tuag at gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru.

Mae **Pennod 8** yn ystyried effaith bosibl isafbris am alcohol ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed o safbwynt yfwyr a darparwyr. Mae'n edrych ar yr hyn mae

darparwyr ac yfwyr yn credu a all ddigwydd mewn cysylltiad â'r math o alcohol a yfir, y trefniadau cyllido, patrymau prynu a'r cyd-destun lle mae alcohol yn cael ei ddefnyddio.

Mae **Pennod 9** yn ystyried canlyniadau posibl isafbris am alcohol ar agweddau eraill ar fywydau yfwyr. Mae'n edrych ar syniadau darparwyr ac yfwyr wrth ystyried a fydd newid yn y ddeddfwriaeth yn effeithio ar amgylchiadau ariannol, iechyd, trefniadau byw, perthnasoedd a theulu a ffrindiau, cyflogaeth ac ymddygiad troseddol yfwyr, ac os bydd, ym mha ffordd.

Mae **Pennod 10** yn mynd ymlaen i ystyried materion paratoi, cynllunio a chymorth. Mae'r bennod yn edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn awr i helpu yfwyr i ymdopi â'r ddeddfwriaeth newydd ac mae'n ystyried yr hyn mae darparwyr ac yfwyr yn credu y dylid ei wneud i baratoi ar gyfer y newid mewn pris.

Mae **Pennod 11** yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ac mae'n cynnwys rhestr o argymhellion a allai fod yn fuddiol i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cymorth yn y cyfnod cyn ac yn fuan ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd.

laith (labeli a disgrifyddion)

- 1.7 Er eglurder, mae tîm yr ymchwil wedi dewis mabwysiadu dau label/disgrifydd: 'yfwyr' a 'darparwyr (gwasanaeth)'. Cyflwynir nodweddion manwl y grwpiau hyn, ar gyfer samplau'r arolwg a'r cyfweiliadau, ym **Mhennod 5**.
- 1.8 Yn yr adroddiad, defnyddir termau ychwanegol ac awgrymog i adlewyrchu hanfodion is-boblogaethau sy'n cael eu portreadu o fewn y grwpiau cyffredinol hyn.
- 1.9 O ran y term 'yfwyr', mae'r adroddiad yn cydnabod dau fath cyffredinol: (a) 'yfwyr – sy'n cyfeirio at y rhai hynny yn y boblogaeth gyffredinol y mae eu defnydd o alcohol yn cael ei gategoreiddio fel cymedrol, peryglus neu niweidiol, ond nad ydynt ar hyn o bryd yn cael triniaeth/yn defnyddio gwasanaethau; a (b) 'defnyddiwr gwasanaeth' – sy'n cyfeirio at yfwyr dibynnol, niweidiol neu beryglus, sydd ar hyn o bryd yn defnyddio gwasanaethau.
- 1.10 O ran y term 'darparwyr (gwasanaeth)', fel y gwelir drwy Bennod 5, mae tîm yr ymchwil yn rhoi cipolwg ac yn cyfeirio at wasanaethau alcohol/cyffuriau arbenigol (e.e. Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), y trydydd sector), a rhai sy'n gweithio'n rheolaidd â defnyddwyr alcohol a/neu gyffuriau (e.e. cyfiawnder troseddol, tai).

2. Cefndir a chyd-destun

2.1 Mae'r bennod hon yn gosod cyd-destun yr adroddiad drwy edrych yn gyflym ar beth yn union yw isafbris am alcohol yn ymarferol ac ym mha rannau o'r byd mae'n weithredol. Ymhelaethir ar hyn ymhellach yn yr adolygiad llenyddiaeth ym Mhennod 3. Mae'r Bennod hefyd yn ystyried pam mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cyflwyno isafbris am alcohol ac yn olrhain datblygiad y ddeddfwriaeth o'r cychwyn hyd y presennol.

Pam cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru?

- 2.2 Mae lefelau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac yfed peryglus a niweidiol yn parhau'n broblem yng Nghymru er bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ystod o weithgaredd sy'n gydnaws â'i strategaeth gyfredol ar gam-drin sylweddau (Livingston et al, 2018). Mae tystiolaeth academaidd ryngwladol gref sy'n awgrymu mai codi pris alcohol yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i reoli lefelau yfed alcohol ac i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (Nelson et al, 2013b; Wagenaar, 2009). Fodd bynnag, hyd yn ddiweddar, mae prisio fel elfen allweddol wedi bod ar goll yn null Llywodraeth Cymru o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- 2.3 Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru'r Panel Cyngori ar Gamddefnyddio Sylweddau (APOSIM) ar y pryd a grŵp o ymchwilwyr o'r Sheffield Alcohol Research Group (SARG) ym Mhrifysgol Sheffield i edrych ar effaith bosibl ystod o bolisiau prisio alcohol fel modd o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.
- 2.4 Daeth y dadansoddiadau ar wahân a gynhaliwyd gan y ddwy set o arbenigwyr i'r casgliad mai polisi isafbris am alcohol yng Nghymru oedd un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol i roi sylw i niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Atgyfnerthwyd hyn wedyn yn 2015, gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015).
- 2.5 Roedd SARG wedi modelu nifer o isafbrisiau rhwng 35 a 70c yr uned (Meng et al, 2014), ac wedyn cafodd hyn ei ddiwygio yn 2018 (Angus et al, 2018). Er bod ystod o brisiau a modelau wedi'u cyflwyno, penderfynwyd ar 50c yr uned, a dyma oedd y lefel a drafodwyd yn bennaf ar y pryd ac a gyflwynwyd yn ddiweddarach yn yr Alban. Mae lleihad mewn yfed yn gymesur â'r pris, h.y. po fwyaf yw'r isafbris y mwyaf fydd y lleihad mewn yfed. Awgrymodd y model hwn y byddai lleihad mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yn dilyn unrhyw leihad mewn lefelau yfed, gan gynnwys rhai:

- marwolaethau cyfrifadwy (gostyngiad o 8.5 y cant ar 50c);
- absenoldeb o'r gwaith (1.9 y cant ar 50c); a
- throseddau (hyd at 3 y cant ar 50p).

2.6 Wrth gyflwyno'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru), roedd Llywodraeth Cymru'n dangos yn eglur beth oedd prif fwriad y bil fel mesur wedi'i anelu at y boblogaeth gyfan yn hytrach nag un sy'n targedu unrhyw is-grŵp penodol (e.e. yfwyr dibynnol)¹. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn datgan:

'Amcan pennaf y Bil yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i ysbytai y gellid eu priodoli i alcohol a 8 marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr niweidiol a pheryglus². Yn benodol, mae'r Bil yn cael ei anelu at ddiogelu iechyd yfwyr niweidiol a pheryglus (gan gynnwys pobl ifanc) sy'n dueddol o yfed symiau uwch o gynhyrchion rhad sy'n cynnwys lefelau alcohol uchel.'

Isafbrisiau am alcohol mewn gwledydd eraill

2.7 Ar ryw ffurf neu'i gilydd, mae polisiâu isafbris am alcohol ar waith eisoes mewn rhai gwledydd ledled y byd, fel:

- Canada (yn nhaleithiau British Columbia a Saskatchewan);
- Awstralia (yn y Northern Territory);
- Sawl un o daleithiau'r UDA (yn Connecticut, Kansas ac Ohio);
- Rwsia;
- Moldofa;
- Belarws;
- Wcrain; ac
- Uzbekistan.

2.8 Mae'r polisiâu yng Nghanada ac Awstralia'n eithaf tebyg i'r polisi isafbris sy'n seiliedig ar bris yr uned sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n nodedig mai'r polisi a fabwysiadwyd gan Lywodraeth yr Alban yn 2018 oedd y polisi cenedlaethol cyfan cyntaf o'i fath i gael ei gyflwyno. Mae polisi isafbris am alcohol tebyg i'r un sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru yn awr yn weithredol yn yr Alban (cyfeirir ato gyffredinol fel MUP (Isafbris Uned am Alcohol). Ar 15 Tachwedd

¹ Cafodd hyn ei ddatgan yn glir yn nhrefodaethau'r [Pwyllgor Cyllid ar 7 Rhagfyr 2017](#) (ac mae paragraffau 54 – 62 yn trafod yfwyr dibynnol).

² Er bod yfwyr dibynnol yn debygol o fod yn yfwyr 'niweidiol', nid yw pob yfwr niweidiol yn yfwr dibynnol.

2017, yn dilyn achos cyfreithiol a ddygwyd gan gynrychiolwyr y diwydiant, ac a barodd am bum mlynedd, cadarnhaodd Goruchaf Lys y DU fod y ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i Isafbris Uned i gael ei gyflwyno yn yr Alban yn gyfreithlon. Yn dilyn deufis o ymgynghori, cafodd isafbris uned am alcohol o 50c ei gyflwyno yn yr Alban, ar 1 Mai 2018.

- 2.9 Mae'r modelau isafbris am alcohol eraill a restrir uchod yn rhai tra gwahanol. Er enghraifft, mae Uzbekistan yn gwahardd gwerthu'n rhatach na phris ei gost (gwerthu am bris sy'n is na'r gost o'i gynhyrchu)³. Cafodd hyn hefyd ei fabwysiadu gan Lywodraeth y DU, gan ddod i rym yng Nghymru a Lloegr ar 28 Mai 2014 (Y Swyddfa Gartref 2017). Mae gan Felarws, Rwsia, Wcrain a Moldofa lefelau gwahanol o isafbrisiau sy'n ddibynnol ar y math o alcohol (h.y. cwrw, gwin, gwirodydd)^{4,5}. Mae'n bwysig nodi nad oes dim gwerthusiadau swyddogol o'r polisiau hyn ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd.⁶
- 2.10 Efallai mai'r adroddiad mwyaf manwl o gyd-destun, sail resymegol, proses a bwriad Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yw diweddariad (Mehefin) 2018 i'r Memorandwm Esboniadol sy'n ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoliadol a'r Nodiadau Esboniadol (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o ddiben a chefnidir y Bil, modelau prisiau a threthiant ledled y byd, effaith a fwriadwyd ar gyfer y gwahanol brisiau a thrafodaethau eraill cysylltiedig.

Hanes gosod isafbris am alcohol yng Nghymru

- 2.11 Nid yw polisi isafbris am alcohol yn dreth. Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn pennu fformwla i gyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol – sy'n seiliedig ar yr isafbris uned, canran cryfder yr alcohol, a'i gyfaint. Mae'n bwysig nodi bod refeniw sy'n deillio o hyn yn mynd i gynhyrchwyr a manwerthwyr y ddiod, ac nid i'r Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried a ellir cyflawni ei hamcanion o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy godi lefel y dreth ar alcohol (Llywodraeth Cymru, 2018). Fodd bynnag, yn rhannol oherwydd y cyfyngiadau ar allu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i basio deddfwriaeth ar drethiant ac yn rhannol oherwydd y ffaith bod tystiolaeth (APOS, 2014) yn awgrymu na fyddai trethiant yn unig yn targedu yfed peryglus a niweidiol yn yr un ffordd – nac

³ [Sefydliad Iechyd y Byd](#)

⁴ [Gweinyddiaeth Gyllid Wcrain](#)

⁵ [Senedd Gweriniaeth Moldofa](#)

⁶ Er y dylid nodi bod gwerthuso ar ôl gweithredu MUP yr Alban yn dechrau cyrraedd y parth cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth: [Monitoring and Evaluating Scotland's Alcohol Strategy \(MESAS\)](#)

mor effeithiol – ag isafswm pris, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar yr olaf. Hefyd, isafbris am alcohol yw'r dangosydd cryfaf ar gyfer lleihau lefelau yfed ymhlith y boblogaeth gyfan.

- 2.12 Dilynodd ymgynghoriad ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) yn 2015, a gwelwyd fod cryn gefnogaeth i'r syniad o gyflwyno isafbris am alcohol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cydnabod yr effaith allweddol y byddai hynny'n ei gael ar leihau'r lefelau presennol o yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru, a'r manteision iechyd cysylltiedig â'r effaith a fyddai'n ei gael ar anghydraddoldeb iechyd.
- 2.13 Cyflwynwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 23 Hydref 2017. Roedd yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno isafbris am werthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru ac i'w gwneud yn drosedd i werthu neu gyflenwi alcohol am lai na'r pris hwnnw. Ym marn Llywodraeth Cymru, er mai amcan y Bill oedd mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, a dull epidemiolegol effeithiol o warchod iechyd y cyhoedd, roedd hefyd yn debygol o dargedu'r yfwyr peryglus a niweidiol hynny sy'n dueddol o yfed mwy o gynnyrch rhad gyda lefelau uchel o alcohol ynddynt.
- 2.14 Yn ystod camau craffu'r Bil, mynegwyd pryderon gan Aelodau Cynulliad⁷ a rhanddeiliaid eraill, ynghlŷn â chanlyniadau anfwriadol a allai ddeillio o'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai yfwyr peryglus a niweidiol droi at sylweddau eraill. Fodd bynnag, mae tystiolaeth sy'n dangos i ba raddau y gallai ymddygiad o'r fath amlygu'i hun yn brin gan nad oes llawer o dystiolaeth, nad yw'n gwrthddweud ei hun, wedi'i chyhoeddi ar y mater (Falkner et al, 2015; Keatley et al, 2016; Stockwell, 2017).
- 2.15 Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ei adroddiad cam 1 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) a chafodd argymhelliad ei gynnwys i ymchwilio i'r mater hwn. Mewn ymateb, derbyniodd Llywodraeth Cymru'r argymhelliad hwn a chyhoeddodd Wahoddiad i Dendro am ymchwil i ddefnyddwyr sy'n newid sylweddau

⁷ [Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon 23/11/17](#)

(C086/2018/2019) a dyfarnwyd y contract i gonsortiw m o ymchwilwyr o Figure 8 Consultancy, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Glyndŵr.

- 2.16 Er bod y ddeddfwriaeth newydd yn seiliedig ar ddull poblogaeth gyfan i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, cafodd yr ymchwil ei gomisiynu i ganolbwyntio ar agweddau a chanfyddiadau'r rhai sydd naill ai'n cael neu'n darparu cymorth ar gyfer problemau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Rhaid felly ystyried y canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn y cyd-destun hwnnw.

3. Adolygiad Llenyddiaeth

Prif negeseuon

- Canfu bob astudiaeth dystiolaeth fod cynyddu prisiau alcohol yn arwain at leihau faint o alcohol a yfwyd ymhlith eu sampl ac roedd peth dystiolaeth bod amnewid a/neu newid yn digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnydd yn y prisiau.
- Dangosodd bob astudiaeth mai anaml y defnyddid strategaethau ymdopi niweidiol ymhlith y boblogaeth hon pan oedd alcohol yn mynd yn llai fforddiadwy.
- Awgrymodd astudiaethau y gallai unigolion â hanes blaenorol o ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau fod mewn mwy o berygl o amnewid alcohol am gyffuriau anghyfreithlon o ganlyniad i gynnydd yn yr isafbris uned am alcohol, o'i gymharu â rhai sydd heb brofiadau o'r fath yn eu gorffennol.
- Byddai unrhyw ganlyniadau anfwriadol o'r ddeddfwriaeth cynyddu prisiau'n debygol o fod yn rhai tymor byr a gellid eu gwrthbwysu drwy gyflwyno dulliau ataliol a rhag-gynllunio ymhlith darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol.
- O gofio nifer cyfyngedig yr astudiaethau a nodir yn yr adolygiad hwn, mae angen ymchwilio ymhellach i'r pwnc hwn cyn cadarnhau bodolaeth amnewid a/neu newid o ganlyniad i gynyddu prisiau alcohol.
- Ychydig yn unig o dystiolaeth betrus a ganfu'r adolygiad hwn i awgrymu y byddai amnewid neu newid i sylweddau mwy niweidiol (cyfreithlon neu anghyfreithlon) yn digwydd o ganlyniad i gynyddu prisiau alcohol.

3.1 Mae effaith cynyddu prisiau alcohol (sy'n cynnwys trethiant ac isafbris uned) ar lefelau yfed alcohol yn cael ei gydnabod, fel y dangosir mewn llenyddiaeth empeiraidd (Robinson et al, 2014; Stockwell, 2012a; Stockwell, 2012c), meta-ddadansoddiadau (Wagenaar et al, 2009) ac adolygiadau systematig (Elder et al, 2010; Fogarty, 2010; Nelson, 2013a; Sharma et al, 2017). Fodd bynnag, ni wyddom ryw lawer am effaith lawn unrhyw bolisi trethiant neu brisio, gan gynnwys unrhyw effeithiau ar amnewid neu newid alcohol/sylweddau anghyfreithlon a all ddigwydd fel canlyniad uniongyrchol (Araya & Paraje, 2018; Sharma et al, 2017)⁸, nac am strategaethau ymdopi unigolion mewn ymateb i alcohol llai fforddiadwy (Erickson et al, 2018).

⁸ Adwaenir hefyd fel 'elastigedd galw croes brisio'.

- 3.2 Mae awgrymiadau bod yfwyr alcohol gyda hanes o gamddefnydd neu ddibyniaeth ar gyffuriau anghyfreithlon yn fwy tebygol o amnewid alcohol am gyffur anghyfreithlon pan fydd pris alcohol yn codi. Fodd bynnag, ni wyddom lawer am rôl dibyniaeth yn y tebygolrwydd y bydd rhywun yn newid o un sylwedd i un arall pan fydd prisiau'n newid.
- 3.3 Yn y bennod hon rydym yn cyflwyno canlyniadau asesiad cyflym sy'n adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael o unrhyw effeithiau amnewid/newid a strategaethau ymdopi cysylltiedig unigolion sy'n deillio o gynnydd ym mhrisiau alcohol. Mae'r bennod hefyd yn ystyried pwysigrwydd diagnosis blaenorol o gam-drin neu ddibyniaeth ar sylweddau i ymddygiad amnewid a sut y gallai hyd a graddfa dibyniaeth ar sylwedd ddyfanwadu ar benderfyniad rhywun i amnewid.

Dulliau

- 3.4 Cafwyd ffynonellau llenyddiaeth drwy chwilio dwy gronfa ddata lyfryddiaethol: Applied Social Sciences Index and Abstracts (ASSIA) a Web of Science. Roedd yn hysbys bod y cronfeydd data hyn yn cynnwys astudiaethau ar 'newid' alcohol a sylweddau seico-weithredol. Cynhaliwyd cyfres o chwiliadau Boole i ganfod llenyddiaeth berthnasol a oedd yn gysylltiedig ag (1) alcohol a newid gyda chyfeiriad at bris, ac (2) alcohol a newid yn gyffredinol.
- 3.5 I leihau'r tueddiadau yn y dethol, cynhaliwyd cyfres o chwiliadau gan ddefnyddio'r algorithmau chwilio canlynol⁹:
- (alcohol) AND (switch* OR substit* OR complement*)¹⁰
 - (alcohol) AND (switch* OR substit* OR complement*) AND (pric*)
 - (alcohol) AND (switch* OR substit* OR complement*) AND (pric*) AND (drug*)¹¹
- 3.6 Cafodd canlyniadau hyd 12 Rhagfyr 2018 eu lawrlwytho a'u cadw ym meddalwedd cyfeirio Endnote. Cafodd yr eitemau wedyn eu sgrinio, a chafwyd gwared ar ddyblygiadau. Cafodd y detholion o'r erthyglau a oedd yn weddill wedyn eu darllen ac fe'u trafodwyd gan ddau aelod o dîm yr ymchwil i benderfynu ar eu perthnasedd i

⁹ Cafodd chwiliadau eu teilwra'n benodol ar gyfer pob cronfa ddata a'r tagiau maes a ddefnyddir ynddynt. Yn achos pob enghraifft, mae, ASSIA yn cynnwys ffwythiant sy'n caniatáu i ddetholiadau gael eu sgrinio, gyda Web of Science yn caniatáu i bynciau'n unig i gael eu sgrinio. O ganlyniad, cafodd detholiadau eu chwilio yn ASSIA a phynciau yn Web of Science. Roedd chwilio'n ôl teitl yn amhriodol yn y ddwy gronfa ddata gan fod hynny'n lleihau nifer y canlyniadau'n sylweddol.

¹⁰ Chwiliad a wnaed yn ASSIA yn unig gan fod yr algorithm yn dangos nifer fawr o eitemau anaddas i'w sgrinio yn Web of Science (n=55,713). Mae hyn am fod Web of Science yn cynnwys ystod o feysydd gwyddonol.

¹¹ Chwiliad a wnaed yn Web of Science yn unig gan fod yr algorithm yn dangos nifer fach o eitemau yn ASSIA (n=17), gyda phob un ohonynt yn ddyblygiad o eitemau a gafwyd yn chwiliad rhif 2.

nodau'r adolygiad. Cafwyd gwared ar astudiaethau lle'r oedd yn amlwg nad oeddent yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer eu cynnwys. Mewn unrhyw achos lle'r oedd anghytuno ynglŷn â pherthnasedd astudiaeth i nodau'r adolygiad, bu'r ddau ymchwilydd yn trafod yr erthygl nes iddynt ddod i gytundeb i gynnwys neu wrthod yr astudiaeth.

Meini prawf cynnwys

- 3.7 Roedd y meini prawf cychwynnol ar gyfer cynnwys yn fwriadol gyfyng ac roedd yn cynnwys unrhyw astudiaethau gyda phwyslais ar newid o alcohol i naill ai ffurf arall o alcohol neu sylwedd seico-weithredol arall o ganlyniad i newid prisiau (gan gynnwys Isafbris uned am alcohol/isafbris am alcohol). Yna, defnyddiwyd ail feini prawf ehangach a oedd yn cynnwys unrhyw astudiaethau gyda phwyslais ar newid i naill ai ffurf arall o alcohol neu sylwedd seico-weithredol arall. Y rhesymu wrth wraidd y dull dau gam hwn oedd: (1) ychydig iawn o ymchwil sydd ar gael ar newid o alcohol o ganlyniad i newid mewn prisiau (fel y gwelwyd yn ein chwiliad cyntaf), a (2) ein bwriad i ymchwilio ac i gymhwyso safbwyntiau damcaniaethol ar newid mewn meysydd eraill (er enghraifft, sylweddau seico-weithredol, lle mae corff mwy cydnabyddedig o lenyddiaeth ar gael) yn ein hymchwil. Rhaid bod yr astudiaethau ar gael i dîm yr ymchwil yn ystod y cyfnod casglu data ac wedi'u cyhoeddi yn Saesneg.

Canlyniadau

- 3.8 Amlygodd y chwiliad cyntaf o gronfeydd data gyfanswm o 794 o astudiaethau: ASSIA (n=552) a Web of Science (n=246). Ar ôl cael gwared at ddyblygiadau, cafodd cyfanswm o 530 o astudiaethau unigryw eu dadansoddi am berthnasedd. Cafodd y detholiadau o'r astudiaethau hyn eu hadolygu a chafwyd y cyhoeddiadau hynny yr ymddengys eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf cymhwysedd. Arweiniodd hyn at ddetholiad dros dro o 106 o astudiaethau y barnwyd a allai fod y addas.
- 3.9 Astudiwyd y cyhoeddiadau a gafwyd i benderfynu ar eu perthnasedd i'r adolygiad. Cafodd tair astudiaeth eu gwrthod am eu bod yn ddyblygiad (n=1), amherthnasol (n=1) a heb eu cyhoeddi yn Saesneg (n=1), a oedd yn gadael cyfanswm o 103 o astudiaethau perthnasol posibl. Cafodd y rhain wedyn eu hasesu am eu cymhwysedd, a barnwyd nad oedd saith yn hygyrch ac nad oedd 73 yn berthnasol, a oedd yn gadael sampl o 23 o astudiaethau perthnasol.

3.10 Cyflwynir siart llif PRISMA sy'n cynnwys manylion am y broses chwilio yn Atodiad A.

3.11 Mae'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth hwn wedi'i rannu'n chwe phrif adran:

- Mae'r adran gyntaf yn rhoi trosolwg o'r llenyddiaeth a ganfuwyd sy'n ymdrin â newid a/neu amnewid o ganlyniad i bolisi prisio alcohol.
- Mae'r ail yn crynhoi'r llenyddiaeth sy'n gysylltiedig â strategaethau ymdopi yfwyr mewn ymateb i alcohol anfforddiadwy.
- Mae'r drydedd adran yn cyflwyno'r astudiaethau hynny sy'n trafod pwysigrwydd diagnosis blaenorol o gam-drin neu ddibyniaeth ar sylweddau i ymddygiad amnewid.
- Mae'r bedwaredd yn crynhoi canfyddiadau astudiaethau a oedd yn edrych sut y gallai hyd a graddfa dibyniaeth ar sylwedd ddylanwadu ar benderfyniad unigolyn i amnewid.
- Mae rhan olaf ond un yr asesiad yn cyflwyno'r llenyddiaeth sy'n dangos mathau o ymddygiad amnewid.
- Mae'r adolygiad yn cloi gyda thrafodaeth ar y prif themâu a amlygwyd drwy chwilio'r llenyddiaeth.

Crynodeb o astudiaethau

3.12 Canfuwyd deg astudiaeth a oedd yn edrych ar y berthynas rhwng cynnydd ym mhrisiau alcohol a'r defnydd o alcohol a newid/amnewid cysylltiedig, gan gynnwys strategaethau ymdopi unigolion mewn ymateb i alcohol anfforddiadwy. Mae nodweddion yr astudiaethau hyn wedi'u crynhoi yn Nhabl 3.1 isod:

Tabl 3.1: Nodweddion astudiaethau sy'n edrych ar y berthynas rhwng cynnydd ym mhrisiau alcohol a'r defnydd o alcohol a newid/amnewid cysylltiedig

Awdur(on) yr Astudiaeth	Gwlad	Dyluniad yr astudiaeth
Black et al (2011)	Yr Alban	Astudiaeth drawstoriadol
Chaiyasong et al (2011)	Gwlad Thai	Astudiaeth cyn ac ar ôl
Doran and DiGiusto (2011)	Awstralia	Astudiaeth cyn ac ar ôl
Erickson et al (2018)	Canada	Astudiaeth drawstoriadol
Falkner et al (2015)	Seland Newydd	Astudiaeth drawstoriadol
Hobday et al (2016)	Awstralia	Astudiaeth drawstoriadol
Jiang & Livingston (2015)	Awstralia	Dadansoddiad cyfres amser
Muller et al (2010)	Yr Almaen	Astudiaeth drawstoriadol
O'May et al (2016)	Yr Alban	Astudiaeth draws-toriadol
Stockwell et al (2012)	Canada	Sylwadaeth sy'n ailadrodd canfyddiadau traethawd nad oedd modd cael gafeael arno

3.13 Nodwyd tair astudiaeth ar ddeg arall a oedd yn gymwys ac a oedd yn ymchwilio i'r berthynas rhwng cynnydd mewn pris ac ymddygiad defnyddio sylweddau, gan gynnwys pwysigrwydd diagnosis blaenorol o gam-drin neu ddibyniaeth i'r ymddygiad amnewid a sut y gallai hyd a graddfa dibyniaeth ar sylwedd ddylanwadu ar benderfyniad unigolyn i amnewid. Mae nodweddion yr astudiaethau hyn wedi'u crynhoi yn Nhabl 3.2 isod:

Tabl 3.2: Nodweddion astudiaethau sy'n edrych ar y berthynas rhwng cynnydd ym mhrisiau alcohol a'r defnydd o alcohol a newid/amnewid cysylltiedig

Awdur(on) yr Astudiaeth	Gwlad	Pwyslais yr astudiaeth
Chandra and Chandra (2015)	India	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
Chikritzhs et al (2009)	Awstralia	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
Clements (2004)	Awstralia	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
Csak et al (2013)	Hwngari	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
Degenhardt et al (2005c)	Awstralia	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
DiNardo and Lemieux (2001)	Unol Daleithiau	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
Hall and Chikritzhs (2010)	Awstralia	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
Jofre-Bonet and Petry (2008)	Unol Daleithiau	Tasgau prynu damcaniaethol
Miller and Droste (2013)	Awstralia	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
Peters and Hughes (2010)	Unol Daleithiau	Cynnydd gwirioneddol mewn prisiau a newid gwirioneddol mewn ymddygiad
Peters et al (2017)	Unol Daleithiau	Tasgau prynu damcaniaethol
Petry & Bickel (1998)	Unol Daleithiau	Tasgau prynu damcaniaethol
Subbaraman (2016)	Amryw	Adolygiad o'r llenyddiaeth

Effaith pris ar y defnydd o alcohol ac amnewid/newid ymhlith y boblogaeth gyffredinol

3.14 Roedd pump allan o'r deg astudiaeth (gweler Tabl 3.1 uchod) yn edrych ar effaith cynnyddu prisiau ar ddefnydd o alcohol ac amnewid/newid cysylltiedig ymhlith y boblogaeth gyffredinol (Chaiyasong et al, 2011; Doran & DiGiusto, 2011; Hobday et al, 2016; Jiang & Livingston, 2015; Muller et al, 2010). Canfu bob un ohonynt dystiolaeth fod codi prisiau alcohol yn arwain at yfed llai o alcohol ymhlith eu sampl, ac roedd peth dystiolaeth o amnewid/newid yn digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r cynnydd yn y pris. Fodd bynnag, roedd graddfa hyn yn amrywio o astudiaeth i

astudiaeth a gwelwyd ei bod yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, gan gynnwys y math o ddiod a oedd wedi codi yn ei phris, a'r boblogaeth a oedd wedi'i chynnwys yn sampl yr astudiaeth.

- 3.15 Er enghraifft, canfu astudiaeth cyn ac ar ôl cynnydd mewn trethiant ar ddiodydd parod i'w hyfed (RTD) sy'n seiliedig ar wirodydd yn Awstralia fod y defnydd o RTD wedi gostwng er bod y defnydd o ddiodydd alcoholaidd eraill wedi cynyddu ar lefel y boblogaeth gyffredinol yn dilyn cyflwyno'r dreth (Doran & DiGiusto, 2011). Fodd bynnag, er bod modd dehongli'r cynnydd yn y defnydd o ddiodydd alcoholaidd eraill i ddangos bod yfwyr RTD wedi newid i brynu RTD sy'n seiliedig ar wirodydd neu win neu seidr, awgryma'r awduron y gallai hyn fod o ganlyniad i barhad mewn tueddiadau sylfaenol o fewn y boblogaeth gyffredinol yn hytrach nag effaith amnewid. Roedd y tueddiadau hyn yn cynnwys: mwy o sensitifrwydd i brisiau ymhlith defnyddwyr o ganlyniad i'r argyfwng ariannol byd-eang; hoffterau'r boblogaeth gyffredinol yn cefnu ar gwrw a gwirodydd ac yn ffafrio diodydd eraill, ac ymateb defnyddwyr i'r gallu ymgyrchoedd marchnata sy'n cael eu haddasu a strategaethau cenedlaethol i fynd i'r afael â goryfed mewn pyliau a oedd yn weithredol ar adeg yr ymchwil. O ganlyniad, daeth yr astudiaeth i'r casgliad nad oedd modd gwybod a oedd yr amnewid yn ganlyniad uniongyrchol i'r dreth.
- 3.16 Nid yw'r canfyddiadau hyn yn wahanol iawn i rai astudiaeth drawstoriadol i'r cysylltiad rhwng treth alcopop a lefelau yfed alcohol ymhlith y glasoed yn yr Almaen (Muller et al, 2010). Canfu'r astudiaeth er bod lefelau yfed alcopop wedi gostwng ar ôl gweithredu'r dreth alcopop, gwelwyd cynnydd yn lefelau'r gwirodydd roedd y glasoed yn eu hyfed. Daeth yr awduron i'r casgliad bod y dreth wedi arwain at amnewid alcopops yn rhannol gan wirodydd a bod hoffterau wedi newid i ddiodydd a oedd yn gysylltiedig â phatrymau yfed mwy peryglus. Fodd bynnag, yn yr un modd ag astudiaeth Doran and DiGiusto (2011), mae'r awduron yn dweud nad yw'r newidiadau a welwyd mewn alcohol (yn enwedig alcopop) sy'n cael ei yfed yn ganlyniad i'r dreth alcopop yn unig ond y gallai hefyd adlewyrchu newidiadau diwylliannol a chymdeithasol cyffredinol sy'n gysylltiedig â newid mewn hoffterau alcohol.

- 3.17 Fodd bynnag, mae peth awgrym o ddata arall, fod pris alcohol yn gyfrifol am ran sylweddol o effeithiau amnewid. Er enghraifft, canfu astudiaeth ddamcaniaethol o sut mae pris yn effeithio ar brynu alcohol bod y rhan mwyaf o gyfranogwyr yn amharod i newid y math a'r brand o ddiod maent yn arfer ei phrynu os oedd y pris yn codi 10 y cant (Hobday et al, 2016). Fodd bynnag, roedd yn ymddangos mai cynnydd o 50 y cant oedd y trothwy lle'r oedd cyfranogwyr yn barod i amnewid, gyda dau draean o ymatebwyr yn dangos newid i frand neu fath rhatach o ddiod. Yn arwyddocaol, ar ôl ystyried statws economaidd, roedd y rhai a oedd yn byw mewn codau post â statws economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o amnewid am frand neu fath rhatach o ddiod ar ôl cynnydd o 10 y cant yn y pris.
- 3.18 Yn yr un modd, canfu dadansoddiad cyfres amser blynyddol o ymatebion o ddefnydd o alcohol i newid ym mhrisiau alcohol a fforddiadwyedd yn Awstralia rhwng 1974 a 2012 fod, ar ôl ystyried enillion wythnosol cyfartalog cenedlaethol, cynnydd o 10 y cant ym mhris alcohol yn gysylltiedig â gostyngiad o ddau y cant y pen yn yr alcohol sy'n cael ei yfed yn y flwyddyn ganlynol (Jiang & Livingston, 2015). Roedd lleihad yn yr alcohol oedd yn cael ei yfed yn cael ei wrthbwysu gan gynnydd yn yr opsiynau mwy fforddiadwy a oedd yn cael eu hyfed.
- 3.19 Yn olaf, canfu astudiaeth cyn ac ar ôl o effeithiau cynnydd yn y dreth ar wirodydd wedi'u distyllu yng Ngwlad Thai fod lefelau yfed gwirodydd wedi'u distyllu wedi gostwng 10.3 y cant yn genedlaethol yn dilyn cyflwyno'r dreth (Chaiyasong et al., 2011). Fodd bynnag, amcangyfrifwyd fod cyfanswm net yr alcohol a yfwyd wedi gostwng 2.3 y cant yn unig oherwydd effeithiau amnewid rhwng diodydd alcoholaidd. Gellid priodoli'r cynnydd yn y cwrw a yfwyd (18.5 y cant) i'r effeithiau amnewid hyn yn bennaf, canfyddiad yn ôl yr awduron a all hefyd fod yn ganlyniad i dueddiadau cenedlaethol yn y dewis o ddiodydd a ffefrir. Roedd amcangyfrifon cenedlaethol ar newid i wirodydd gwyn wedi'u distyllu'n anghyfreithlon – achos pryder cyn cyflwyno'r dreth – yn fychan iawn (0.8 y cant) ac yn gyffredin yn unig yn y cymunedau hynny â thraddodiad o gynhyrchu alcohol anghyfreithlon. Mewn cymunedau nad oedd yn ei gynhyrchu, ni welwyd dim symud tuag at alcohol anghyfreithlon. Ar sail hyn daeth yr awduron i'r casgliad nad oedd troi at alcohol anghyfreithlon yn dilyn cyflwyno'r dreth yn broblem fawr.

Strategaethau ymdopi yfwyr dibynnol o ganlyniad i gynnydd ym mhrisiau alcohol

- 3.20 Roedd pum astudiaeth yn canolbwyntio ar ymatebion yfwyr dibynnol neu 'sâl' (gan gynnwys yfwyr digartref) i alcohol llai fforddiadwy (Black et al, 2011; Erickson et al, 2018; Falkner et al, 2015; O'May et al, 2016; Stockwell et al, 2012)¹². Nododd bob un o'r astudiaethau mai anaml yr oedd strategaethau ymdopi niweidiol yn cael eu defnyddio ymhlith y boblogaeth hon pan oedd alcohol yn mynd yn llai fforddiadwy. Er enghraifft, nododd astudiaeth ansoddol o 175 o bobl a oedd yn ddibynnol ar alcohol a heb gartref sefydlog mewn pum dinas yng Nghnada y strategaethau ymdopi a fabwysiadwyd amlaf ymhlith y boblogaeth pan fyddai alcohol yn mynd yn llai fforddiadwy (Erickson et al, 2018). Ymdopi drwy addasu eu cyllideb oedd y strategaeth a welwyd amlaf, a dilynwyd hynny gan wneud heb alcohol, aros am arian a gwneud i'w cyflenwad para'n hwy. Roedd y dair strategaeth olaf i gyd yn golygu ymdopi drwy yfed llai o alcohol i ryw raddau. Er bod rhai cyfranogwyr yng nghyfanswm y sampl wedi dweud eu bod yn defnyddio alcohol nad oedd yn ddiod, dwyn o siopau gwerthu alcohol a defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ('marijuana'), gwelwyd fod y strategaethau hyn yn llai cyffredin.
- 3.21 Cafodd y canfyddiadau hyn eu hategu gan arolwg trawstoriadol o 115 o yfwyr dibynnol yn Seland Newydd a ganfu mai anaml y defnyddid dwyn alcohol, a defnyddio alcohol nad yw'n ddiod, fel strategaethau mewn ymateb i alcohol anfforddiadwy (Falkner et al, 2015). Ar y llaw arall, wrth wynebu sefyllfa o fod heb arian ar gyfer alcohol, nododd y cyfranogwyr amrywiaeth o strategaethau ymdopi a oedd yn cynnwys mynd heb hanfodion (e.e. biliau cyfleustodau, bwyd, benthyca alcohol a mynd heb alcohol. Ni chafwyd dim cofnodion ychwaith o unrhyw fwriad i newid i alcohol wedi'i ddistyllu'n anghyfreithlon, nac i ddwyn alcohol mewn astudiaeth drawstoriadol o 377 o yfwyr dibynnol, a oedd yn edrych ar yr hyn a allai ddigwydd ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth isafbris uned am alcohol yn yr Alban (Black et al, 2011).
- 3.22 Yn olaf, canfu un astudiaeth ansoddol ddamcaniaethol arall o safbwyntiau 20 o yfwyr trwm ar gyflwyno isafbris uned am alcohol yn yr Alban fod rhai cyfranogwyr wedi cyfeirio at leihad posibl yn yr alcohol roeddent yn ei yfed o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth (O'May et al, 2016). Fodd bynnag, nid oedd yr effeithiau ar lefelau yfed a'r niwed cysylltiedig yn gwbl amlwg. Y rheswm oedd am nad oedd llawer o'r

¹² Mae Stockwell et al (2012) yn sylwadaeth sy'n ategu canfyddiadau traethawd nad oedd modd cael gafael arno ar ymatebion ymdopi yfwyr digartref (Williams, 2011).

cyfranogwyr yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth isafbris uned am alcohol cyn cael eu cyfweld ac nid oeddent wedi cael cyfle i gynllunio ac i feddwl am strategaethau ymdopi posibl. O ganlyniad, roedd argymhellion o'r astudiaeth yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ymhlith y grŵp hwn cyn eu gweithredu. Fel yn achos astudiaethau eraill, cafwyd awgrym hefyd y byddai rhai o ganlyniadau anfwriadol y ddeddfwriaeth (h.y. cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol, yn enwedig ymhlith yfwyr dibynnol) yn debygol o fod yn rhai tymor byr, ac y gellid eu lleddfu drwy gyflwyno dulliau ataliol a rhag-gynllunio ymhlith darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol (Black et al, 2011; Erickson et al, 2018; Stockwell et al, 2012).

Rôl hanes blaenorol o gamddefnyddio/dibyniaeth ar sylweddau eraill

- 3.23 Ymchwiliodd Miller & Droste (2013) i effaith newidiadau arfaethedig mewn pris alcohol ymhlith sampl o fyfyrwyr prifysgol yn Awstralia, grŵp demograffig sydd wedi gosod cynsail o ddefnydd risg uwch o alcohol a chyffuriau a sensitifwydd uchel i gyfyngiadau economaidd. Ymchwiliodd yr awduron i newidiadau posibl ym mhatrymau yfed alcohol y cyfranogwyr ac i'r posibilrwydd o newid i gyffuriau eraill. Fel yn achos astudiaethau blaenorol tebyg (e.e. Babor et al, 2010), dywedodd cyfranogwyr yn byddent yn debygol ar y cyfan, yn achos cynnydd ym mhris uned o alcohol, o leihau faint o alcohol yr oeddent yn ei yfed yn hytrach na newid i sylweddau eraill. Roedd yn arwyddocaol, fodd bynnag, wrth i'r pris am bob diod godi, bod cynnydd hefyd yn nifer y cyfranogwyr a fyddai'n ystyried ecstasi a chanabis fel dewisiadau ymarferol yn lle alcohol. Canfyddiad pwysig hefyd yw bod y myfyrwyr hynny a oedd â hanes blaenorol o ddefnyddio ecstasi a chanabis yn debygol o newid i alcohol am 'bris sylweddol is' o'i gymharu â'r rhai nad oedd wedi defnyddio'r naill gyffur na'r llall (\$10 o'i gymharu â \$13).
- 3.24 Gwelwyd canfyddiad tebyg gan Peters & Hughes (2010), a fu'n astudio newidiadau yn y patrymau o ddefnyddio sylweddau ar ôl rhoi'r gorau i ddefnyddio canabis, yn yr Unol Daleithiau. Daeth yr awduron i'r casgliad fod defnyddwyr marijuana gyda diagnosis o gamddefnyddio neu ddibyniaeth ar alcohol yn y gorffennol yn amnewid alcohol i raddau mwy na rhai heb y diagnosis hwn (cynnydd o 52 y cant o'i gymharu â chynnydd o dri y cant yn y defnydd o alcohol ar ôl rhoi'r gorau iddi).

3.25 Mae'r astudiaethau uchod yn awgrymu y gallai unigolion â hanes blaenorol o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon fod mewn mwy o berygl o amnewid alcohol am gyffuriau anghyfreithlon o ganlyniad i gynnydd yn isafbris uned o alcohol, o'i gymharu â rhai heb brofiadau o'r fath yn eu gorffennol.

Rôl graddfa dibyniaeth

3.26 Ymchwiliodd Degenhardt et al (2005c) i effaith lleihau'r cyflenwad cyffuriau ar y galw am gyffuriau. Yn benodol, mae'n cofnodi newidiadau yn y patrymau cymryd cyffuriau ymhlith defnyddwyr heroin yn Awstralia yn dilyn prinder difrifol o heroin ar y farchnad. Daeth i'r casgliad bod elastigedd prisiau heroin yn amrywio rhwng defnyddwyr heroin hŷn ac iau (nodwyd hyn hefyd gan Bretteville-Jansen a Sutton, 1996, a Jofre-Bonet a Petry, 2008). Yn achos defnyddwyr hŷn a mwy di-ildio, nid oedd codiadau sylweddol ym mhris heroin yn ddigon i leihau eu defnydd o'r cyffur, a oedd yn golygu bod eu galw am y cyffur hwn yn anelastig. Ar y llaw arall, roedd y galw am heroin yn elastig o ran pris ymhlith defnyddwyr iau, llai di-ildio, a ddywedodd mai eu hymateb i'r prinder oedd cynyddu eu defnydd o'r cyffuriau anghyfreithlon eraill a oedd ar gael ar y pryd (h.y. cocên a methamffetamin).

3.27 Ymchwiliodd Peters et al (2017) i newidiadau yn ymddygiad rhai oedd yn defnyddio cannabis a thybaco drwy ddefnyddio codiadau damcaniaethol yn y prisiau. Fel yn achos yr astudiaethau arbrofol a nodwyd uchod (gan Bretteville-Jansen a Sutton, 1996, a Jofre-Bonet a Petry, 2008), daeth yr awduron hyn i'r casgliad bod cyfranogwyr â dibyniaeth nicotin uwch yn dangos llai o elastigedd o ran galw na'r grŵp â dibyniaeth is, gan ategu'r farn na fydd codi prisiau o reidrwydd yn ddigon i gymell lleihad yn y defnydd o sylweddau ymhlith defnyddwyr dibynnol.

3.28 Mae'r canfyddiadau uchod yn berthnasol i'n hastudiaeth ni i effaith cyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru. Mae llenyddiaeth sydd ar glawr yn awgrymu y gallai unigolion dibynnol a heb fod yn ddibynnol ddangos gwahanol elastigedd galw pan fydd prisiau'n newid. Yn benodol, mae'r astudiaethau a adolygwyd yn awgrymu bod amnewid cyffuriau'n llai tebygol o ddigwydd ymhlith y defnyddwyr cyffuriau mwyaf di-ildio, gyda defnyddwyr llai problemus fod yn fwy parod i amnewid (yn enwedig os yw'r unigolyn eisoes wedi defnyddio'r cyffur yr amnewidir iddo).

Enghreifftiau o ymddygiad newid

- 3.29 Amlygwyd dwy astudiaeth (y ddwy o Awstralia) a oedd yn trafod y posibilrwydd y byddai yfwyr yn amnewid y ddiodyd alcoholaidd a ffefrir ganddynt am fath arall o ddiodyd alcoholaidd o ganlyniad i gynydd yn ei phris. Edrychodd Hall a Chikritzhs (2010) a Chikritzhs et al (2009) ar yr effaith cyflwyno'r dreth alcopops yn Awstralia ar batrymau yfed alcohol yfwyr (naill ai amnewid neu leihad yng nghyfanswm yr alcohol a yfwyd ganddynt). Dangosodd y ddwy astudiaeth effaith amnewid yn yr ystyr bod rhai yfwyr wedi amnewid diodyd alcopop am gwrw a/neu wirodydd ond daeth i'r casgliad bod graddfa'r amnewid yn is na'r gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o alcohol.
- 3.30 Roedd astudiaethau eraill yn edrych ar y posibilrwydd o newid rhwng alcohol a chyffuriau anghyfreithlon eraill. Roedd un astudiaeth o'r fath yn edrych ar effaith codi isafswm yr oedran yfed o 18 i 21 oed yn yr UDA (DiNardo a Lemieux, 2001). Datgelodd y canlyniadau fod canabis yn cael ei ddefnyddio yn lle alcohol, fel pe bai cyfyngu ar fynediad at alcohol wedi arwain at gynydd yn y defnydd o marijuana ymhlith myfyrwyr hŷn ysgolion uwchradd. Roedd yr awduron yn damcaniaethu bod yr amnewid a welwyd yn gysylltiedig â'r tebygrwydd yn effeithiau ffisiolegol y sylweddau hyn. Awgrymodd DiNardo a Lemieux (2001) hefyd fod anghymeradwyaeth gynyddol mewn cymdeithas i'r defnydd o alcohol yn cyfrannu at amnewid marijuana am alcohol. Mae anghymeradwyaeth gymdeithasol, yn enwedig anghymeradwyaeth rhieni a chymheiriaid, yn gysylltiedig â gostyngiad yn y tebygolrwydd o ddefnyddio sylweddau (Kumar et al, 2002; Nash et al, 2005).
- 3.31 Enghraifft arall yw astudiaeth Clements (2004), a oedd yn edrych ar y gostyngiad ym mhpris canabis yn Awstralia, a daeth i'r casgliad bod pris is marijuana wedi arwain at gynydd yn y defnydd o marijuana ac wedi arwain ar leihad yn y defnydd o alcohol. Gan ei bod yn ymddangos bod marijuana ac alcohol yn diwallu anghenion tebyg y defnyddwyr, awgrymodd Clements (2004) ei bod yn debygol eu bod yn ddewis arall i ddefnyddwyr.
- 3.32 Nodwyd ambell astudiaeth arall (nad oedd o reidrwydd yn cynnwys alcohol), a oedd yn trafod newid rhwng cyffuriau'n gyffredinol o ganlyniad i newid mewn prisiau. Dadansoddodd Csak et al (2013) batrymau defnyddio cyffuriau defnyddwyr cyffuriau yn Hwngari a oedd yn chwistrellu a gwelwyd newidiadau sylweddol yn hoffterau cyffuriau eu cyfranogwyr. Dywedodd dros hanner y defnyddwyr heroin yn yr astudiaeth eu bod wedi amnewid y sylwedd hwn am methylene-dioxy-

pyrovalerone, sylwedd seico-weithredol newydd sy'n cael ei gategoreiddio fel cyffur adfywiol. Er nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth am resymau'r cyfranogwyr am y newid hwn, awgrymodd yr awduron mai un esboniad posibl oedd pris ac argaeledd methylene-dioxy-pyrovalerone o'i gymharu â heroin. Mae ymchwil sydd wedi dangos cynnydd yn y defnydd o gocên a methamffetamin ymhlith cyn ddefnyddwyr heroin yn Awstralia (Degenhardt et al, 2005a; 2005b; Topp et al, 2003; Roxburgh et al, 2004) yn rhoi dilysrwydd i'r syniad y gall hyd yn oed sylwedd â phroffil seicoffarmacolegol gwahanol iawn weithredu fel sylwedd amnewidiol mewn cyfnodau o brinder, pan fydd pris y sylwedd a ffefrir wedi codi.

- 3.33 Mae'r tueddiadau hyn sy'n dangos bod rhai defnyddwyr heroin wedi amnewid cyffuriau adfywiol pa fo llai o heroin ar gael wedi'u nodi mewn astudiaethau arbrofol hefyd. Er enghraifft, defnyddiodd Petry a Bickel (1998) sampl o bobl oedd yn cam-drin amryw o gyffuriau ac a oedd yn cael triniaeth am gaethiwed i heroin, a gofynnwyd iddynt i egluro sut y byddent yn ymateb i gynnydd damcaniaethol ym mhrys y cyffuriau roeddent yn eu defnyddio. Dywedodd y cyfranogwyr hyn fel yr oedd pris heroin yn codi, roedd llai o heroin yn cael ei brynu ac, ar yr un pryd roedd mwy o Valium a chocên (adfywydd) yn cael eu prynu (gan awgrymu bod y cyffuriau hyn yn cael eu defnyddio'n lle heroin).
- 3.34 Yn olaf, mewn astudiaeth arall, nododd Chandra a Chandra (2015) mai prif ganfyddiad eu papur oedd bod effaith amnewid rhwng math o ganabis, charas (hashish) ac opiwm, pan oedd y ddau sylwedd hyn yn gyfreithlon yn India, ar ddechrau'r 20^{fed} ganrif. Mewn geiriau eraill, roedd cynnydd ym mhrys charas yn gysylltiedig â chynnydd yn y defnydd o opiwm.

Trosolwg o'r astudiaethau sydd wedi'u cynnwys

- 3.35 Mae'r pum astudiaeth sy'n ymchwilio i effaith cynnydd yn y pris ar faint o alcohol a yfir ac amnewid/newid cysylltiedig yn cynnig tystiolaeth fod cynyddu prisiau alcohol (naill ai o ganlyniad i drethiant neu gynnydd mewn pris damcaniaethol) yn arwain at ostyngiad mewn lefelau yfed alcohol o fewn y boblogaeth yn gyffredinol. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd i raddau helaeth â chorff cydnabyddedig o lenyddiaeth, sy'n cynnwys adolygiadau systematig a meta-ddadansoddiadau, sy'n dangos effaith codi prisiau ar faint o alcohol a yfir (Elder et al, 2010; Fogarty, 2010; Sharma et al, 2017; Wagenaar et al, 2009). Mae'r pum astudiaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn, fodd bynnag, yn cynnwys ymchwiliad pellach i newid neu amnewid cysylltiedig sy'n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i godi pris alcohol.

3.36 Mae pob un o'r pump astudiaeth yn dangos tystiolaeth o beth amnewid i alcohol mwy fforddiadwy, er mai un astudiaeth yn unig a nododd newid mewn hoffter i ddiodydd sy'n gysylltiedig â phatrymau yfed mwy peryglus (Doran a DiGiusto, 2011). Yn yr un modd, datgelodd astudiaeth i effeithiau pris alcohol uwch ar yfed alcohol sydd wedi'i gynhyrchu'n anghyfreithlon - testun pryder cyn cyflwyno'r dreth - mai bychan iawn oedd y dystiolaeth bod hynny wedi digwydd, gyda newid i alcohol mwy fforddiadwy (cwrw) yn bennaf cyfrifol am unrhyw amnewid (Chaiyasong et al, 2011). Er hynny, mae tair o'r astudiaethau'n cydnabod y gallai ffactorau penodol, fel tueddiadau mewn lefelau yfed alcohol yn y boblogaeth yn gyffredinol, fod wedi dylanwadu ar y newid yn y patrymau yfed a amlygwyd gan eu canfyddiadau (Chaiyasong et al, 2011; Doran a DiGiusto, 2011; Muller et al, 2010). Maent felly'n annog gofal wrth ddefnyddio'u canfyddiadau i ddod i gasgliadau¹³.

Gan nad oedd yr astudiaethau hyn yn rhoi pwyslais ar ymatebion yfwyr trwm iawn neu ddibynnol a all ymateb yn wahanol i samplau'r boblogaeth yn gyffredinol, cafodd adran ychwanegol sy'n cynnwys astudiaethau sy'n canolbwyntio ar ymatebion yfwyr dibynnol i alcohol anfforddiadwy ei chynnwys. Canfu pum astudiaeth os nad oeddent yn gallu fforddio alcohol, mai dim ond nifer fach o ymatebion ymdopi a allai fod yn niweidiol a oedd yn cael eu defnyddio ymhlith y boblogaeth hon. Anaml y cyfeiriwyd at newid i opsiynau eraill, defnyddio alcohol wedi'i ddistyllu'n anghyfreithlon, neu ddwyn alcohol ymhlith yfwyr dibynnol mewn astudiaethau a oedd yn ymchwilio i'r mater hwn. Yn hytrach, dywedwyd fod amrywiaeth o strategaethau ymdopi eraill - gan gynnwys gwneud heb hanfodion, benthycu alcohol, gwneud i'r cyflenwad bara'n hwy a mynd heb alcohol - yn digwydd yn amlach. Er hynny, gwelwyd canlyniadau anfwriadol eraill, yn enwedig ymhlith yfwyr dibynnol, mewn rhai astudiaethau ac felly argymhellwyd cyflwyno mesurau ataliol a rhag-gynllunio ymhlith darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol (O'May et al, 2011; Erickson et al, 2018)

3.37 Yng ngoleuni'r dystiolaeth a adolygwyd, mymryn o dystiolaeth betrus yn unig a welwyd i awgrymu y bydd amnewid neu newid i sylweddau mwy niweidiol (naill ai cyfreithlon neu anghyfreithlon) yn digwydd o ganlyniad i godi pris alcohol. Mae hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ansicr o newid oherwydd cynnydd ym mhris alcohol o

¹³ Mae'r astudiaethau hyn yn cael eu cyfyngu ymhellach gan eu ffocws ar drethu mathau unigol o ddiodydd (fel alcopops neu wirodydd) yn hytrach na phob diod. Felly, nid oedd yr astudiaethau hyn yn gallu pennu ymatebion posibl os nad oedd brand neu fath o diod rhatach ar gael (fel yn achos isafswm pris ar gyfer alcohol). Mae hyn hefyd yn eithrio unrhyw ddadansoddiad o'r defnydd posibl o sylweddau anghyfreithlon mewn ymateb i anfforddiadwyedd alcohol.

bum astudiaeth, ac ychydig iawn o dystiolaeth o newid yn digwydd o bum astudiaeth sy'n canolbwyntio ar ymatebion yfwyr dibynnol i alcohol anfforddiadwy. Er hynny, mae dystiolaeth hefyd o ambell astudiaeth arall bod pobl yn newid o un sylwedd i un arall (dim o reidrwydd alcohol) yn ddibynnol ar bris ac argaeledd ac angen.

- 3.38 O ystyried nifer cyfyngedig yr astudiaethau yn yr adolygiad hwn rydym yn credu bod angen gwneud rhagor o ymchwil i'r pwnc hwn cyn cadarnhau bodolaeth newid/amnewid o ganlyniad i godi pris alcohol.¹⁴ Yn wir, mae prinder ymchwil i'r pwnc hwn wedi'i nodi eisoes mewn astudiaethau eraill yn y maes (Hobday et al, 2016; Sharma et al, 2017; Vandenberg a Sharma, 2016), a bu galwadau diweddar am ymchwiliad pellach i'r ffactorau sy'n gysylltiedig ag amnewid i sylweddau a diodydd eraill o ganlyniad i weithredu polisiau prisio (Araya a Paraje, 2018; Hobday et al, 2016; Sharma et al, 2017). Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth ar y pwnc hwn yn seiliedig ar astudiaethau mewn lleoliadau cymdeithasol a diwylliannol penodol, sy'n ei gwneud yn anodd i'w cymhwyso i'r cyd-destun Cymreig.

¹⁴ Mae gwerthusiad manwl o Isafbris am Alcohol wedi'i ddylunio a'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru am y cyfnod 2019-2024, a fydd yn ychwanegu gwybodaeth ymchwil bellach i ganfod a yw amnewid a/newid yn digwydd o ganlyniad i godi pris alcohol.

4. Dulliau

4.1 Yn y bennod hon disgrifir y dulliau a ddefnyddiwyd i gynnal ymchwil sylfaenol i edrych ar ganfyddiadau o'r mater hwn. Yn gyntaf, mae'r nodau a'r amcanion yn cael eu hailddatgan i roi cyd-destun ac yna trafodir dyluniad a strategaeth yr ymchwil. Yn dilyn hyn rhoddir eglurhad o'r dewis o bob dull casglu data ynghyd â disgrifiad o sut y cafodd y data ei gasglu'n ymarferol. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dadansoddi data.

Nodau ac amcanion

4.2 Dywedodd y fanyleb am y contract mai prif nod yr astudiaeth oedd ymchwilio i ba raddau y gall newid rhwng sylweddau ddigwydd o ganlyniad i gyflwyno isafbris am alcohol. Yn fwy penodol, roedd gan yr astudiaeth un amcan ar ddeg, gyda phedwar yn canolbwyntio ar unigolion sy'n gweithio fel darparwyr gwasanaethau i bobl â phroblemau alcohol (h.y. darparwyr gwasanaeth) a saith a oedd yn canolbwyntio ar bobl sy'n cael cymorth gan y gwasanaethau hynny (h.y. defnyddwyr gwasanaeth). Er mwyn eglurder, disgrifir pob amcan ar wahân isod.

Darparwyr gwasanaeth:

1. Edrych ar ymwybyddiaeth darparwyr gwasanaeth o'r ddeddfwriaeth Isafbris am Alcohol, a'r hyn mae'n ei olygu.
2. Ymchwilio gyda darparwyr gwasanaeth i ba ddulliau y byddant yn eu defnyddio i helpu pobl i baratoi ar gyfer y newid yn y ddeddfwriaeth a chyflwyno isafbris am alcohol.
3. Ymchwilio i ganfyddiadau darparwyr gwasanaeth o'r tebygrwydd y byddai pobl yn newid.
4. Edrych gyda darparwyr gwasanaeth ar ba ddeunyddiau neu ganllawiau cymorth ychwanegol a all fod eu hangen.

Defnyddwyr gwasanaeth:

5. Edrych ar ymwybyddiaeth defnyddwyr gwasanaeth o'r ddeddfwriaeth Isafbris am Alcohol, a'r hyn mae'n ei olygu.
6. Ymchwilio gyda defnyddwyr gwasanaeth sut y byddant yn paratoi ar gyfer y newid yn y ddeddfwriaeth.

7. Edrych gyda defnyddwyr gwasanaeth ar eu defnydd presennol o sylweddau eraill.
8. Edrych gyda defnyddwyr gwasanaeth ar eu canfyddiadau o'r ddeddfwriaeth arfaethedig.
9. Edrych gyda defnyddwyr gwasanaeth a fyddent yn debygol o newid i sylwedd arall, ac os byddant, newid i beth, ac os na, pam.
10. Ymchwilio gyda defnyddwyr gwasanaeth i unrhyw strategaethau ymdopi y gallant eu mabwysiadu pan fydd prisiau'n codi.
11. Edrych gyda defnyddwyr gwasanaeth ar y cymorth a all fod ei angen arnynt i baratoi ar gyfer y newid.

4.3 Yn fras, roedd y prosiect yn ymdrechu i ymchwilio i'r canfyddiadau o ganlyniadau posibl cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru, gan gynnwys y posibilrwydd o newid sylweddau a chanlyniadau anfwriadol eraill, ac ymchwilio i ffyrdd o atal a/neu ymateb i'r canlyniadau hynny.

Dyluniad a strategaeth yr ymchwil

4.4 **Dyluniad yr ymchwil** yw'r glasbrint neu'r uwchgynllun ar gyfer cynnal astudiaeth. Dyma'r strwythur neu'r dull sy'n disgrifio sut, pryd a lle bydd data'n cael ei gasglu a'i ddadansoddi (Bryman, 2016). Gan ystyried amcanion y prosiect, yr amserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau'r prosiect a gweithredu'r ddeddfwriaeth, ynghyd â gwybodaeth arall a gyflenwyd gyda'r Fanyleb, roedd yr ymchwil yn seiliedig ar ddyluniad trawstoriadol sy'n golygu bod data'n gysylltiedig ag isafbris am alcohol a newid sylweddau'n cael ei gasglu ar adeg benodol (yn hytrach na monitro dros amser).

4.5 **Strategaeth yr ymchwil** yw'r ffordd gyffredinol o gynnal ymchwil, mewn geiriau eraill a yw pwyslais yr astudiaeth ar y meintiol ynteu'r ansoddol (Bryman, 2016). I gyflawni amcanion yr ymchwil ar isafbris am alcohol a newid sylweddau posibl, mabwysiadwyd strategaeth ansoddol yn bennaf, er bod peth data meintiol wedi'i gasglu hefyd (e.e. hanes triniaethau, defnydd o gyffuriau, defnydd o alcohol a gwariant ar alcohol). Roedd strategaeth ansoddol yn bennaf yn galluogi casglu data ar wybodaeth, dealltwriaeth, canfyddiadau ac agweddau darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth o'r materion allweddol sy'n gysylltiedig ag isafbris am alcohol a chanlyniadau posibl hynny. Mae dull ansoddol yn arbennig o ddefnyddiol i helpu ymchwilwyr i ddeall sut mae pobl eraill yn dehongli'r byd ac i weld pethau

drwy lygaid pobl eraill (Wincup, 2017). Er bod gan ymchwil feintiol lawer o fuddiannau (e.e. cyfrif a mesur graddfa ffenomena), byddai wedi cyfyngu i ba raddau y gellid ymchwilio i faterion a'r gallu i'w trafod wrth iddynt ddod i'r amlwg.

- 4.6 Roedd Tîm yr Ymchwil wedi gobeithio defnyddio dyluniad gweithredu cyfranogol fel sail i'r prosiect. Mae'r dull hwn fel arfer yn cynnwys cydweithio agos rhwng yr ymchwilwyr a'r cyfranogwyr yn yr ymchwil yn ystod pob cam o broses yr ymchwil er mwyn canfod, gwerthuso a datblygu datrysiadau i roi sylw i broblemau cymdeithasol gyda'i gilydd (Baum et al, 2006). Mae cynnwys defnyddwyr gwasanaeth i'r fath raddau hefyd yn gydnaws â strategaethau a chanllawiau Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014). Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr amserlen dynn o saith mis, barnwyd na fyddai dyluniad cyfranogol llawn yn ymarferol (Livingston a Perkins, 2018).
- 4.7 Er hynny, ymgwymerwyd â gwaith gyda defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod cynlluniau'r ymchwil yn briodol, bod y cyfarpar casglu data'n rhwydd i'w defnyddio, i helpu i gynnwys ymatebwyr perthnasol, ac i arwain y dehongliad o'r data a gasglwyd.
- 4.8 I gynorthwyo â'r broses hon, sefydlwyd Grŵp Cynghori'r Prosiect (PAG) a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid perthnasol ac a oedd yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol cyfnod yr astudiaeth¹⁵.

Y dulliau casglu data

- 4.9 Defnyddiwyd cyfuniad o gyfweiliadau a holiaduron arolwg ar-lein i gyflawni amcanion yr ymchwil. Fodd bynnag, cyn mynd ymlaen i gyflwyno manylion yr hyn roedd angen ei wneud, mae'n bwysig rhoi trosolwg byr o'r bobl a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil. Roedd y Fanyleb yn cyfeirio ar yr angen i gofnodi barn dau grŵp penodol, sef darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth.
- 4.10 Cafodd y term 'darparwyr gwasanaeth' ei ddehongli i olygu pobl a oedd yn gysylltiedig â darparu neu gyflenwi gwasanaethau cymorth i yfwyr niweidiol (alcohol ar ei ben ei hun yn bennaf ond weithiau mewn cyfuniad â defnydd o gyffuriau eraill).

¹⁵ Roedd aelodau'r PAG yn cynnwys cynrychiolwyr o: Cangen Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru, Cangen Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru, Alcohol Change, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent, a'r North West Recovery Community.

- 4.11 'Defnyddwyr gwasanaeth' felly oedd y bobl a oedd yn cael y gwasanaethau hyn. Mewn geiriau eraill, roedd defnyddwyr gwasanaeth yn yfwyr niweidiol neu beryglus a oedd yn cael rhyw fath o driniaeth i roi sylw i'w hyfed (ac weithiau defnydd o gyffuriau eraill).
- 4.12 Er mai'r ddau grŵp yma oedd canolbwynt yr ymchwil, mae'n bosibl y gall ymatebion i Isafbris am Alcohol amrywio'n ddibynnol ar lefel yr yfed ac ymgysylltiad â gwasanaethau. Barnwyd felly y byddai'n ddefnyddiol i gynnwys cymaint o fathau o yfwyr gwahanol â phosibl wrth astudio effaith bosibl isafbris ar newid sylwedddau. Cafodd yfwyr (cymedrol, peryglus a niweidiol) nad oedd yn cael triniaeth ar y pryd hefyd eu cynnwys.
- 4.13 Roedd yr ymchwil yn cynnwys, i wahanol raddfeydd, pedwar grŵp o bobl:

Prif bwyslais:

1. Darparwyr gwasanaeth (h.y. pobl sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cymorth alcohol).
2. Defnyddwyr gwasanaeth (h.y. yfwyr niweidiol neu beryglus sy'n ymgysylltu â gwasanaethau).

Safbwyntiau ychwanegol:

3. Yfwyr niweidiol nad oeddent yn ymgysylltu â gwasanaethau.
 4. Yfwyr eraill nad oeddent yn ymgysylltu â gwasanaethau.
- 4.14 Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar oedolion 18 oed a hŷn a oedd naill ai'n byw yng Nghymru neu'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau alcohol yng Nghymru¹⁶.

Cyfweliadau ansoddol

- 4.15 Cafodd cyfweliadau ansoddol eu cynnal â dau grŵp (darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth).
- 4.16 Prif nodau'r cyfweliadau â darparwyr gwasanaeth oedd: ymchwilio i faterion o safbwynt y rhai sy'n helpu yfwyr niweidiol, edrych ar eu canfyddiadau o'r buddiannau a'r problemau posibl a all ddeillio o ganlyniad i isafbris am alcohol ac edrych ar eu paratodau ar gyfer ymateb i'r problemau hynny a helpu yfwyr.

¹⁶ Cafodd y penderfyniad i ganolbwyntio ar oedolion ei wneud am resymau pragmataidd yn bennaf a oedd yn gysylltiedig â'r amserlen dynn a chymhlethdodau cael caniatâd i gyfweid yfwyr ifanc agored i niwed. Er hynny rydym o'r farn bod plant a phobl ifanc yn boblogaethau pwysig sy'n debygol o gael eu heffeithio gan Isafbris ac y byddai astudiaeth ar wahân yn canolbwyntio ar y grwpiau hyn yn ymarferiad gwerth chweil.

4.17 Prif nodau'r cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaeth oedd canfod: tebygolrwydd tybiedig unrhyw ganlyniadau anfwriadol a oedd yn ganlyniad i isafbris, gan gynnwys newid sylweddau, natur unrhyw ganlyniadau, y rheswm am y canlyniadau hynny, a'r math o gymorth a all fod ei angen i ymateb i unrhyw ganlyniadau o'r fath.

Y strategaeth sampl

- 4.18 Cafodd cyfweiliadau eu cynnal â 49 o ddefnyddwyr gwasanaeth a 38 o ddarparwyr gwasanaeth (gan gynnwys rheolwyr gweithredol a staff rheng flaen)¹⁷. Cafodd tri chyfweiliad â defnyddwyr gwasanaeth eu cynnal mewn grwpiau.
- 4.19 Defnyddiwyd sampl cyfleus i recriwtio cyfweleion o wasanaethau alcohol sy'n weithredol o fewn ardaloedd y saith Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) yng Nghymru. Roedd cynnal yr ymchwil ledled Cymru'n golygu rhoi llais i bobl sy'n byw mewn amrywiaeth eang o ardaloedd gan amrywio o gytreffi mawr i bentrefi bychain mewn ardaloedd tenau eu poblogaeth, a thrwy hynny wneud yr ymchwil yn berthnasol i bobl sy'n byw (ac yn gweithio) yn yr ystod gyfan o ardaloedd.
- 4.20 Cafodd y dull cyfleus ei ategu gan beth sampl pwrpasol i sicrhau bod amrywiaeth o ran rhyw, ystod oedran, lleoliadau daearyddol (gan gynnwys ardaloedd yn agos at ffiniau), mathau o yfed a phroffiliau defnydd o gyffuriau i gyd yn cael eu cofnodi.
- 4.21 O gofio amcanion amrywiol yr astudiaeth, roedd cynnwys ystod amrywiol o unigolion yn bwysig. Roedd yn fodd i archwilio i amrywiadau mewn ymatebion posibl i isafbris am alcohol a hefyd i ganfod ffactorau risg ac amddiffynol a allai gynyddu neu leihau'r tebygolrwydd o newid a chanlyniadau anfwriadol eraill.
- 4.22 Cafodd cyfweleion eu recriwtio gyda chymorth caredig staff nifer o fudiadau trydydd sector sy'n darparu cymorth i bobl â phroblemau alcohol yng Nghymru (e.e. Barod, Kaleidoscope).
- 4.23 Cafwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y prosiect gan Bwyllgor Ymchwil Cyfadran Busnes a Chymdeithas Prifysgol De Cymru yn ogystal â chan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS)¹⁸.

¹⁷ Ceir rhagor o fanylion am nodweddion y sampl ym Mhennod 5. Cafwyd cyfweiliadau hefyd â dau o gyflogeion Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am bolisi cam-drin sylweddol, a defnyddiwyd eu sylwadau hwy i roi gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol am yr astudiaeth. Nid yw'r ddau gyfweiliad yma wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y samplau.

¹⁸ O gofio bod yr astudiaeth yn cael ei chynnal dros gyfnod byr, diystyriwyd y syniad o gael cymeradwyaeth foesegol gan y GIG. Yn ein profiad ni (a phrofiad ein cydweithwyr) nid oedd ceisio gael cymeradwyaeth REC a R&D ar gyfer saith ardal Bwrdd Iechyd a chwblhau'r gweithgaredd ymchwil yn ymarferol o fewn cyfnod o saith mis.

- 4.24 Roedd sicrhau cymeradwyaeth HMPPS yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth o dan oruchwyliaeth cyfiawnder troseddol i gael eu cynnwys yn y sampl. Roedd y penderfyniad hwn wedi'i seilio ar y ddealltwriaeth y byddai gan droseddwyr sy'n defnyddio alcohol fwy o gyfleoedd i newid sylweddau a'u bod yn fwy tueddol i wneud hynny oherwydd eu ffyrdd troseddol o fyw a bod ganddynt y modd i gael gafael ar sylweddau anghyfreithlon (Bennett a Holloway, 2009).
- 4.25 Gan ddefnyddio rhwydweithiau o gysylltiadau presennol y mudiadau hyn roedd modd defnyddio amrywiaeth o strategaethau i recriwtio cyfweleion. Fel y gellid disgwyl, darparwyr gwasanaeth oedd yr hawddaf i gysylltu â hwy ac roedd y recriwtio yn eu hachos hwy'n cael ei wneud drwy wahoddiadau e-bost a ddosbarthwyd ar ein rhan gan gydlynwyr APB, rheolwyr gwasanaeth a thrwy alwadau ffôn dilynol. Defnyddwyr gwasanaeth yn aml oedd yr anoddaf i'w recriwtio i brosiectau ymchwil ac, yn y dechrau o leiaf, nid oedd y prosiect hwn yn ddim gwahanol. Fodd bynnag, gyda chymorth rheolwyr gwasanaeth a gweithwyr allweddol, sy'n lledaenu'r gair am y prosiect, llwyddwyd i recriwtio sampl mawr o ddefnyddwyr gwasanaeth i gael eu cyfweld.
- 4.26 Roedd profiad blaenorol wedi awgrymu bod recriwtio ar gyfer ymchwil ansoddol yn aml yn elwa ar strategaethau caseg eira a rhaeadru (yn enwedig wrth recriwtio am safbwyntiau ychwanegol, fel rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth). Roedd y gwahoddiadau i gymryd rhan mewn cyfweliad felly hefyd yn cael eu dosbarthu'n electronig drwy rwydwaith tîm yr ymchwil o gysylltiadau yn y maes. Cafodd hefyd ei osod fel opsiwn yn yr arolygon, gyda gwybodaeth ar sut i gysylltu os hoffent gymryd rhan mewn cyfweliad. Roedd y cysylltiadau i gyd yn cael eu hannog i ledaenu'r gwahoddiad mor eang â phosibl.
- 4.27 Yn ychwanegol at y cyfweliadau ffurfiol a recordiwyd, roedd tîm yr ymchwil hefyd yn cael gwybodaeth a sylwadau defnyddiol gan ystod o unigolion eraill. Roedd hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth nad oedd yn barod i gymryd rhan mewn cyfweliad ffurfiol¹⁹ a darparwyr nad oedd yn gallu neilltuo digon o amser i wneud hynny. Yn yr achosion hyn, gwnaed nodiadau maes ar ôl y digwyddiad a'u rhannu ag aelodau eraill tîm yr ymchwil. Er nad oeddent wedi'u cynnwys yn y broses dadansoddi data

¹⁹ Mewn rhai achosion, roedd y sgysiau'n rhai byrion ac roeddent yn cynnwys sgwrs gyffredinol am MUP/MPA gyda defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn aros am driniaeth. Mewn achosion eraill, roedd y trafodaethau'n fwy ffurfiol, ac mewn rhai achosion roeddent yn cynnwys trafodaeth hyd at hanner awr o hyd â'r cyfweleion.

ffurfiol, roedd y nodiadau hyn yn werthfawr ac maent wedi bod yn sail i feddwl a datblygiad yr adroddiad hwn.

Dyluniad

- 4.28 Cafodd amserlen y cyfweiliadau eu llunio ar gyfer cyfweiliadau wedi'u strwythuro'n rhannol wedi'u seilio ar y themâu a oedd i'w cynnwys ac anogaeth y cyfwelydd i helpu i arwain y sgwrs. Roedd y cyfweiliadau yn 'hyblyg ond yn cael eu rheoli (Burgess, 1984) ac wedi'u seilio ar strwythur agored yn hytrach na haearnidd, sy'n aml yn gallu rheoleiddio, tawelu a strwythuro ymatebion y cyfweleion (Bryman, 2016). Cafodd amserlenni ar wahân eu datblygu ar gyfer darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth er bod themâu cyffredin yn cael sylw yn y ddau fath. Mabwysiadwyd dull iteraid, lle'r oedd canlyniadau cyfweiliadau cynnar y dylanwadu ar strwythur a chynnwys y rhai dilynol.
- 4.29 Roedd cwestiynau penodol y cyfweiliadau'n deillio o amcanion yr ymchwiliad a bennwyd yn y fanyleb a'r sail dystiolaeth ymchwiliad gyffredol (a'r bylchau yn hynny).
- 4.30 Un peth pwysig oedd ymchwilio i natur unrhyw newid sylweddau posibl yn ogystal â'r tebygolrwydd tybiedig y bydd hynny'n digwydd. Roedd astudio natur unrhyw newid yn cynnwys ymchwilio a oedd pobl yn rhagweld amnewid alcohol yn gyfan gwbl am sylwedd arall ynteu a fyddent yn cyfuno eu defnydd o alcohol gyda sylweddau eraill (Moore, 2010).
- 4.31 Roedd hefyd yn bwysig canfod a oedd pobl yn rhagweld gwahanol fathau o newid. Er enghraifft, efallai bod rhai pobl wedi rhagweld newid o un math o alcohol i un arall (e.e. o win i gwrw) tra bydd eraill wedi rhagweld newid o un brand o alcohol i un arall. Yn yr un modd, efallai y bydd rhai'n disgwyl newid o alcohol i sylweddau cyfreithlon eraill fel tybaco neu gyffuriau presgripsiwn gydag eraill yn credu y byddent yn newid o alcohol i sylweddau anghyfreithlon gan gynnwys alcohol anghyfreithlon neu gyffuriau anghyfreithlon y stryd.
- 4.32 Ymchwiliwyd i ganlyniadau posibl eraill hefyd ac roeddent yn cynnwys y posibilrwydd o siopa dros y ffin; newidiadau mewn gwariant; a chael rhagor o arian drwy fenthyca, begera neu droseddau meddiangar.

Gweithdrefn

- 4.33 Cafodd pob un o'r cyfweiliadau eu cynnal yn Saesneg, heblaw un, a gynhaliwyd yn Gymraeg. Roeddent yn cael eu cynnal ar adegau ac mewn lleoliadau a oedd yn gyfleus i'r cyfwelwyr. Cafodd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau eu cynnal wyneb yn wyneb

gyda nifer fach yn unig o gyfweiliadau (gyda defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth) yn cael eu cynnal dros y ffôn.

- 4.34 Mae gan gyfweiliadau ffôn nifer o fanteision: nid oes angen neilltuo cymaint o adnoddau ar eu cyfer o'i gymharu â chyfweiliadau wyneb yn wyneb; gallant hefyd olygu bod yr ymatebwr yn fwy cyfforddus o ran bod yn anhysbys a chadw cyfrinachedd; roedd ymatebwyr yn llai tebygol o ganslo ar y funud olaf, ac os oeddent yn gwneud, nid oedd mor anghyfleus iddynt hwy nac i'r cyfwelydd, gan y bydd yn ddigon hawdd i'w aildrefnu. Hefyd, yn achos llawer o ddarparwyr gwasanaeth, dyma'n aml oedd yr unig ffordd yr oedd eu hamserlen brysur yn eu galluogi i gymryd rhan.
- 4.35 Wedi dweud hynny, roedd cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal os oedd y cyfwelai wedi datgan mai dyna oedd eu dewis ac roeddent yn cael eu cynnal mewn man yr oedd y ddau barti wedi cytuno arno, fel swyddfa darparwr gwasanaeth, lle'r oedd y cyfwelai'n gartrefol, a bod y cyfwelai'n cael ei ddiogelu o ran llywodraethu foesebol a pholisi diogelwch ymchwilwyr unigol.
- 4.36 Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau'n rhai un i un. Fodd bynnag, cafodd tri chyfweiliad grŵp eu cynnal gyda rhai defnyddwyr gwasanaeth (mae enghreifftiau o ddata grwpiau wedi'u nodi'n eglur). Mae cyfweiliadau un i un yn ddefnyddiol gan eu bod yn rhoi'r rhyddid i'r cyfweleion i drafod materion sensitif a phersonol (Wincup, 2017). Fodd bynnag, maent yn gallu cymryd llawer o amser yn ogystal â bod yn gostus i'w cynnal a'u trawsgrifio. Mae cyfweiliadau grŵp yn opsiwn rhatach gan eu bod yn galluogi i sawl llais gael eu cofnodi yn yr un digwyddiad. Maent yn ddefnyddiol hefyd am eu bod weithiau'n gallu gwneud i gyfweleion deimlo'n gyfforddus a gall hynny annog trafodaethau pwysig ac amlygu themâu na fyddai wedi'u gwyntyllu fel arall. Gallant hefyd helpu unigolion i ffurfio eu dealltwriaeth eu hunain drwy'r broses rannu mewn grŵp. Prif anfantais y cyfweiliad grŵp yw ei bod weithiau'n gallu bod yn anodd i'r cyfwelydd wrando'n astud ar fwy nag un cyfwelai ar y tro (Wincup, 2017). Roedd defnyddio cyfuniad o gyfweiliadau unigol a grŵp yn golygu bod tîm yr ymchwil yn gallu gwrthbwysio cyfyngiadau un dull yn erbyn cryfderau'r llall (Bryman, 2016).
- 4.37 Fel y nodwyd uchod, roedd y cyfweiliadau'n 'hyblyg ond yn cael eu rheoli' (Burgess, 1984), ar ffurf sgwrs, ac yn cael eu harwain drwy strwythur pen agored yn seiliedig ar gwestiynau a 'themâu' a gynhyrchwyd gan y tîm. Mantais dull o'r fath yw ei fod yn:

- rhoi cofnod mwy trylwyr o ganfyddiadau a phrofiadau'r cyfweleion; ac
- yn caniatáu ar gyfer data annisgwyl, sy'n aml yn 'anarferol' i ddod i'r amlwg na fyddai wedi'i weld drwy ddefnyddio technegau mwy strwythuredig, meintiol.

Roedd dull o'r fath yn addas ar gyfer cyfweiliadau â chyfweleion lle gofynnid iddynt i ragweld eu gweithredoedd a'u hymddygiad eu hunain ac eraill yn y dyfodol. Roedd y cyfweiliadau'n para am 30 munud ar gyfartaledd ac yn amrywio o fymryn llai na 10 munud i bron i awr. Roedd pob cyfweiliad yn cael ei recordio'n ddigidol ac yna'n cael eu trawsgrifio gan arbenigwyr yn naill ai Voicescript Ltd²⁰ neu Avonlea Services Limited²¹.

Dadansoddi'r data

- 4.38 Roedd y trawsgrifiadau'n cael eu lawrlwytho o Voicescript Ltd ac Avonlea Services Limited a dilëwyd unrhyw wybodaeth a allai arwain at adnabod y cyfranwyr. Cafodd cronfa ddata o drawsgrifiadau dienw ei datblygu drwy ddefnyddio pecyn NVivo ar gyfer dadansoddi data ansoddol, sy'n galluogi dadansoddi data cyfweiliadau sy'n cynnwys sawl ymchwilydd a synthesis o setiau data mawr. Cynhaliwyd dadansoddiad thematig, a datblygwyd ac ail-ffurfiwyd fframwaith thematig a oedd wedi'i gynnwys yn y data (Glaser a Strauss, 1967; Braun a Clarke, 2006). Cafodd ansawdd codio'r data a'r fframwaith ei sicrhau gan aelodau gwahanol o'r tîm a oedd yn gwirio codau ei gilydd a/neu'n arwain ymlaen o godio ar wahân. Roedd y broses hon yn helpu i sicrhau bod y thema derfynol a ddewiswyd yn ddehongliad personol un aelod o'r tîm yn unig ond eu bod yn seiliedig ar y data.
- 4.39 Yn unol ag argymhelliad Neale a West (2014), mae tîm yr ymchwil wedi osgoi meintioli'r data ansoddol ac eithrio mewn nifer fach o achosion lle barnwyd ei bod yn arbennig o bwysig i wneud hynny. Yn hytrach, mabwysiadwyd math o led-feintioli gyda thueddiad i ddefnyddio termau fel 'ychydig', 'sawl', 'rhai', 'llawer' ac 'y rhan fwyaf' er mwyn cyflawni'r "maximum transparency with regard to the numbers of people giving particular responses or types of response" (Neale et al, 2015).

Arolwg holiadur ar-lein

- 4.40 Er bod cyfweiliadau ansoddol yn werthfawr dros ben i gasglu data manwl gan bobl, maent yn gyfyngedig mewn sawl ffordd. Fel y nodwyd uchod, mae cyfweiliadau'n aml yn cymryd llawer o amser, a gall fod yn gostus i drawsgrifio recordiadau maith.

²⁰ [Voicescript](#)

²¹ [Avonlea](#)

O ganlyniad, mae maint samplau'n aml yn fychan, sy'n cyfyngu ar gyffredinolrwydd canfyddiadau ymchwil. I helpu i ddatrys hyn ac i roi sylw i'r cyfyngiadau allweddol hyn, defnyddiwyd arolygon holiadur ar-lein.

Strategaeth samplo

- 4.41 Drwy ddefnyddio arolygon holiadur ar-lein, casglwyd data o sampl ehangach o ymatebwyr gan gynnwys: darparwyr gwasanaeth; defnyddwyr gwasanaeth; rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth; a hefyd yfwyr cymedrol a pheryglus na fyddai fel arall wedi'u cynnwys yn yr ymchwil. Roedd yr arolwg hefyd yn rhoi cyfle i gyfweleion i gyfrannu gwybodaeth ddiennw, ychwanegol at yr astudiaeth os oeddent yn dymuno.

Dyluniad

- 4.42 Cafodd arolygon holiadur ar-lein ar wahân ar gyfer darparwyr gwasanaeth ac yfwyr eu datblygu yn Online Surveys²² (Bristol Online Surveys gynt). Roedd holiaduron yr arolwg yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau caeedig (e.e. ar ddefnydd alcohol a chyffuriau ar y pryd) a chwestiynau penagored (e.e. canfyddiadau am isafbris am alcohol) er mwy cofnodi data mwy cynnil ar faterion o ddiddordeb penodol. Roedd yr arolygon ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 4.43 Roedd holiaduron yr arolwg wedi'u trefnu mewn adrannau a oedd yn cyfateb ag amcanion yr ymchwil.
- 4.44 Roedd yr arolwg ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yn canolbwyntio ar y bobl hynny sy'n gweithio mewn gwasanaethau alcohol yng Nghymru ac roedd yn cynnwys adrannau ar: demograffeg, profiad yn y gwasanaeth, eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth eu hunain o isafbris am alcohol, eu hagweddau a'u canfyddiadau eu hunain o isafbris am alcohol, a'u canfyddiad o isafbris am alcohol ar newid sylweddau.
- 4.45 Roedd yr arolwg ar gyfer 'yfwyr' yn canolbwyntio ar bobl sydd ar hyn o bryd naill ai'n defnyddio alcohol mewn ffordd niweidiol neu fel difyrrwch ac roedd yn cynnwys adrannau ar: demograffeg, defnydd o alcohol, defnydd o gyffuriau, ymwybyddiaeth o isafbris am alcohol, agweddau tuag at y polisi, y tebygolrwydd o newid cyffuriau, rhwystrau rhag newid, sut y byddent yn newid, natur newid a'r math o help roeddent yn rhagweld a fyddai ei angen arnynt.

²² [Online surveys](#)

4.46 Roedd cyfranogiad yn y ddau arolwg yn wirfoddol, ac roedd yr arolygon yn ddiennw (ni ofynnwyd am ddim gwybodaeth a fyddai'n arwain at adnabod cyfranogwyr, ac nid oedd cyfeiriadau IP yn cael eu cofnodi). Roedd holiadur yr arolwg wedi'i ddylunio mewn ffordd a fyddai'n caniatáu i ymatebwyr i hepgor cwestiynau nad oeddent yn dymuno'u hateb a gadael yr arolwg ar unrhyw adeg os nad oeddent yn dymuno parhau. Roedd ymatebwyr yn rhoi cydsyniad cyn cychwyn ar yr arolwg a dywedwyd wrthynt pan fyddent wedi clicio 'gorffen' ar ddiwedd yr arolwg, y byddai eu hymatebion yn cael eu cyflwyno ac nad oedd modd iddynt wedyn dynnu'n ôl o'r astudiaeth.

Gweithdrefn

- 4.47 Cafodd yr arolygon eu dosbarthu'n electronig i rwydwaith tîm yr ymchwil o gysylltiadau yn y maes i gael eu cwblhau a'u rhaeadru i'w cydweithwyr, i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i yfwyr eraill nad oedd yn gysylltiedig â gwasanaethau. I gynyddu maint y sampl, cafodd yr arolygon eu lansio ar ddechrau'r cyfnod casglu data. Ymgwymerwyd felly â'r ddau ddull o gasglu data (cyfweiliadau ac arolygon) ar yr un pryd.
- 4.48 Yn ymarferol, anfonwyd dolen at yr arolwg ar-lein ar gyfer darparwyr drwy e-bost at bobl sy'n gweithio mewn amrywiaeth o sefydliadau cymorth. Cafodd dolen at yr arolwg ei ddosbarthu hefyd drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter). Drwy ddefnyddio'r strategaeth ddosbarthu hon, cafodd 100 o ddarparwyr gwasanaeth eu recriwtio i gwblhau'r arolwg. Neilltuodd y rhan fwyaf o'r 'darparwyr' a ymatebodd gryn amser ac ymdrech i'w hymatebion ac roeddent wedi cynnwys atebion manwl i'r cwestiynau penagored. Oherwydd hynny llwyddwyd i gasglu llawer mwy o ddata ansoddol nag oedd wedi'i ragweld.
- 4.49 Cafodd dolen at yr arolwg ar-lein ar gyfer 'yfwyr' ei ddosbarthu ymhlith pobl a oedd yn gysylltiedig â gwasanaethau alcohol er mwyn eu rhaeadru i ddefnyddwyr gwasanaeth ac yfwyr eraill. Cafodd dolen at yr arolwg ei ddosbarthu hefyd drwy'r un platfformau cyfryngau cymdeithasol â'r arolwg ar gyfer darparwyr (h.y. Facebook a Twitter). Gan ddefnyddio'r strategaeth aml agwedd hon i ledaenu, casglwyd data gan 93 o yfwyr. Cwblhaodd y rhan fwyaf ohonynt yr arolwg ar-lein ond cwblhaodd bump ohonynt gopiâu caled (gyda help eu gweithiwr cymorth) a chafodd y rhain eu bwydo i'r fersiwn ar-lein yn ddiweddarach gan aelod o dîm yr ymchwil. Fel yn achos y darparwyr, cafwyd ymatebion manwl i'r cwestiynau gan lawer o'r yfwyr. Golygai hyn set ddata llawer mwy na'r hyn oedd wedi'i ragweld.

Dadansoddi'r data

- 4.50 Cafodd y ddwy set o ddata'r arolwg eu hallforio o Online Surveys yn uniongyrchol i Statistical Package for the Social Sciences (SPSS). Cafodd yr ymatebion i'r arolwg eu dadansoddi drwy ddefnyddio SPSS, Excel a Word i hwyluso'r dadansoddiad o'r swp sylweddol o ddata a gasglwyd. Defnyddiwyd cyfarpar dadansoddi Online Surveys eu hunain hefyd i gadarnhau'r dadansoddiad ac i gyflwyno'r canlyniadau.
- 4.51 Cafodd cwestiynau caeedig a gynhyrchodd ddata meintiol eu dadansoddi gan ddefnyddio SPSS ac Excel. Cyflwynir y canlyniadau hyn fel rhifau gan ddefnyddio canrannau ac amllder.
- 4.52 Cafodd data ansoddol a gynhyrchwyd o'r cwestiynau penagored eu dadansoddi drwy ddefnyddio technegau ansoddol mwy traddodiadol (e.e. canfod prif themâu a chwilio am ddyfyniadau i'w defnyddio fel enghreifftiau) gan ddefnyddio ffwythiannau chwilio o fewn SPSS, Excel a Word. Fel yn achos data'r cyfweiliadau ansoddol, gwnaed penderfyniad bwriadol i osgoi meintioli canlyniadau'r arolwg ansoddol heblaw mewn ambell achos lle barnwyd ei bod yn arbennig o bwysig i wneud hynny.

Crynodeb

- 4.53 I gyflawni'r un amcan ar ddeg a nodwyd yn y fanyleb a dogfennaeth arall, cafodd cyfweiliadau ansoddol â darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth eu cynnal. Defnyddiwyd holiaduron arolwg ar-lein hefyd i gasglu rhagor o wybodaeth gan sampl ehangach o ddarparwyr gwasanaeth ac yfwyr (gan gynnwys yfwyr nad oedd mewn cysylltiad â gwasanaethau).
- 4.54 Cafodd samplau (o'r gymuned a'r System Cyflawnder Troseddol) eu recriwtio drwy ddefnyddio rhwydweithiau o gysylltiadau tîm yr ymchwil yn y maes camddefnyddio sylweddau a chyda help Grŵp Cyngori'r Prosiect.
- 4.55 Cafodd y data a gasglwyd ei ddadansoddi drwy ddefnyddio meddalwedd priodol (e.e. SPSS ar gyfer data'r arolwg a NVivo ar gyfer data'r cyfweiliadau).
- 4.56 Er bod y dull a ddewiswyd wedi galluogi i amcanion yr ymchwil gael eu cyflawni, mae'n bwysig nodi bod comisiwn ac amserlen yr arolwg wedi cyfyngu'r astudiaeth ddisgwyliedig i archwiliad o ragolygon o ymddygiad yn y dyfodol. Cyfyngiad sylfaenol y dull hwn yw mai dim ond canfyddiadau o'r hyn a all ddigwydd sydd wedi'u casglu yn yr astudiaeth, a bod posibilrwydd na fydd yr ymddygiad

gwirioneddol a welir ar ôl gweithredu isafbris yn dilyn hyn. Efallai na fydd yn digwydd, neu gallai'r effaith fod yn llai na'r hyn oedd wedi'i ragweld.

- 4.57 Bydd angen rhagor o ymchwil yn y dyfodol i ymchwilio i effaith isafbris ar ymddygiad sy'n gysylltiedig ag yfed ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu i weld a yw'r proffwydoliaethau a wnaed yn gywir.²³

²³ Yn ystod yr astudiaeth, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarferiad tendro a dyfarnwyd (i dîm yr ymchwil hwn) contract arall i gynnal gwerthusiad ansoddol â gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth, ar ôl cyflwyno'r Isafbris am Alcohol.

5. Nodweddion y sampl

5.1 Mae'r bennod hon yn grynodedb byr o nodweddion y samplau o yfwyr a darparwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil. Er eglurder, mae'r pedwar sampl wedi'u gwahanu i roi trosolwg o nodweddion pob un:

- yfwyr a gwblhaodd yr arolwg ar-lein²⁴;
- darparwyr a gwblhaodd yr arolwg ar-lein;
- defnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran mewn cyfweiliad; a
- darparwyr a gymerodd ran mewn cyfweiliad.

5.2 Prif nod y bennod yw rhoi digon o fanylion i'r darllenydd i ddeall bod y sampl yn un amrywiol sy'n cynrychioli ystod o bobl sydd naill ai'n yfed alcohol neu sy'n darparu cymorth i bobl â phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Ymatebwyr i'r arolwg – yfwyr

5.3 Cwblhaodd cyfanswm o 93 o bobl yr 'arolwg yfwyr'. Cwblhaodd y rhan fwyaf o'r yfwyr yr arolwg ar-lein. Fodd bynnag, cwblhaodd pump o'r yfwyr yr arolwg all-lein ar fersiynau copi caled, gyda help darparwr gwasanaeth. Cafodd y fersiynau copi caled hyn wedyn eu bwydo i'r arolwg ar-lein gan aelod o dîm yr ymchwil.

Cwblhaodd un yfwr yr arolwg yn Gymraeg a chafodd yr ymatebion eu cyfieithu i Saesneg gan aelod Cymraeg ei iaith o dîm yr ymchwil cyn mynd ati i ddadansoddi. Mae nodweddion economaidd-gymdeithasol yr yfwyr a gwblhaodd yr arolwg wedi'u cyflwyno yn **Nhabl B.1** yn **Atodiad B**, gyda'r prif nodweddion wedi'u nodi isod.

5.4 Roedd tua hanner y sampl yn fenywaidd (51 y cant) ac roedd ychydig llai na'u hanner yn wrywaidd (48 y cant). Disgrifiodd un ymatebwr eu hunain fel "anneuaidd".

5.5 Dywedodd mwyafrif yr yfwyr (94 y cant) eu bod yn 'Gwyn – Saesneg/ Cymraeg/ Albanaidd/ Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon', gyda'r gweddill yn disgrifio eu hunain fel 'Gwyn – Gwyddelig' (dau y cant), 'Gwyn – Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig' (un y cant), 'Gwyn – Arall' (dau y cant), a 'Cymysg – Arall' (un y cant).

5.6 Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr rhwng 45 a 74 oed (55 y cant) gyda'r gweddill rhwng 20 a 44 oed (45 y cant).

²⁴ Er bod tîm yr ymchwil yn gallu casglu gwybodaeth fanwl am yr yfwyr a oedd wedi cwblhau'r arolwg ar-lein, er mwyn bod yn gyson â'r samplau eraill, dim ond trosolwg byr o'u nodweddion a gyflwynir yn y bennod hon. Ceir gwybodaeth fwy manwl am y grŵp hwn (e.e. statws priodasol, trefniadau byw, cymwysterau, statws cyflogaeth, gwariant ar alcohol, math o alcohol a yfir, defnydd o gyffuriau eraill, sgoriau AUDIT, a hanes o driniaeth am gamddefnyddio sylweddau) yn Atodiad B.

- 5.7 Dywedodd y mwyafrif (78 y cant) eu bod mewn rhyw fath o berthynas ar adeg cwblhau'r arolwg. Roedd eu hanner yn briod (50 y cant) ac roedd chwarter arall naill ai'n cydfyw (21 y cant), mewn perthynas (chwech y cant) neu mewn partneriaeth sifil (un y cant). Roedd y gweddill naill ai'n sengl (15 y cant), yn weddw (dau y cant), wedi ysgaru (dau y cant) neu wedi gwahanu (dau y cant).
- 5.8 Roedd yr ymatebwyr yn byw mewn 19 o'r 22 ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru ar adeg cwblhau'r arolwg yfwr – gweler Ffigur B.1 yn Atodiad B. Roedd y cyfrannau mwyaf o'r ymatebwyr yn byw yn Rhondda Cynon Taf (20 y cant) a Phowys (16 y cant). Roedd yr ardaloedd sy'n weddill yn cyfrannu rhwng un a chwe ymatebwr yr un.
- 5.9 Er bod yfwr o bob cwr o Gymru wedi cymryd rhan yn yr arolwg, mae'r dosbarthiad anghyson rhwng ardaloedd yr Awdurdodau Lleol yn golygu ei bod yn bwysig bod yn ofalus wrth gyffredinoli unrhyw ganfyddiadau ar gyfer Cymru gyfan. Er enghraifft, nid yw yfwr o ardaloedd Awdurdodau Lleol yn y Gogledd wedi'u cynrychioli'n dda yn yr astudiaeth (n=8). Roedd yn ddefnyddiol, fodd bynnag, bod y sampl wedi'i rannu'n gyfartal o ran y math o ardal lle'r oedd yr ymatebwyr yn byw (gwledig 55 y cant o'i gymharu â threfol/maestrefol 44 y cant). Er nad yw hyn yn gwneud iawn yn llwyr am absenoldeb rhai ardaloedd o'r astudiaeth, na gor-gynrychiolaeth ardaloedd eraill, mae yn ein helpu i sicrhau bod barn pobl sy'n byw mewn neu'n agos at ddinasoedd yn ogystal â phobl sy'n byw mewn trefi llai a phentrefi ac yng nghefn gwlad i gyd yn cael eu cynrychioli yn yr ymchwil.
- 5.10 Dywedodd bob ymatebydd fod ganddynt gymwysterau lefel mynediad o leiaf. Dywedodd dros eu hanner (57 y cant) fod eu cymhwyster uchaf yn lefel gradd neu uwch (h.y. Lefel 4 neu uwch).
- 5.11 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (79 y cant) eu bod mewn rhyw fath o waith gyda'r rhan fwyaf yn gweithio'n llawn amser am 30 neu fwy o oriau'r wythnos (62 y cant).
- 5.12 Dywedodd dros ddau draean o'r ymatebwyr (67 y cant) fod cyfanswm incwm yr aelwyd o leiaf £25,000 y flwyddyn. Dywedodd y gweddill (32 y cant) fod incwm yr aelwyd yn llai na £25,000 gyda 12 y cant yn dweud bod ei hincwm yn llai na £10,000. Ychydig yn unig o yfwr a ddywedodd eu bod yn cael budd-daliadau gwladol (16 y cant).

- 5.13 Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd i ymatebwyr ateb cyfres o gwestiynau'n ymwneud â'r alcohol roeddent yn ei yfed. Diben hyn oedd canfod gwahanol fathau o yfwyr y gellid wedyn eu cymharu o ran eu hagweddau tuag at isafbris a'r ymddygiad y gellir ei ragweld mewn ymateb i hynny. Cymerwyd y set gyntaf o gwestiynau'n uniongyrchol o'r Prawf Canfod Anhwylderau Defnydd Alcohol (AUDIT), sy'n gyfarpar sgrinio 10 eitem a ddatblygwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd. Roedd modd cyfrifo sgoriau AUDIT ar gyfer 90 o ymatebwyr i'r arolwg yfwyr – gweler Tabl B.2 yn Atodiad B. Roedd gan hanner yr ymatebwyr sgoriau a oedd yn eu rhoi yn y categori risg isel (h.y. saith neu is) ac roedd gan ychydig dros eu chwarter (28 y cant) sgoriau a oedd yn eu rhoi yn y categori risg gymedrol (h.y. wyth -15). Roedd y gweddill naill ai yn y categori risg uchel (saith y cant) neu yn y categori 'caethiwed/dibyniaeth yn debygol' (16 y cant).
- 5.14 Y diodydd alcoholaidd mwyaf cyffredin a oedd yn cael eu hyfed oedd gwirodydd (78 y cant) a gwin (75 y cant) ac yna cwrw/lager/seidr cryfder cyffredin (73 y cant).
- 5.15 Pan ofynnwyd faint o arian roeddent yn ei wario ar alcohol bob wythnos, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (60 y cant) eu bod yn gwario rhwng £1 a £25 yr wythnos. Fodd bynnag, dywedodd bron draean o'r sampl eu bod yn gwario mwy, gan gynnwys 17 y cant a oedd yn gwario rhwng £25 a £49 yr wythnos, a 14 y cant a oedd yn gwario £50 neu fwy ar alcohol yr wythnos.
- 5.16 Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr fod ganddynt hanes blaenorol o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon – gweler Tabl B.3 yn Atodiad B. Y cyffuriau anghyfreithlon mwyaf cyffredin ymhlith yr ymatebwyr oedd canabis (43 y cant), ac yna powdr cocên (27 y cant), ecstasi (26 y cant) ac amffetaminau (25 y cant). Roedd ymatebwyr â hanes o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn dueddol o fod yn defnyddio mwy nag un sylwedd anghyfreithlon. Ar gyfartaledd, roedd ymatebwyr a oedd wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn y gorffennol wedi defnyddio 4.6 o wahanol fathau o gyffuriau (gan amrywio o un i 17 o wahanol fathau o gyffuriau).
- 5.17 Roedd hanes o ddefnyddio cyffuriau presgripsiwn nad oedd wedi'u rhagnodi iddynt hwy'n llai cyffredin na hanes o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon. Dywedodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr (29 y cant) eu bod wedi defnyddio cyffuriau presgripsiwn (nad oedd wedi'u rhagnodi iddynt hwy) ar ryw adeg yn y gorffennol. Y cyffuriau presgripsiwn a ddefnyddid fwyaf oedd cyffuriau lleddfu poen (15 y cant) a thawelyddion (14 y cant).

5.18 Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr unrhyw brofiad o driniaeth am gamddefnyddio sylweddau (81 y cant). Ar adeg cwblhau'r arolwg, roedd 13 o ymatebwyr yn cael triniaeth, 12 am broblemau alcohol ac un am broblemau cyffuriau.

Ymatebwyr i'r arolwg – darparwyr gwasanaeth

5.19 Cwblhaodd cant o bobl sy'n gweithio yn y maes defnyddio sylweddau yng Nghymru'r 'arolwg darparwyr'. Mae nodweddion economaidd-gymdeithasol y darparwyr a gwblhaodd yr arolwg wedi'u cyflwyno yn Nhabl B.4 yn Atodiad B, gyda'r prif nodweddion wedi'u nodi isod.

5.20 Roedd tua dau draean (63 y cant) o'r ymatebwyr yn fenywod ac roedd y mwyafrif (96 y cant) yn diffinio eu hunain fel Gwyn-Saeson/Cymry/Albanwyr/Gwyddelod Gogledd Iwerddon/Prydeinwyr.

5.21 Roedd pob un o ardaloedd y 22 Awdurdod Lleol wedi'u cynrychioli yn yr arolwg. Caerdydd a Rhondda Cynon Taf oedd yr ardal â'r nifer fwyaf o ymatebwyr (23 y cant a 19 y cant yn y drefn honno) a Wrecsam, Sir Gaerfyrddin ac Ynys Môn oedd yr ardaloedd â'r lleiaf (dau y cant yr un)²⁵ (gweler Ffigur B.2 yn Atodiad B).

5.22 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn gweithio mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau²⁶ naill ai fel gweithiwr allweddol (28 y cant), rheolwr (17 y cant) neu weithiwr cymorth (16 y cant). Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill yn: nyrsys (wyth y cant); gweithwyr cymorth neu reolwyr wedi'u lleoli mewn mathau eraill o wasanaethau (saith y cant a phedwar y cant yn y drefn honno); mentoriaid cymheiriaid (pump y cant); a chomisiynwyr (dau y cant).

5.23 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (86 y cant) wedi gweithio yn eu rôl am o leiaf flwyddyn (roedd bron i draean wedi bod yn eu swydd am 10+ o flynyddoedd). Gellid edrych ar y sampl felly fel un credadwy gyda phrofiad sylweddol o weithio yn y maes camddefnyddio sylweddau.

²⁵ Er bod pob ardal wedi'i chynrychioli yn yr astudiaeth, roedd rhai ardaloedd wedi'i cynrychioli'n well na'i gilydd. Rhaid bod yn ofalus felly wrth gyffredinolli'r canfyddiadau ar gyfer pob ardal.

²⁶ Defnyddir y term gwasanaethau cam-drin sylweddau yma i gynnwys gwasanaethau sy'n darparu cymorth i bobl â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol.

5.24 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweithio yn y trydydd sector (80 y cant) gyda'r gweddill yn gweithio yn y sector cyhoeddus (e.e. y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), Gwasanaeth Carchardai EM, Llywodraeth Leol) neu sefydliadau sector preifat (e.e. G4S a Chwmnïau Adsefydlu Cenedlaethol).

Cyfweleion – Defnyddwyr gwasanaeth

- 5.25 Cafodd 38 o gyfweiliadau eu cynnal â 49 o ymatebwyr²⁷. Cyflwynir nodweddion economaidd-gymdeithasol y defnyddwyr gwasanaeth hynny a gyfwelwyd yn Nhabl B.5 yn Atodiad B, gyda phrif nodweddion wedi'u nodi isod.
- 5.26 Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion (31 o 49) yn ddynion a rhwng 45 a 54 oed (13 o 49).
- 5.27 Roedd pob un o'r ymatebwyr wedi profi problemau gyda'u defnydd o alcohol ar ryw adeg yn eu bywydau ac felly roeddent naill a'i yfwyr presennol neu ddiweddar, sy'n cyfateb i'r proffil trin. Nid oedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn defnyddio dim sylweddau eraill heblaw am alcohol.
- 5.28 Dywedwyd mai cwrw/lager/seidr cryfder cyffredin oedd y 'brif fath o ddiod' ymhlith y sampl (nodwyd hynny gan 10 o'r 49 ymatebwr), ac yna gwirodydd a gwin (wyth o 49 yr un yn datgan yn y drefn honno mai dyna oedd eu prif ddiod) ac yna cwrw/lager/seidr (yn cael eu nodi gan saith o'r 49).
- 5.29 Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (17 o ymatebwyr, Caerdydd a'r Fro (11) a Chwm Taf (wyth) a'r nifer lleiaf yn Nyfed (un).
- 5.30 Roedd cymysgedd o leoliadau trefol a gwledig wedi'u cynnwys yn ardal pob bwrdd iechyd.

Cyfweleion – Darparwyr

- 5.31 Cynhaliwyd 38 o gyfweiliadau ag unigolion sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Cyflwynir nodweddion economaidd-gymdeithasol y darparwyr gwasanaeth hynny a gyfwelwyd yn Nhabl B.6 yn Atodiad B, gyda'r prif nodweddion wedi'u nodi isod.

²⁷ Roedd tri chyfweiliad yn gyfweiliadau grŵp. Roedd y cyfweiliadau hyn yn cynnwys tri, pedwar a chwech o gyfweleion.

- 5.32 Cafodd cymysgedd cyfartal o ddynion a menywod (19 yr un) eu cyfweld ac roedd gan y rhan fwyaf ohonynt dros bum mlynedd o brofiad o weithio yn y maes cyffuriau ac alcohol (32 o'r 38).
- 5.33 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gweithio i wasanaethau cyffuriau ac alcohol (27 o 38), roedd nifer fechan ohonynt yn gweithio yn y system cyfiawnder troseddol (chwech), digartrefedd/tai (dau), trais domestig (un) a gwasanaethau statudol eraill heblaw'r GIG (dau).
- 5.34 Roedd y rhan fwyaf naill ai'n weithwyr allweddol/yn delio ag achosion penodol (12 o'r 38) neu'n arweinyddion tîm/uwch ymarferwyr (wyth). Cafodd nifer fach o ymatebwyr o rolau eraill hefyd eu cyfweld gan gynnwys rheolwyr gwasanaeth (tri) a gweithwyr cymorth (dau), ac un gweithiwr allgymorth, mentor cymheiriaid a gweithiwr cymdeithasol.
- 5.35 Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweiliadau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a byrddau iechyd Gogledd Cymru (21 y cant yn y ddau fwrdd).

Crynodeb

- 5.36 Mae'r bennod hon wedi cyflwyno trosolwg o nodweddion y darparwyr a'r yfwyr sydd wedi cwblhau'r arolwg ar-lein a'r rhai sydd wedi cymryd rhan mewn cyfweiliad ansoddol.
- 5.37 Cafodd y samplau hyn eu recriwtio o bob rhan o Gymru ac roeddent yn amrywiol o ran eu nodweddion economaidd-gymdeithasol.
- 5.38 Roedd yr yfwyr yn amrywio o ran eu patrymau yfed. Mae'r cyfuniad o ddata arolwg dienw a chyfweleion wedi'u targedu'n bwrpasol wedi sicrhau bod cynrychiolaeth dda o yfwyr cymedrol, niweidiol a pheryglus yn y samplau. Roedd cynnwys amrywiaeth o fathau o yfwyr yn yr astudiaeth yn bwysig gan fod hynny'n galluogi tîm yr ymchwil i edych ar amrywiadau o ran canfyddiadau a rhagfynegiadau.
- 5.39 Roedd y sampl o'r darparwyr yn cynnwys unigolion sy'n gweithio mewn rolau rheng flaen yn ogystal â rheolwyr a chomisiynwyr. Roedd gan lawer o'r darparwyr hanes hir o weithio yn y maes camddefnyddio sylweddau neu â rhai sy'n defnyddio alcohol a chyffuriau mewn cyd-destunau eraill (h.y. cyfiawnder troseddol) ac roeddent yn ffynhonnell gredadwy o safbwynt effeithiau posibl isafbris am alcohol ar ddefnyddwyr gwasanaeth ac yfwyr eraill.

5.40 Yn y penodau canlynol mae enghreifftiau o ddata dienw'n cael eu priodoli i unigolion o fewn yr is-grwpiau canlynol:

- Cyfweiliad darparwyr;
- Arolwg darparwyr;
- Cyfweiliad defnyddwyr gwasanaeth;
- Cyfweiliad grŵp defnyddwyr gwasanaeth; ac
- Arolwg yfwyr.

6. Effaith bosibl ar ddefnydd o sylweddau eraill

Prif negeseuon

- Nodwyd alcohol fel y sylwedd o ddewis amlwg ac roedd y rhan fwyaf o yfwyr yn credu bod newid yn annhebygol.
- Dim ond rhai 'mathau' o yfwyr oedd yn credu bod newid i sylweddau eraill heblaw alcohol yn debygol, a hynny'n bennaf ymhlith rhai â phrofiad blaenorol o ddefnyddio cyffuriau eraill.
- Ymhlith y sylweddau eraill a enwyd fel y rhai roeddent fwyaf tebygol o droi atynt roedd meddyginiaethau presgripsiwn (e.e. bensodiasepinau), canabis a sylweddau seicoweithredol newydd.

6.1 Prif nod yr astudiaeth oedd ymchwilio i effaith bosibl dybiedig cyflwyno isafbris am alcohol ar ddefnydd yfwyr o sylweddau eraill. Cafodd y rhain a materion cysylltiedig felly eu hystyried yn fanwl gydag yfwyr a darparwyd yn y ddau arolwg ac yn ystod y cyfweiliadau ansoddol.

6.2 Yn y bennod hon edrychir ar y dystiolaeth ac ystyrir yr hyn roedd ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweleion yn credu a all ddigwydd i ddefnydd yfwyr o gyffuriau heblaw alcohol.

Y tebygolrwydd o newid

6.3 Dywedodd bob un o'r pedwar grŵp o ymatebwyr ei bod yn annhebygol y buasai newid torfol o alcohol i sylweddau eraill yn digwydd o ganlyniad i gyflwyno isafbris am alcohol – ac roedd yfwyr yn bendant iawn bod hynny'n annhebygol o ddigwydd.

6.4 Daeth yr awgrym cryfaf o'r posibilrwydd o newid o gyfeiriad defnyddwyr gwasanaeth.

6.5 Fodd bynnag, roedd elfen o gynildeb ac amrywiadau wrth wraidd y pennawd hwn. Roedd hyn yn cynnwys awgrymiadau cryf ynglŷn â pha yfwyr, os byddai rhai o gwbl, fyddai'n newid, pa sylweddau oedd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio, ac esboniadau dros newid a pheidio â newid.

6.6 Roedd taerineb y boblogaeth o yfwyr yn drawiadol: roedd dros 80 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg yn credu bod eu defnydd o sylweddau eraill yn annhebygol neu annhebygol iawn o gael ei effeithio (gweler Tabl 6.1 isod).

Tabl 6.1: Tebygolrwydd o newid (yfwyr)

	Tebygol iawn	Tebygol	Y naill na'r llall	Annhebygol	Annhebygol iawn	Cyfanswm
Cyffuriau anghyfreithlon	2 (2%)	2 (2%)	9 (11%)	5 (6%)	68 (79%)	86 (100%)
Cyffuriau a ragnodir gan feddyg	2 (2%)	1 (1%)	10 (12%)	3 (4%)	69 (81%)	85 (100%)
Cyffuriau a ragnodir i rywun arall	3 (4%)	-	9 (11%)	5 (6%)	69 (80%)	86 (100%)
Meddyginiaeth dros y cownter	3 (3%)	3 (3%)	11 (13%)	5 (6%)	66 (75%)	88 (100%)
Diodydd di- alcohol	3 (4%)	2 (2%)	11 (13%)	6 (7%)	64 (74%)	86 (100%)
Bwyd	3 (4%)	-	10 (12%)	5 (6%)	68 (79%)	86 (100%)
Alcohol heblaw diod	3 (4%)	-	12 (15%)	3 (4%)	64 (78%)	82 (100%)
Unrhyw sylwedd arall	2 (2%)	2 (2%)	9 (11%)	5 (6%)	68 (79%)	86 (100%)

Nodiadau'r tabl: Rhai achosion ar goll.

6.7 Roedd dau reswm pennaf am hyn:

- Y cyfiawnhad cyntaf, a'r mwyaf cyffredin, oedd nad oedd llawer o yfwyr dibynnol wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon o'r blaen ac nad oedd ganddynt fwriad o droi at sylweddau anghyfreithlon. Roedd llawer yn edrych ar sylweddau anghyfreithlon fel bod yn 'anghyfreithlon', yn 'anghywir', neu'n 'beryglus', yn wahanol i'w defnydd problemus 'cyfreithlon' hwy o alcohol:

'Dwi ddim yn hoffi cyffuriau. Dwi ddim yn hoffi'r syniad ohonyn nhw.' (Yfwr, Cyfweliad 13)

'Doeddwn i ddim yn gyfforddus â'r syniad o gymryd cyffur anghyfreithlon.' (Yfwr, Cyfweliad 23)

- Yn ail, er bod y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi awgrymu bod cymryd sawl cyffur gwahanol yn gyffredin ymhlith rhai yfwyr, roedd yn gymharol anghyffredin i yfwyr newid i sylweddau eraill os nad oeddent wedi cymryd sylweddau anghyfreithlon yn y gorffennol. Yn aml, pwysleisiodd y cyfranogwyr fod yfwyr a defnyddwyr cyffuriau anghyfreithlon yn ddwy boblogaeth wahanol gydag anghenion a gofynion caethiwed gwahanol. Er enghraifft, roedd effeithiau ffarmacolegol alcohol yn cael eu gweld fel rhai gwahanol i rai unrhyw sylwedd anghyfreithlon:

'Mae'r ddau'n bethau cwbl wahanol, beth bynnag ...Yn wahanol o ran eu heffeithiau. ... Ond alcohol oedd y peth i mi yn fwy na dim.' (Yfwr, Cyfweliad 10).

6.8 Roedd alcohol yn cael ei gadarnhau'n gyson fel cyffur a ffefrir ac roedd yr awgrym o wneud pethau eraill i gael gafael arno yn hytrach na newid i sylwedd arall yn gryfach:

'Maent yn dal yn mynd i fod yn alcoholig, maent yn mynd i gael gafael arno fo rywsut.' (Yfwr, Cyfweliad 25)

'Byddant yn dal i fod yn gaeth i alcohol, faint bynnag o gyffuriau y byddant yn eu cymryd ni fydd hynny'n cymryd yr alcohol i ffwrdd.' (Yfwr, Cyfweliad 03)

'Dwi ddim yn credu y byddwn i'n mynd ati'n fwriadol i newid i rywbeth nad oes gen i lawer o ddiddordeb ynddo.' (Yfwr, Cyfweliad 04)

6.9 Roedd mwy o gefnogaeth i'r posibilrwydd o newid sylweddau o gyfeiriad y darparwyr, yn enwedig o fewn grŵp yr arolwg. Yn wir, roedd darparwyr yn rhagweld mai'r defnydd o gyffuriau presgripsiwn (wedi'u cael yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon) a'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon (e.e. cannabis neu gocên) oedd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio yn sgil cyflwyno isafbris am alcohol (gweler Tabl 6.2 isod). Ar y llaw arall, roedd llawer llai o ddarparwyr yn rhagweld newidiadau yn y bwyd a fwyteid neu'r diodydd di-alcohol a yfid.

Tabl 6.2: Tebygolrwydd o effaith ar ddefnydd o sylweddau ymhlith defnyddwyr â phrofiad blaenorol o ddefnyddio'r sylweddau hynny (darparwyr)

	Tebygol iawn	Tebygol	Y naill na'r llall	Annhebygol	Annhebygol iawn	Cyfanswm
Cyffuriau anghyfreithlon	31 (33%)	41 (43%)	17 (18%)	4 (4%)	2 (2%)	95 (100%)
Cyffuriau a ragnodir gan feddyg	26 (27%)	39 (41%)	20 (21%)	7 (7%)	3 (3%)	95 (100%)
Cyffuriau a ragnodir i rywun arall	30 (32%)	48 (51%)	12 (13%)	4 (4%)	1 (1%)	95 (100%)
Meddyginiaeth dros y cownter	22 (23%)	29 (31%)	30 (32%)	11 (12%)	2 (2%)	94 (100%)
Diodydd di- alcohol	5 (5%)	16 (17%)	38 (40%)	24 (25%)	12 (13%)	95 (100%)
Bwyd	6 (6%)	16 (17%)	42 (45%)	19 (20%)	11 (12%)	94 (100%)
Alcohol heblaw diod	15 (16%)	29 (31%)	35 (37%)	11 (12%)	4 (4%)	94 (100%)
Unrhyw sylwedd arall	13 (15%)	29 (33%)	41 (47%)	4 (5%)	1 (1%)	88 (100%)

Nodiadau'r tabl: Rhai achosion ar goll.

6.10 Er bod yr un patrwm bras o ganfyddiadau wedi'i ragweld ar gyfer yfwyr â hanes o ddefnyddio'r sylweddau hynny a rhai heb eu defnyddio, y gwahaniaeth allweddol oedd graddfa'r newid a ragwelid. Roedd darparwyr yn llawer mwy tebygol o ragweld newid sylweddau ymhlith yfwyr â phrofiad blaenorol o newid nag ymhlith yfwyr heb hanes o'r fath (gweler Tabl 6.3 isod). Roedd y gwahaniaeth yn arbennig o amlwg ar gyfer chwech o'r wyth grŵp o sylweddau:

- cyffuriau presgripsiwn a gafwyd yn anghyfreithlon (57 y cant o'i gymharu ag 83 y cant);
- cyffuriau presgripsiwn a gafwyd yn gyfreithlon (55 y cant o'i gymharu â 68 y cant);
- cyffuriau anghyfreithlon (53 y cant o'i gymharu â 76 y cant);
- meddyginiaethau dros y cownter (44 y cant o'i gymharu â 54 y cant);

- alcohol heblaw diod (29 y cant o'i gymharu â 47 y cant);
- sylweddau eraill (27 y cant o'i gymharu â 48 y cant).

Tabl 6.3: Tebygolrwydd o effaith ar ddefnyddwyr sylweddau ymhlith defnyddwyr heb DDIM profiad blaenorol o ddefnyddio'r sylweddau hynny (darparwyr)

	Tebygol iawn	Tebygol	Y naill na'r llall	Annhebygol	Annhebygol iawn	Cyfanswm
Cyffuriau anghyfreithlon	16 (17%)	34 (36%)	25 (26%)	12 (13%)	8 (8%)	95 (100%)
Cyffuriau a ragnodir gan feddyg	15 (16%)	37 (39%)	26 (27%)	9 (10%)	8 (8%)	95 (100%)
Cyffuriau a ragnodir i rywun arall	16 (17%)	37 (40%)	26 (28%)	9 (10%)	5 (5%)	93 (100%)
Meddyginiaeth dros y cownter	12 (13%)	28 (31%)	29 (32%)	13 (14%)	8 (9%)	90 (100%)
Diodydd di-alcohol	4 (4%)	13 (14%)	45 (48%)	20 (21%)	12 (13%)	94 (100%)
Bwyd	4 (4%)	15 (16%)	46 (50%)	14 (15%)	13 (14%)	92 (100%)
Alcohol heblaw diod	10 (11%)	17 (18%)	41 (44%)	15 (16%)	10 (11%)	93 (100%)
Unrhyw sylwedd arall	10 (12%)	13 (15%)	46 (53%)	9 (10%)	9 (10%)	87 (100%)

Nodiadau'r tabl: Rhai achosion ar goll.

6.11 Cafodd yr awgrym fod yfwyr â phrofiad blaenorol o ddefnyddio cyffuriau eraill yn fwy tebygol o newid ar ôl cyflwyno isafbris am alcohol ei adleisio hefyd yn nata'r cyfweliad ansoddol. Yma, awgrymodd darparwyr fod newid yn fwyaf tebygol o ddigwydd ymhlith yr unigolion hynny'n unig a oedd yn defnyddio cyffuriau eisoes. Roedd y rhesymau am hyn yn cyfateb â'r esboniadau a gafwyd eisoes gan yfwyr (h.y. awgrymodd darparwyr fod unigolion a oedd yn defnyddio alcohol yn unig yn gwahaniaethu'n foisol rhwng defnyddio sylweddau anghyfreithlon a'u defnydd problemus 'cyfreithlon' eu hunain o alcohol, a'u bod yn 'wrthgyffuriau'):

'Mae'r fath beth yn bod â hierarchaeth cyffuriau lle mae pobl sy'n ddibynnol ar alcohol, byddant yn edrych i lawr ar bobl sy'n defnyddio cocên.' (Darparwr, Cyfweliad 15)

‘Ni wnaiff rai ohonynt ei ddefnyddio ... maent yn erbyn cyffuriau’n llwyr.’
(Darparwr, Cyfweliad 22)

‘Nid ydynt yn dueddol o gymysgu â defnyddwyr cyffuriau, maent yn gweld eu hunain yn wahanol iawn iddynt’, (Darparwr, Cyfweliad 08).

- 6.12 O fewn y boblogaeth o rai â phrofiad blaenorol o ddefnyddio cyffuriau (a’r mwyaf tebygol o newid), roedd tri math o yfwr a oedd yn gorgyffwrdd: yfwyr digartref, defnyddwyr sawl math o gyffuriau ac yfwyr stryd.
- 6.13 Yn wir, pan ofynnwyd iddynt i ddweud pa grwpiau o yfwyr roeddent yn credu oedd mewn mwyaf o berygl o newid sylweddau, y grŵp a enwyd gan y rhan fwyaf o ddarparwyr oedd yfwyr dibynnol (e.e. ‘yfwyr stryd’, ‘yfwyr problemus / dyddiol’, ‘unigolion y mae eu defnydd o alcohol wedi mynd y tu hwnt i reolaeth’, ‘alcoholigion cronig’ (dros 40 wedi’u heffeithio fwyaf), ‘yfwyr stryd sy’n afreolus’ ac yfwyr afreolus’, ‘unigolion digartref sy’n ddibynnol ar alcohol’).
- 6.14 Y prif reswm a roddwyd oedd bod gan y grŵp hwn ‘angen mawr i ddiwallu eu dibyniaeth’ (Darparwr, Arolwg 93) ond na fyddai’n gallu ‘fforddio talu am eu dibyniaeth ar alcohol felly byddant yn defnyddio sylwedd rhatach’ (Darparwr, Arolwg 94). Eglurodd rhai darparwyr fod angen alcohol ar yfwyr dibynnol i ymdopi â’u ffordd o fyw a’u problemau. Cafodd hyn ei gyfleu’n dda gan un ymatebwr i’r arolwg:
- ‘Am eu bod yn trio anghofio am yr holl gachu sydd wedi digwydd iddynt a chau allan bopeth sydd o’u cwmpas. Os na fydd alcohol yn gwneud hyn, ac os nad oes dim neu fawr ddim help ar gael, yna wrth gwrs eu bod nhw’n mynd i ddefnyddio rhywbeth arall.’ (Darparwr, Arolwg 72)

Meddyginiaethau presgripsiwn yn unig

- 6.15 Roedd y patrwm o newid i sylweddau eraill a ragwelid, pan oedd yn digwydd, yn gyson ymhlith y grwpiau o ymatebwyr. Gelid priodoli hyn i gyfuniad o ffactorau:
- argaeledd;
 - pris;
 - efelychu effaith alcohol.

Yr awgrymiadau cryfaf oedd y defnyddid meddyginiaethau presgripsiwn, a gafwyd yn gyfreithlon ac yn anghyfreithlon.

- 6.16 Roedd y darparwyr a gyfwelwyd yn rhagweld pe bai yfwyr yn newid, y byddent yn troi at feddyginiaeth bresgripsiwn sy'n efelychu effeithiau alcohol ar y system nerfol ganolog, fel bensodiasepinau, (gan gynnwys diazepam, MSJ (diazepam y stryd) a zopiclone) a meddyginiaethau a ddefnyddir i drin poenau niwropathig, fel pregablin a gabapentin. Dyma fyddai'r newid mwyaf cyffredin y credai darparwyr a fyddai'n digwydd o ganlyniad i isafbris am alcohol.
- 6.17 Roedd y darparwyr a gwblhaodd yr arolwg hefyd yn rhagweld pe bai yfwyr yn newid, y byddent yn newid i gyffuriau presgripsiwn. Yn wir, ar y cyfan, cyffuriau presgripsiwn (yn enwedig rhai wedi'u cael yn anghyfreithlon) oedd y sylweddau yr oedd darparwyr yn eu rhagweld a fyddai'n cael eu heffeithio yn sgil cyflwyno isafbris am alcohol (gweler Tablau 6.2 a 6.3 uchod). Atyniad y meddyginiaethau hyn yw eu gallu i efelychu effeithiau alcohol.
- 6.18 Roedd hyn yn thema a welid hefyd yn y cyfweiliadau ag yfwyr. Fodd bynnag, yn hytrach na newid yn gyfan gwbl i'r sylweddau hyn, awgrymodd ymatebwyr y byddai'r sylweddau hyn yn cael eu hychwanegu i'w helpu i ymdopi heb gymaint o alcohol. Cafodd cyffuriau presgripsiwn yn unig fel diazepam, neu MSJ (diazepam y stryd) eu crybwyll droeon gan yfwyr:
- 'Y diazepam yw'r peth agosaf at alcohol.' (Yfwr, Cyfweiliad 04)
- 'Mynd i gymryd rhywbeth arall sy'n rhoi'r un teimlad ag alcohol i chi, ond sy'n rhatach o lawer, fel Valium.' (B1, Yfwr, Cyfweiliad Grŵp B)
- 6.19 Heblaw am efelychu effeithiau ffarmacolegol alcohol, awgrymodd yfwyr y byddai'n well ganddynt newid i sylwedd a oedd ar gael yn rhwydd ac a oedd yn gyfreithlon. Dywedodd rhai efallai y byddent yn ystyried cynyddu faint o feddyginiaethau presgripsiwn yn unig roeddent yn eu cymryd yn awr. Dywedodd ambell ymatebwr y gallant, pan oeddent yn cyrraedd pen eu tennyn, ddefnyddio'r sylweddau hyn i helpu gyda symptomau diddyfnu alcohol, pe bai angen:
- 'Fel arall, mae'n debyg y byddech yn sôn am droi at gyffuriau anghyfreithlon, ond mae hynny'n torri'r gyfraith, felly'r un peth. Mae'n bosib trio cael mwy o dabledi lladd poen gan y doctor, ac mi allwn wneud hynny, ac a bod yn onest, mae faint o gemegau dwi'n eu cymryd yn hen ddigon, diolch yn fawr. Tydi'r ffaith eu bod nhw'n gyfreithlon ddim o reidrwydd yn golygu eu bod nhw'n saffach.' (Yfwr, Cyfweiliad 04)

R: Neu chwilio am rywbeth arall i lenwi'r bwlch, fel mynd at eich meddyg, ella, a gofyn am rywbeth yn lle alcohol.

I: lawn. Beth fyddai hynny'n debygol o fod?

R: Wn i ddim, tabledi cysgu, falle. (Yfwr, Cyfweliad 08)

Cyffuriau anghyfreithlon

6.20 Cafodd y rhagolygon llai tebygol o newid i gyffuriau anghyfreithlon eu hategu gan ddefnydd blaenorol a'r posibilrwydd y byddent ar gael yn gymharol rhad. Yn wir, soniodd sawl darparwr am y posibilrwydd y gallai defnyddwyr gyda hanes blaenorol o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon newid:

'Os yw'n ddefnyddiwr sydd wedi defnyddio sawl cyffur gwahanol, yna gallai hyn fod yn broblem.' (Darparwr, Arolwg 73)

'Gall y rhai sy'n cymryd cyffuriau ac alcohol droi fwy at gyffuriau.' (Darparwr, Arolwg 18)

'Anodd gwybod, ond mae'n bosibl y gall rhai edrych yn ôl at ddefnydd blaenorol a dechrau eu defnyddio eto – mi allent fod yn opsiynau mwy fforddiadwy.' (Darparwr, Arolwg 78)

'Rwy'n siŵr ei bod yn bosibl ond nid i bawb gan mai dim ond yfed y bydd rhai pobl ei eisiau.' (Darparwr, Arolwg 92)

'Yn fy mhrofiad i, mae rhai yfwyr afreolus yn gallu cymryd sylweddau eraill ar adegau ond nid oes ganddynt reswm i wneud – os bydd pris y ddiod o'u dewis yn codi efallai y gwelwn ni fwy o hyn.' (Darparwr, Arolwg 63)

6.21 Soniodd darparwyr am ystod y sylweddau roeddent yn credu y gallai yfwyr dibynnol droi atynt. Yn achos yfwyr dibynnol ar y stryd, canabinoidau synthetig oedd y rhai a grybwyllwyd amlaf. Awgrymodd darparwyr fod sylweddau fel sbeis ar gael eisoes a'u bod yn cael eu defnyddio gan yfwyr stryd mewn rhai ardaloedd. Roedd hyn yn gwneud iddynt gredu y gallai yfwyr stryd roi blaenoriaeth i'r sylweddau hyn os byddai alcohol yn anfforddiadwy:

'A'r hyn sy'n fy mhoeni i yw os na allant fforddio'r alcohol, byddant yn troi at sbeis a phethau eraill.' (Darparwr, Cyfweliad 32)

6.22 Dim ond ychydig o'r yfwyr a gwblhaodd yr arolwg oedd yn rhagweld unrhyw newid mewn defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ac felly ni chafwyd llawer o fanylion. Yr unig sylweddau a grybwyllwyd gan ymatebwyr mewn cysylltiad â'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon oedd canabis a bensodiasepinau:

'Yn ystyried newid i bensodiasepinau.' (Yfwr, Arolwg 25)

'Weithiau, ambell dro, canabis ond dim ond daw'r cyfle, ac mae hynny'n digwydd yn anaml.' (Yfwr, Arolwg 50)

6.23 Ymhlith yr yfwyr a gyfwelwyd, nid oedd y rhan fwyaf yn rhagweld bod newid i opioidau yn debygol. Dim ond un defnyddiwr mwy nag un cyffur (alcohol a heroin), a awgrymodd y byddai'n rhoi blaenoriaeth i heroin dros alcohol pan fyddai'r ddeddfwriaeth isafbris alcohol yn cael ei chyflwyno.

I: Felly, a fyddech yn dechrau defnyddio sylweddau eraill?

R: Byddwn, mae'n debyg. Mae'n debyg y byddwn yn mynd yn ôl at y Diamorffin; os ydach chi'n fy neall?

I: Sori, beth fyddech chi'n ei gymryd?

R: Heroin.

I: O, mi fyddech chi'n cymryd heroin. Diamorffin, ie, mi fyddech yn cymryd herion.

R: Am na allwn ei fforddio... Os byddai tri litr yn costio £10, mi faswn yn ei yfed ac yn sefyll ar fy mhen wedyn. Neu ysmegu bag o gyffuriau. Mi faswn yn prynu'r cyffuriau.

I: A fyddai'n well gennych gael cyffuriau?

R: Bydda. Mi fyddai. (Yfwr, Cyfweliad 36)

6.24 Ar y llaw arall, roedd yfwr arall yn rhagweld y byddai'n defnyddio llai o gyffuriau anghyfreithlon fel heroin, crac a chanabis er mwyn cael mwy o arian i'w wario ar alcohol, sef y cyffur o'i ddewis:

B1: Ia, wel, tydw i ddim yn gwario llawer ar fwyd beth bynnag. Ond faswn i ddim yn gwario ar gyffuriau. Diod ydi'r peth mawr i mi.

I: Ocê. Felly, mi fasa'ch chi'n torri i lawr...

B1: Mi faswn i'n rhoi'r gorau i gymryd cyffuriau, ac mi faswn i'n gwario'r arian ar alcohol.

I: Mae hynny'n ddiddorol.

B1: Ond dyw hynny ddim am fy mod... dwi'n yfed mwy. Yfwr fues i erioed. Mae popeth arall wedi bod, mor gaeth ag ydw i wedi bod i heroin, canabis, crac a beth bynnag, dwi wedi bod... Erioed, y peth cynta dwi'n ei brynu ydi diod ac mi faswn. Dwi'n prynu'r pethau eraill os oes gen i'r arian.

I: Iawn. Felly, mi fasa'ch chi torri i lawr ar eich defnydd o sylweddau eraill.

B1: Baswn. (Yfwr, Cyfweiliad Grŵp B)

Newid i sylweddau eraill

6.25 Roedd llai o gefnogaeth i'r syniad y gallai yfwyr droi at feddyginiaethau dros y cownter, diodydd di-alcohol, alcohol heblaw diod neu fwyd o ganlyniad i isafbris am alcohol. Dywedodd fymryn dros hanner y darparwyr a gwblhaodd yr arolwg fod defnydd o feddyginiaethau dros y cownter yn debygol neu'n debygol iawn o gael ei effeithio drwy gyflwyno isafbris am alcohol (gweler Tablau 6.2 a 6.3 uchod).

Eglurodd ambell ymatebwr pan fyddai'n dod i'r pen, y byddai yfwyr yn gwneud unrhyw beth er mwyn gallu ymdopi â'r symptomau diddyfnu ac felly mi allent droi at feddyginiaethu dros y cownter:

'Mae pobl yn fodlon rhoi cynnig ar unrhyw beth i gael gwared ar symptomau diddyfnu.' (Darparwr, Arolwg 7)

'Bydd pobl yn mynd yn fwy desbret ac felly byddant yn rhoi cynnig ar bethau newydd ac yn barod i arbrofi.' [Darparwr, Arolwg 9]

6.26 Cyfeiriodd nifer fach o ddarparwyr yn benodol at fathau o feddyginiaethau dros y cownter neu effaith ddymunol meddyginiaethau o'r fath:

'Ar gyfer yr effaith, yr effaith o syrthni.' (Darparwr, Arolwg 55)

'Codeine 12.8mg mewn Nurofen Plus.' (Darparwr, Arolwg 72)

'Gall meddyginiaethau sy'n seiliedig ar opiadau ddod yn fwy poblogaidd.' (Darparwr, Arolwg 40)

'Mae fffisig peswch rhad ar gael; fodd bynnag, mae'n eithaf costus yn awr i brynu un da. Mae co-codamol yn rhad ac unwaith eto mae hwn yn beryglus gydag alcohol, mae'n dibynnu ar yr unigolyn.' (Darparwr, Arolwg 38)

6.27 Yn yr un modd, roedd yfwyr yn teimlo ei bod yn annhebygol y byddai eu defnydd o feddyginiaethau dros y cownter yn newid (gweler Tabl 6.1 uchod). Y prif eglurhad a

roddwyd oedd nad oeddent yn defnyddio'r sylweddau hyn yn aml, os o gwbl, ac felly ni fyddai isafbris am alcohol yn effeithio ar eu defnydd ohonynt (e.e. 'fydda i ddim yn ei brynu', 'anaml y bydda i'n ei ddefnyddio, beth bynnag', 'Dim ond pan fydd angen y bydda i'n eu defnyddio'). Nid oedd data ar gael o'r cyfweiliadau ansoddol i gadarnhau'r farn y gallai unigolion droi at feddyginiaethau dros y cownter oherwydd isafbrisiau.

- 6.28 Yn achos diodydd di-alcohol, y brif ystyriaeth ymhlith darparwyr oedd nad oedd y diodydd hyn yn 'opsiwn amgen digonol' (Darparwr, Arolwg 86) yn lle alcohol gan 'nad yw'r rhain yn taro'r nod' (Darparwr, Arolwg 91). Roedd yr ymatebion yn debyg yn achos bwyd. At ei gilydd, ni allai darparwyr weld sut y gallai bwyd gymryd lle alcohol:

'Ni fydd hyn yn rhywbeth sydd ar feddwl rhywun sy'n diddyfnu.' (Darparwr, Arolwg 7)

- 6.29 Yn yr un modd, dywedodd yfwyr na fyddai siocled byth yn cymryd lle alcohol ond roeddent yn cydnabod er hynny bod peth potensial i fwy o fwyta cysur os na ellid fforddio gwin:

'Nid wyf yn gweld siocled fel opsiwn amgen rhesymol.' (Yfwr, Arolwg 79)

'Os wyf yn yfed yn ystod yr wythnos mi fydd fel arfer o ganlyniad i ddiwrnod anodd neu wael yn y gwaith ac mae ambell wydraid o win yn help i ymlacio. Os byddaf yn cwtoigi ar win oherwydd fforddiadwyedd, yna mae'n debyg y byddwn yn cynyddu fy mwyta cysur.' (Yfwr, Arolwg 71)

- 6.30 Fodd bynnag, roedd bron i hanner y darparwyr (47 y cant) yn credu bod cyflwyno isafbris am alcohol yn debygol neu'n debygol iawn o gael effaith ar y defnydd o alcohol heblaw diodydd (h.y. golchwyr ceg, persawr eillio, hylif golchi dwylo) (gweler Tabl 6.2 uchod). Y farn gyffredinol ymhlith y rhai a gynigiodd eglurhad am eu hateb (n=31), oedd bod defnydd o alcohol heblaw diodydd yn 'eithafol' ac yn debygol o ddigwydd ymhlith y rhai a oedd yn 'desbret' yn unig. Er hynny, roedd darparwyr yn ei weld fel posibilrwydd ymhlith rhai yfwyr dibynnol:

'Oes, mae gen i gleifion sydd wedi dwyn hylif golchi dwylo yn y gorffennol.' (Darparwr, Arolwg 83)

'Mae'n bosibl yn achos rhai defnyddwyr alcohol dibynnol. Ond annhebygol yn achos y rhan fwyaf.' (Darparwr, Arolwg 86)

‘Gallai gynyddu os yw unigolyn yn ddibynnol ar alcohol ond efallai na fydd hynny’n digwydd.’ (Darparwr, Arolwg 47)

‘Gall nifer fath o ‘yfwyr stryd’ sy’n ddibynnol ar alcohol gymryd yr opsiwn hwn.’ (Darparwr, Arolwg 30)

‘Mae pobl yn y ddalfa’n parhau i gamddefnyddio sylweddau o’r fath os gallan nhw gael gafael arnyn nhw.’ (Darparwr, Arolwg 95)

Roedd un darparwr a gwblhaodd yr arolwg yn poeni am yr ‘ystyriaethau iechyd’ gydag un arall yn mynegi pryderon gwirioneddol am y posibilrwydd y gallai yfwyr ddefnyddio alcohol heblaw diodydd:

‘Rwyf yn poeni am hyn – rwyf wedi clywed eisoes am bobl yn trafod y pethau sy’n cynnwys alcohol y gellir ac na ellir eu hyfed. Roedd y sgwrs yn cynnwys pethau fel gwirod methyl a sut i wneud iddo flasun ‘well’ a phersawr a phersawr eillio ac a oedd modd yfed geliau llaw sy’n cynnwys alcohol. Cyfaddefodd un unigolyn ei fod wedi yfed persawr Chanel No. 5 ei fam.’ (Darparwr, Arolwg 91)

- 6.31 Yn anffodus, ni roddodd y tri yfwr a ddywedodd yn eu hymateb i’r arolwg y byddai eu defnydd o alcohol heblaw diodydd yn debygol o newid ar ôl i’r ddeddfwriaeth ddod i rym reswm am hynny. Roedd yr ychydig esboniadau a gafwyd gan yfwyr a oedd yn rhagweld dim newid, yn bennaf seiliedig ar y ffaith nad oeddent yn defnyddio sylweddau o’r fath ac os oeddent roedd hynny ‘i’r perwyl y bwriadwyd iddynt gael eu defnyddio’ (Yfwr, Arolwg 84). Roedd dau ymatebwr wedi’u synnu bod defnyddio alcohol heblaw diodydd yn cael ei gynnig fel opsiwn hyd yn oed (e.e. ‘O ddifrif??’, ‘Wir?’).

Crynodeb

- 6.32 Roedd mwy o ddarparwyr yn rhagweld newid sylweddau ymhlith pobl â hanes o ddefnyddio sylweddau eraill nag ymhlith yfwyr heb brofiadau o’r fath. Fodd bynnag, roedd patrwm cyffredinol y canfyddiadau’n debyg yn y ddau grŵp.
- 6.33 Cyffuriau presgripsiwn a gafwyd yn anghyfreithlon oedd y sylweddau roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn credu a fyddai’n cael eu heffeithio gan isafbris am alcohol yn bennaf oherwydd potensial bensodiasepinau i helpu yfwyr i hunan-feddyginiaethu ac i ymdopi â symptomau diddyfnu.
- 6.34 Nid oedd llawer o ddarparwyr yn rhagweld y byddai isafbris am alcohol yn effeithio ar lefelau bwyta na defnydd o ddiodydd di-alcohol, ond roedd pryderon y byddai rhai

yfwyr dibynnol yn barod i ddefnyddio alcohol heblaw diodydd fel hylifau golchi dwylo a cheg.

- 6.35 Nodwyd gwerth am arian ac argaeledd yn achos defnydd o nifer o sylweddau, gan gynnwys cyffuriau anghyfreithlon wrth i ddarparwyr ragweld y byddai yfwyr am gael yr effaith fwyaf am eu harian.
- 6.36 Enwyd cannabis a sbeis fel sylweddau posibl ar gyfer rhai gydag a heb hanes o ddefnydd blaenorol ohonynt. Fodd bynnag, roedd defnydd o gyffuriau anghyfreithlon fel cocên, opiadau a heroin yn cael ei ragweld yn unig ymhlith yr yfwyr hynny a oedd wedi defnyddio'r sylweddau hyn o'r blaen.

7. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o isafbris am alcohol

Prif negeseuon

- Roedd lefelau ymwybyddiaeth yn gymysglyd yn y samplau gydag ymatebwyr i'r arolwg yn dangos lefelau gweddol uchel, o bosibl am eu bod wedi dod i wybod am negeseuon am isafbris am alcohol yn y rhagair i'r arolwg. Roedd yr ymwybyddiaeth o isafbris am alcohol ar ei isaf, ac mewn llawer o achosion, yn gwbl absennol, ymhlith yr yfwyr a gyfwelwyd.
- Ymhlith rhai a oedd â pheth ymwybyddiaeth o isafbrisiau, roedd manylder eu dealltwriaeth o'r polisi'n isel ar y cyfan ymhlith darparwyr ac yfwyr, gydag ambell eithriad nodedig yn y ddau grŵp.
- Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr ac yfwyr yn credu y bydd yfwyr dibynnol yn parhau i yfed alcohol mewn ffordd broblemus beth bynnag fyddai'r cynnydd yn ei bris.
- Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gallu enwi a disgrifio ystod fwy o ganlyniadau negyddol o ganlyniad i'r polisi na buddiannau posibl.
- Y prif fuddiannau tybiedig a nodwyd gan ymatebwyr oedd y gallai leihau lefelau yfed alcohol cryf ymhlith rhai yfwyr a lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.
- Roedd y prif bryderon tybiedig a nodwyd yn cyfeirio at gynnydd posibl mewn troseddau meddiangar ac mewn niwed iechyd a chymdeithasol.

Ymwybyddiaeth o gynlluniau i gyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru

- 7.1 Dywedodd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i arolwg y darparwyr (82 y cant) a mwyafrif sylweddol o ymatebwyr i arolwg yr yfwyr (75 y cant) eu bod wedi clywed am y cynllun i gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru²⁸, ac efelychwyd hyn mewn ymatebion a gafwyd gan y darparwyr hynny a gafodd eu cyfweld. Fodd bynnag, dywedodd yfwyr a gafodd eu cyfweld nad oedd ganddynt lawer o ymwybyddiaeth, cyn cymryd rhan yn y broses ymchwil hon, o'r cynllun i gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru. Dim ond nifer fach o ddarparwyr oedd yn barod i gyfaddef nad oeddent yn gwybod llawer am y cynllun.

²⁸ Mae'n bosibl bod y rhagair i'r arolwg a'r e-bost eglurhaol lle'r oedd cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y polisi wedi'u disgrifio wedi dylanwadu ar yr atebion i'r cwestiwn hwn.

- 7.2 Er yr ymddengys fod lefelau ymwybyddiaeth o'r polisi yn gymharol uchel ymhlith y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg, mewn llawer o achosion cafodd hyn ei fynegi mewn modd digon amwys heb ddim neu fawr ddim ymhelaethu pellach, fel:
- 'i bennu pris wedi'i reoleiddio ar bob uned o alcohol.' (Darparwr, Arolwg 9)
- 'Mae Llywodraeth Cymru eisiau cyflwyno isafbris am alcohol.' (Darparwr, Arolwg 99)
- 7.3 Cyfaddefodd y rhan fwyaf o ddarparwyr a gyfwelwyd nad oedd ganddynt lawer o wybodaeth o gwbl am isafbris am alcohol heblaw am ddealltwriaeth sylfaenol o gynlluniau i'w gyflwyno yng Nghymru:
- 'Mewn gwirionedd, yr hyn dwi wedi'i glywed ar y newyddion.' (Darparwr, Cyfweliad 15)
- 'Dwi'n credu fod a wnelo'r peth â phris am uned o alcohol. Ydw i'n gywir?' (Darparwr, Cyfweliad 26).
- 7.4 Yn wahanol i ddarparwyr, cyfaddefodd yfwyr nad oeddent yn gwybod fawr ddim am y cynllun, er bod yr atebion mewn rhai achosion yn awgrymu'n wahanol. Er enghraifft, nododd rai ohonynt sut roeddent wedi clywed am y cynllun, ond dim mwy na hynny fel: 'y rhyngwyd', 'y wasg', 'mi welais rywbeth ar y newyddion unwaith ond wnes i ddim cymryd llawer o sylw'; ac roedd eraill yn amwys a fwy neu lai'n ailadrodd geiriau'r cwestiwn (e.e. 'isafbris yr uned', 'codi pris uned') neu eu barn bersonol am y mater (e.e. 'mae'n anghywir', 'maent yn mynd i godi treth arall arnom ni').
- 7.5 Ychydig yn unig o ddarparwyr oedd yn dangos gwybodaeth fanwl am y cynlluniau i gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru:
- Dywedodd tua thraean o ymatebwyr i arolwg y darparwyr eu bod yn credu bod yr isafbris yn mynd i gael ei bennu ar 50 ceiniog yr uned.²⁹
 - Roedd nifer fach o ymatebwyr i arolwg y darparwyr yn credu y byddai'r isafbris yn cael effaith benodol ar rai diodydd, fel: 'cynnydd enfawr ym mhrys mathau o alcohol fel '[Brand name]', 'gosod isafbris ar alcohol gyda chryfder canran uchel, e.e. bydd 2 litr o seidr cryf yn costio tua £11.00'.

²⁹ Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y lefel a ffefrir ganddi, sef 50c yr uned, ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn, nid yw'r lefel wedi'i phennu eto (gan fod angen gosod rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

- Yn yr un modd, roedd llond dwrn o ddarparwyr yn credu y byddai'n cael effaith ar fathau penodol o yfwyr fel: '...pobl ddigartref sy'n ddibynol ar alcohol', 'pobl agored i niwed', 'pobl dlawd'.

7.6 Roedd rhai yfwyr hefyd yn gwybod bod pris uned yn debygol o gael ei bennu ar 50 ceiniog a mynegodd ambell un eu barn ynglŷn â nod y ddeddfwriaeth yn eu tyb hwy:

'Ceisio lleihau lefelau yfed alcohol drwy godi'r isafbris.' (Yfwr, Arolwg 2)

'Annog pobl ar y cyflogau isaf i beidio yfed.' (Arolwg Yfwyr, 45)

'Osgoi diodydd alcoholaidd rhad.' (Yfwr, Arolwg 70)

7.7 Cymharodd nifer fach o yfwyr hyn gyda'r cynnydd ym mhpris sigarennau.

7.8 Cafwyd atebion mwy manwl gan ambell yfwr a oedd wedi tynnu sylw at amrywiaeth o bwyntiau pwysig, fel yr effaith a gâi isafbris ar fathau penodol o ddiodydd alcoholaidd a'r nod cyffredinol o leihau niwed.

'Y syniad yw codi pris sy'n seiliedig ar gryfder y ddiod. Mae hynny'n golygu na fyddwch yn gallu prynu pethau fel [Brand] am y nesaf peth i ddim. Y syniad yw lleihau niwed i'r bobl sy'n eu hyfed.' (Yfwr, Arolwg 23)

7.9 Roedd rhai darparwyr a ymatebodd yn gallu cynnig peth gwybodaeth am y cyd-destun yn eu hatebion. Mae'n ymddangos mai erthyglau yn y newyddion am gyflwyno isafbris am alcohol yn yr Alban oedd prif ffynhonnell yr wybodaeth hon, a digwyddiadau neu fforymau APB. Cyfeiriodd sawl darparwr at y rhesymeg sydd wrth wraidd cyflwyno isafbris, fel:

'Mae tystiolaeth yn dangos buddiannau i iechyd, absenoldeb o'r gwaith, troseddu (Darparwr, Arolwg 36)

'... nod hyn yw mynd i'r afael â'r marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.' (Darparwr, Arolwg 25)

'... lleihau'r effaith ar y GIG a gwasanaethau sy'n delio â chamddefnyddio alcohol.' (Darparwr, Arolwg 79)

'... atal pobl rhag yfed mwy nag y dylent.' (Darparwr, Arolwg 10)

7.10 Fel yn achos y darparwyr, dim ond ychydig o yfwyr a roddodd gyd-destun i'w hatebion ac a oedd yn gallu dangos eu bod yn gwybod bod isafbris unedau wedi'i gyflwyno eisoes yn yr Alban, fel:

'Bydd yn debyg i'r Alban, sef tua 50c am uned o alcohol.' (Yfwr, Arolwg 39)

7.11 Ymatebodd nifer fach o ddarparwyr ac yfwyr a gafodd eu cyfweld â syndod pan gyflëwyd manylion am y cynnydd posibl mewn prisiau iddynt. Yn achos tri ymatebwr, nid oeddent wedi clywed am gynlluniau i gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru tan y cyfweliad:

'Wel, pan sonioch chi am y seidr gwyn, ar ôl i chi ddweud ei fod yn £3.50 ac y bydd yn costio rhywbeth fel £11, yna mae hynny'n taro'n galed, yn tydi?' (Darparwr, Cyfweliad 08).

'Doeddwn i ddim wedi sylweddoli y bydd y diodydd hynny'n costio cymaint. Mae hynny wedi fy synnu braidd.' (Yfwr, Cyfweliad 12)

Agweddau tuag at isafbris am alcohol

7.12 Roedd agweddau tuag at gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru'n rhanedig rhwng y darparwyr a'r yfwyr a gwblhaodd yr arolwg. Roedd canrannau tebyg yn cytuno (37 y cant a 36 y cant yn y drefn honno) ac yn anghytuno (39 y cant a 38 y cant yn y drefn honno â'r cynllun gyda chwarter y ddwy set o ymatebwyr yn mynegi barn niwtral ar y mater.

7.13 Mae'n ddiddorol nodi na welwyd dim gwahaniaethau sylweddol mewn agweddau³⁰ ymhlith yr yfwyr a gwblhaodd yr arolwg o ran: incwm yr aelwyd, statws cyflogaeth, cymwysterau³¹, sgôr AUDIT, na hanes o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon neu bresgripsiwn. Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaethau sylweddol mewn agweddau yn achos: rhyw (roedd menywod yn fwy tebygol o fod o blaid), amllder defnydd o alcohol (roedd rhai a oedd yn ei ddefnyddio'n llai aml yn fwy tebygol o fod o blaid), amllder defnydd o wirodydd (roedd rhai a oedd yn ei ddefnyddio'n llai aml yn fwy tebygol o fod o blaid) – er nad yw'n amlwg o ganlyniadau'r arolwg pam fod y gwahaniaethau hyn yn bodoli.

7.14 Ymhlith y darparwyr a gafodd eu cyfweld, roedd disgwyliadau negyddol yn gyson yn fwy amlwg na rhai positif pan ofynnwyd iddynt i ddisgrifio sut roeddent yn teimlo am gynlluniau i gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru.³²

³⁰ I ddibenion dadansoddi crynhowyd pum categori'n dri: (1) cytuno'n gryf/cymharol gryf, (2) niwtral, (3) anghytuno'n gryf/cymharol gryf.

³¹ Roedd y berthynas rhwng agweddau tuag at isafbris am alcohol a chymwysterau a gafwyd yn agos at fod yn arwyddocaol ($p=.09$). Roedd y rhai â chymhwyster lefel uchaf yn fwy tebygol o gytuno/cytuno'n gryf na rhai â chymwysterau lefel is.)

³² Gwelwyd llawer o'r materion a godwyd yn cael eu hamlygu hefyd yn [ymgyngoriad Llywodraeth Cymru](#) ar y lefel a ffeirir o 50c ar gyfer isafbris alcohol.

- Awgrymodd yr ymatebion fod y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cytuno'n betrus â'r ddeddfwriaeth ond roedd ganddynt bryderon ynghylch effeithiolrwydd a chanlyniadau isafbris am alcohol, fel:

'Dwi ddim yn cytuno â hyn. Mi wn ei fod yn mynd i ddigwydd, ond mae'n mynd i olygu y bydd llawer o bobl yn waeth eu byd neu mi fyddant yn cael eu gwthio at sylweddau eraill .' (Darparwr, Cyfweliad 22)

'Ydw, dwi'n meddwl mod i'n deall yn iawn beth yw'r rheswm dros gael isafbris am uned, ond rwyf yn poeni y bydd pobl yn troi at ddiodydd eraill a all fod yn waeth iddyn nhw mewn rhai ffyrdd.' (Darparwr, Cyfweliad 29)

- Roedd y rhan fwyaf o'r darparwyr yn amheus a fyddai isafbris yn gweithio, yn enwedig yn achos yfwyr dibynnol, am eu bod yn credu y byddent yn parhau i yfed beth bynnag fyddai'r cynnydd yn y pris.
- Roedd darparwyr felly'n teimlo nad oedd y ddeddfwriaeth yn ddim mwy na 'threth' ar y tlodion ac roeddent yn amheus a fyddai'r arian yn cael ei wario ar driniaeth i'r garfan hon o yfwyr:

'I ble fydd yr arian yn mynd, mae hynny'n gwestiwn arall, i ble fydd arian ychwanegol yma'n mynd?' (Darparwr, Cyfweliad 04)

- Roedd darparwyr yn teimlo na fyddai isafbris am alcohol yn effeithiol oherwydd ei natur 'arwynebol', h.y. trin 'symptom' ac nid 'achos' y caethiwed. Roedd darparwyr o'r farn na fyddai isafbris am alcohol yn cael dim effaith ar batrymau yfed yfwyr dibynnol heb gymorth a thriniaeth ar gyfer y ffactorau sylfaenol hyn.

'Ar y cyfan, dwi ddim yn credu mai dyna'r ateb ar ei ben ei hun ... dwi'n teimlo eich bod yn trin y symptom, nid ydych yn trin yr achos a dwi'n credu bod yn rhaid i chi ddeall pam mae pobl yn ei wneud, pam mae pobl yn yfed gormod a dwi'n meddwl mai dyna'r peth pwysicaf i mi.' (Darparwr, Cyfweliad 21)

7.15 Roedd mwyafrif yr yfwyr a gyfwelwyd yn bendant yn erbyn y polisi gan gredu 'ni fydd y ddeddfwriaeth yn gweithio', h.y. ni fyddai'n cael dim effaith ar lefelau yfed yfwyr dibynnol³³:

'Mi faswn i'n siŵr o ddod o hyd i ffordd o gael effaith yr alcohol yn fy system. Bydd pobl yn dod o hyd i ffordd heibio hynny.' (Yfwr, Cyfweliad 15)

³³ Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, roedd yfwyr dibynnol yn cyfrif am gyfran fechan yn unig o'r boblogaeth yfed ac nid dyma brif grŵp targed y ddeddfwriaeth.

'Pan oeddwn yn y gwaelodion isaf, pan oeddwn ar y stryd, mi faswn i wedi dod o hyd i arian ar gyfer unrhyw ddiod i feddwi'n dwll.' (Yfwr, Cyfweliad 29)

7.16 Pan ofynnwyd pam nad oeddent yn credu y byddai'r ddeddfwriaeth yn gweithio, roedd y cyfweleion fel arfer yn ymateb gydag un o ddau ateb:

- Roedd y cyntaf yn ymwneud â gallu'r ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol a all arwain pobl i fod yn gaeth; heb roi sylw i'r materion hyn yn gyntaf, byddai yfwyr yn parhau i yfed alcohol mewn ffordd broblemus, er gwaethaf cynnydd yn y pris:

'Nid wyf erioed wedi dod ar draws alcoholig neu rywun sy'n gaeth i gyffuriau nad oedd â phroblem iechyd nac fel arall... Gall fod yn ddiweithdra, prinder arian, toriadau mewn budd-daliadau. Dyma'r rhesymau gwirioneddol pam mae pobl yn yfed, a nes inni fynd i'r afael â hynny, mi allan nhw wneud fel y mynnon nhw, mi allant wahardd alcohol, mi allant godi'r pris, ond ni fydd hynny'n newid dim.' (Yfwr, Cyfweliad 22)

- Yn ail, roedd yfwyr yn teimlo bod ffordd o fyw afreolus yfwyr stryd yn golygu y byddent yn parhau i yfed alcohol er gwaethaf unrhyw gynnydd yn ei bris. Yn aml, roedd hyn yn gysylltiedig â'r diffyg cymharol mewn adnoddau ar gyfer poblogaethau yfwyr dibynnol a phobl ddigartref ar y stryd sy'n eu gwneud yn agored i gamddefnyddio sylweddau mewn ffordd broblemus:

'Na, mi all pobl ar y strydoedd fod mewn trafferthion am eu bod eisiau bod yn feddw drwy'r amser a dyna beth sy'n digwydd. Felly, mi fyddant yn chwilio am unrhyw beth i'w brofi ...' (Yfwr, Cyfweliad 08)

Buddiannau posibl cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru

7.17 Pan ofynnwyd beth oeddent yn feddwl oedd buddiannau cael isafbris am alcohol yng Nghymru, atebwyd y cwestiwn gan y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg darparwyr [n=95].

7.18 Mewn nifer fach o achosion roedd yr ymatebwyr yn cael trafferth meddwl am unrhyw beth positif (e.e. 'Fedrai ddim gweld sut y gall helpu', 'dwi ddim yn siŵr a ddaw unrhyw fuddiannau yn ei sgil', 'bychan iawn'), ac ni allai rhai wrthsefyll y demtasiwn i ddisgrifio'r canlyniadau negyddol yn hytrach na'r rhai positif, yn enwedig yn achos yfwyr dibynnol (e.e. '... Dyma'r pwynt: mae pobl yn mynd yn gaeth i alcohol! Pam ddylai cynnydd bychan yn y pris newid hynny?', 'bydd yn trethu'r tlodion ac ni fydd yn cael dim effaith ar gamddefnydd problemus o alcohol').

- 7.19 Roedd nifer fach o ymatebwyr yn teimlo bod rhai buddiannau posibl ond dim ond mewn rhai amgylchiadau (e.e. ‘mae’n dibynnu i ble aiff yr arian, gallai fynd at ofal iechyd ac atal, os felly byddai’n fanteisiol’).
- 7.20 Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn gallu gweld buddiannau posibl amlwg.
- Ambell dro roedd y buddiannau’n cael eu disgrifio mewn ffordd gyffredinol iawn: ‘arbed £783 [sic] i economi Cymru dros gyfnod o 20 mlynedd’, ‘lleihau faint o yfed sy’n digwydd’, ‘gall atal rhai pobl rhag yfed cymaint’, ‘lleihau niwed’, ‘arbed bywydau’.
 - Yn amlach, roedd buddiannau positif yn cael eu disgrifio mewn ffyrdd fel: ‘lleihau yfed dan oed’, ‘llai o droseddu (yn y tymor hir)’, ‘lleihad posibl mewn yfed ar y stryd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol’, ‘... gallai efallai leihau’r yfed cyn mynd allan sy’n digwydd ymhlith yfwyr cymdeithasol’, ‘gallai annog pobl i gael triniaeth am ddibyniaeth ar alcohol’, ‘llai o dderbyniadau i ysbytai’, ‘lleihau’r pwysau ar yr heddlu o ran pethau fel “ymddygiad meddw ac afreolus”’, ‘bydd mwy o bobl yn dewis yfed alcohol gwannach’.
 - Roedd y buddiannau posibl i leihau niwed ymhlith pobl ifanc yn ymatebion cyffredin, ac yn yr un modd y buddiannau cyffredinol i iechyd.
 - Roedd buddiannau eraill diddorol, ond rhai a gafodd llai o sylw, yn cynnwys: yr effaith bositif y gallai ei gael ar dafarnau (e.e. ‘hwb i’r diwydiant tafarnau, llai o dafarnau’n cau’); diodydd fel seidr gwyn yn rhy ddrud i fod yn gystadleuol (e.e. ‘bydd diodydd fel “[enw brand]” ac ati yn ddrutach ac felly gobeithio na fyddant yn gystadleuol’); a Chymru’n cael ei gweld fel enghraifft o sut i fynd i’r afael â phroblemau sy’n gysylltiedig ag yfed gormod o alcohol (e.e. ‘gosod esiamp i’r boblogaeth fod alcohol yn ddrud a’i fod yn gallu arwain at gaethiwed a dibyniaeth’).
- 7.21 Pan ofynnwyd beth oedd eu barn am gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru, cafwyd ateb gan fwyafrif yr ymatebwyr i’r arolwg yfwyr [n=86]. Mewn llawer o achosion, roedd ymatebwyr yn cael anhawster gweld unrhyw fuddiannau pendant (e.e. ‘fedrai ddim gweld unrhyw fuddiannau’, ‘dim, tydw i ddim yn credu y dylai’r llywodraeth ymyrryd’, ‘dim, ni fydd yn gwneud dim gwahaniaeth imi’). Ymhelaethodd ambell ymatebwr ar eu hatebion gan egluro pam nad oeddent yn credu y byddai cyflwyno isafbris am alcohol yn syniad mor dda â hynny:

'Dim. Ni fydd yn stopio neb rhag yfed. Bydd pobl yn gwario llai ar bethau eraill, h.y. esgidiau plant, triapiau ysgol, dyddiau allan i'r teulu, bwyd etc. Yr unig bobl fydd yn elwa fydd y bobl sy'n cynhyrchu'r diodydd.' (Yfwr, Arolwg 21)

'Rydw i'n deall yr angen i leihau yfed niweidiol ond mae codi'r pris yn debygol iawn o achosi pob math o galedi eraill.' (Yfwr, Arolwg 14)

7.22 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gallu gweld rhai buddiannau mewn isafbris.

- Mewn nifer fach o achosion roedd y sylwadau'n gyffredinol iawn gan gyfeirio at effeithiau positif cyffredinol yn hytrach na rhai penodol e.e. 'dwi ddim yn siŵr a dweud y gwir, dwi'n meddwl mai lleihau niwed ydi'r pwynt', 'buddiol').
- Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, disgrifiodd yr ymatebwyr fuddiannau penodol, a'r un mwyaf cyffredin oedd lleihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed (e.e. 'llai o yfed problemus', 'llai o bobl yn yfed').
- Tynnodd rai ymatebwyr sylw at yr effaith bosibl ar sawl math gwahanol o yfwyr, gan gynnwys pobl ifanc (e.e. 'Ei gwneud yn fwy anodd i rai grwpiau, fel pobl ifanc, i gael gafael ar alcohol. Mi fyddai'n anfon y neges bod yfed alcohol yn foethusrwydd'); yfwyr cymedrol (e.e. 'Dwi'n meddwl efallai y gall yfwyr cymedrol brynu ychydig yn llai o alcohol yn y tymor hir'); a rhai ar incymau is (e.e. 'Ni fydd mor hawdd i rai ar incymau is i brynu llwythi o alcohol rhad, cryf, ac mi faswn i'n gobeithio y bydd hyn yn ei dro yn gwneud iddynt ailystyried eu dewis').
- Roedd potensial isafbris am alcohol i arwain at arbedion cost i gymdeithas yn fudd arall a nodwyd gan sawl ymatebwr (e.e. 'y gobaith yw y bydd yn golygu y bydd llai o bobl yn mynd yn ddibynnol ar alcohol ac felly'n lleihau'r gost i gymdeithas (ymweliadau ag ysbytai, cysylltiad â'r heddlu) gan na fyddant yn gallu fforddio seidr gwyn ac ati').

7.23 Disgrifiodd nifer fechan o ymatebwyr fuddiannau lluosog gan gynnwys llai o yfed, arbedion cost, gostyngiad mewn troseddu, a'r buddiannau posibl i fusnesau:

'Rhyddhad o bosibl i'r GIG. Hefyd bydd unrhyw un sy'n ddibynnol ar alcohol yn ei chael yn fwy anodd i gael gafael ynddo oherwydd y gost, a bydd yr un peth yn wir am bobl ifanc. Mi all busnesau elwa hefyd gan ddod â chostau tafarnau'n nes at brisiau siopau diod trwyddedig.' (Yfwr, Arolwg 22)

'Lleihau patrymau yfed niweidiol a pheryglus, lleihau trais domestig, sy'n cael ei annog/ei ddwysau gan alcohol, a gwelwyd ei fod yn lleihau cyfraddau marwolaeth

o ganlyniad i glefydau sy'n gysylltiedig ag alcohol o fewn nifer cymharol isel o flynyddoedd ar ôl ei gyflwyno.' (Yfwr, Arolwg 15)

7.24 Er gwaethaf yr anghytuno a'r amheuon cyffredinol ynglŷn â'i effeithiolrwydd, roedd rhai o'r darparwyr a gyfwelwyd yn gallu nodi buddiannau posibl pendant i'r ddeddfwriaeth. Yn gyffredinol, rhagwelwyd tri thrywydd 'positif':

- Yr un cyffredin a nodwyd oedd effaith y ddeddfwriaeth ar bobl ifanc. Roedd rhai darparwyr o'r farn y gallai'r isafbris gael effaith ataliol ar bobl ifanc (h.y. eu hannog rhag dechrau yfed):

'Ydw, dwi'n meddwl y gallai gael effaith bositif ar fyfyrwyr gan eu bod nhw'n mynd am y cwrw a'r seidr rhad ac mae'n annhebygol y byddant yn medru ei fforddio wedyn. Felly, dwi'n meddwl y caiff effaith bositif ar fyfyrwyr.' (Darparwr, Cyfweliad 32)

- Ar yr un trywydd, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai isafbris fod yn gychwyn ar 'newid diwylliannol' yng Nghymru, lle bydd alcohol yn cael ei gydnabod yn briodol fel sylwedd problemus. Byddai codi pris alcohol yn helpu'r boblogaeth yn gyffredinol i sylweddoli'r niwed sy'n gysylltiedig â defnydd problemus ohono:

'A'r bobl sydd efallai mewn gwaith ond sy'n cael isafswm cyflog neu sy'n cael eu talu'n wael, rhaid meddwl amdany'n nhw am na fyddant yn gallu fforddio prynu'r hyn maent wedi arfer ei brynu. A gobeithio y bydd yn gwneud i'r bobl hynny feddwl mwy am effeithiau niweidiol yfed y seidrau a'r lagers dychrynlyd yma. Ddylai hynny ddim bod yn gymaint o broblem wedyn am na fyddant yn gallu eu fforddio. (Darparwr, Cyfweliad 32)

- Yn olaf, roedd sawl cyfwelai'n gweld potensial isafbris am alcohol i weithredu fel ffactor 'anogaeth', ond dim ond i'r yfwyr dibynnol hynny sydd yng ngham myfyriol y cylch o newid (neu'r rhai sydd wedi cyrraedd y gwaelod isaf ac sy'n barod i newid). Yma, gall codi pris alcohol fod yn sbardun ychwanegol i rai i fynd ati i chwilio am driniaeth a chymorth yn gynharach.

'Yn y bôn, mae'n mynd i olygu y bydd llawer mwy o bobl yn dod drwy ein drysau i chwilio am help, rhywbeth nad ydym o bosibl yn ei weld ar hyn o bryd. Pobl sy'n meddwl y gallant ddelfio â'r peth ar eu pen eu hunain. Yna maent yn penderfynu'n sydyn, wel, fedrai ddim fforddio hyn.' (Darparwr, Cyfweliad 08).

7.25 Ychydig yn unig o yfwyr a gyfwelwyd oedd yn gallu meddwl am agweddau positif posibl a allai ddeillio o'r ddeddfwriaeth. Disgrifiwyd y rhan fwyaf o'r buddiannau hyn mewn ffordd gyffredinol iawn, gan ddisgrifio buddiannau ehangach o ran iechyd a throseddu, neu mewn amgylchiadau penodol yn unig (e.e. atal pobl rhag cael gafael ar alcohol rhad). Fodd bynnag, yn achos y rhai hynny a roddodd ddisgrifiadau mwy manwl o'r buddiannau posibl, roedd tri phrif ganfyddiad yn dod i'r amlwg (sy'n adlewyrchu barn darparwyr):

- Roedd yr un a grybwyllwyd amlaf yn ymwneud ag effaith y ddeddfwriaeth ar bobl ifanc. I rai yfwyr, gallai'r ddeddfwriaeth o bosibl gael effaith 'ataliol' ar faint o alcohol roedd pobl ifanc yn ei yfed pe bai prisiau'n codi:

'Ond fel mesur ataliol ar gyfer y dyfodol, ydy, dwi'n meddwl ei fod. Ydw yn wir. Mi fyddwch yn meddwl, "F**c, dwi ddim am dalu wyth f**cin punt am botel o win. A photel o wisgi? Iesu, dwi ddim yn mynd i dalu £25 neu £30 am botel o ...".'

- Yn ail, awgrymodd rhai o'r cyfweleion y gallai'r ddeddfwriaeth annog yfwyr dibynnol i chwilio am help a thriniaeth. Byddai'r sbardun hwn yn dod pan fyddai yfwyr dibynnol yn sylwi pa mor anfforddiadwy yw alcohol ers cyflwyno isafbris am alcohol:

'Y naill ffordd neu'r llall dwi'n meddwl mai'r diwedd fydd fy mod yn gofyn am help a gallai ddigwydd am fy mod yn dweud na alla i ddim fforddio hyn, rhaid imi roi'r gorau iddi'n awr, neu byddai'n rhaid iddo ddigwydd am na allaf ei fforddio, mynd i drafferthion ariannol, mynd i ddyledion ac yna meddwl, rwy'ti mewn trwbwl rŵan.' (Yfwr, Cyfweliad 11)

- Yn olaf, er nad oedd dim un yfwr wedi dweud y byddai'r ddeddfwriaeth yn gwneud iddynt roi'r gorau i yfed alcohol yn gyfan gwbl, roedd rhai ohonynt yn credu y byddai, ar lefel boblogaeth, yn lleihau lefelau yfed yn gyffredinol:

'Yn ddamcaniaethol o leiaf dwi'n credu y bydd yn effeithio ar lefelau yfed ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol, ond mae hynny'n beth da.' (Yfwr, Cyfweliad 13)

Problemau posibl yn gysylltiedig â chyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru

7.26 Roedd y cyfweliadau a'r arolygon yn cynnwys cwestiynau a oedd yn gofyn i ddarparwyr ac yfwyr i nodi'r problemau posibl a allai godi yn sgil cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru.

7.27 Roedd yr ymatebwyr i gyd yn gallu meddwl am amrywiaeth ehangach o effeithiau a chanlyniadau negyddol posibl nag o fuddiannau posibl. Roedd yr ymatebion i'r arolwg o ran problemau posibl hefyd yn sylweddol hwy a mwy manwl.

7.28 Ar y cyfan, gan edrych ar yr holl ffynonellau data, y prif themâu a oedd yn amlygu eu hunain yn yr ymatebion oedd yr effaith bosibl ar: dibyniaeth, troseddu, niwed i iechyd, niwed cymdeithasol, baich ar wasanaethau (e.e. y GIG, yr heddlu, triniaeth am gam-drin sylweddau), ffynhonnell cyflenwadau amgen, newid sylweddau, a newid alcohol.

Troseddau

7.29 Nodwyd potensial isafbris am alcohol i achosi cynnydd mewn troseddu gan lawer o ymatebwyr i'r arolwg ac mewn cyfweiliadau.

7.30 O'r holl broblemau a grybwyllwyd gan ddarparwyr, y cynnydd posibl mewn troseddu oedd y prif un a ragwelid fwyaf. Roedd darparwyr yn pryderu'n fwy na dim y byddai cynnydd mewn troseddau meddiangar er mwyn talu am alcohol. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at droseddu mewn modd eithaf cyffredinol yn eu hatebion (e.e. 'gallai'r gyfradd droseddu gynyddu i godi arian i dalu am alcohol') ond roedd eraill yn fwy penodol ynghylch natur y troseddu (e.e. 'gallai arwain at gynnydd mewn dwyn alcohol o siopau'). Cyfeiriodd eraill at y math o yfwyr a fyddai fwyaf tebygol o droseddu i gael arian i brynu alcohol (e.e. 'Mae unigolion sy'n ddibynnol ar alcohol yn fwy tebygol o droseddu i dalu am eu halcohol neu o ddwyn alcohol o siopau. Mae'n debygol y byddai ffigurau lladradau/byrgleriaeth/dwyn o siopau'n cynyddu.'). Nifer fach yn unig o ddarparwyr a soniodd am y posibilrwydd y gallai'r ddeddfwriaeth achosi mathau eraill o droseddau (e.e. 'Gall gyfrannu at fwy o drais ymhlith cymheiriaid', 'gall plant gael eu hesgeuluso o ganlyniad i ddefnydd rhieni o alcohol felly byddai cynnydd mewn materion diogelu').

7.31 Mynegodd llawer o yfwyr hefyd eu pryderon am y posibilrwydd o gynnydd mewn troseddu. Weithiau, roedd y sylwadau'n rhai cyffredinol ac yn cyfeirio at droseddu mewn ffordd gyffredinol iawn (e.e. '... bydd y rhai â phroblemau alcohol yn dod o hyd i ffyrdd anghyfreithlon neu anfoesol o ddod o hyd i'r arian', 'gall cyfraddau troseddu gynyddu gan y bydd yn rhaid i bobl dalu am eu ffordd o fyw ryw ffordd neu'i gilydd'). Ar adegau eraill, roedd troseddau penodol yn cael eu henwi 'bydd lefelau dwyn a lladrata'n codi mewn ardaloedd lle mae diweithdra'n uchel', '...gallwn weld cynnydd mewn mân droseddau fel dwyn o siopa neu yfed alcohol a brynwyd ar y farchnad ddu ...'). Roedd pwyslais yr yfwyr yn bendant ar droseddau a fyddai'n

cynhyrchu arian i dalu am alcohol – naill ai troseddau meddiangar (lle byddai'r nwyddau'n cael eu gwerthu i dalu am alcohol) neu ddwyn alcohol o siopau.

Niwed i iechyd

- 7.32 Roedd niwed posibl i iechyd corfforol yfwyr yn broblem a oedd yn cael ei chrybwyll yn aml.
- 7.33 Unwaith eto, roedd darparwyr yn eithaf cyffredinol o ran yr hyn roeddent yn ei ragweld yn digwydd (e.e. 'peryglon i iechyd') ond roedd eraill yn fwy penodol ac yn enwi mathau penodol o niwed i iechyd (e.e. 'marwolaeth yn bosibl, deliriwm tremens ac ati', 'gall atal alcohol yn sydyn achosi ffitiau').
- 7.34 Y farn fwyaf cyffredin, o ran problemau iechyd posibl, a oedd yn cael ei choleddu gan yr holl yfwyr a darparwyr a gyfwelwyd oedd y niwed a oedd yn gysylltiedig â diddyfnu a'r posibilrwydd o ffitiau:

'Mae llawer o yfwyr yn mynd i farw am na allant gael diod ...Dyna ran o'r broblem gydag yfwyr stryd. Maent yn dechrau yfed llai, maent yn cael symptomau diddyfnu, mae hynny'n sicr o arwain at fwy o dderbyniadau i ysbytai, gan y bydd eu horganau'n dechrau dirywio.' (A4 Yfwr, Cyfweliad Grŵp A)

- 7.35 Roedd rhai ymatebwyr yn gwneud y cysylltiad rhwng niwed posibl i iechyd ac ymddygiadau penodol. Er enghraifft, roedd yn ymatebwr yn rhagweld 'y gallai isafbris am alcohol arwain at ddewisiadau sy'n rhoi blaenoriaeth i alcohol dros hanfodion eraill ac y byddai hynny'n cael effaith negyddol ar iechyd'. Yn yr un modd, roedd darparwr arall yn rhagweld y byddai'r yfwyr hynny sydd eisoes yn rhoi blaenoriaeth i brynu alcohol ar draul hanfodion eraill 'mewn mwy o berygl o ddiffyg maethiad a phroblemau iechyd eraill'.

- 7.36 Yn ystod cyfweliadau, mynegodd llawer o ddarparwyr bryderon y byddai iechyd corfforol a meddyliol yfwyr dibynnol yn dirywio o ganlyniad i isafbris am alcohol, fel:

'Y peth cyntaf i ddod i fy meddwl oedd na fydd pobl yn gallu ei fforddio, felly mi fydd perygl y bydd rhai'n rhoi'r gorau iddi'n sydyn a gall hynny achos derbyniadau i ysbyty, a marwolaethau hyd yn oed', (Cyfweliad 29)

'Mae'r bobl yma wedi arfer yfed 22½ uned ar y tro ac ni fyddant wedyn yn gallu cael gafael ar y stwff, felly fy adwaith cyntaf oedd meddwl o ddifrif, a ydym ni am weld llawer o bobl yn dod i mewn sy'n cael ffitiau.' (Darparwr, Cyfweliad 01)

- 7.37 Ar y llaw arall, cafodd y posibilrwydd o niwed corfforol i yfwyr ei grybwyll gan nifer fach yn unig o'r yfwyr hynny a gwblhaodd yr arolwg yfwyr. Soniodd un yfwr am y mater mewn ffordd arwynebol heb gyfeirio'n benodol at natur y niwed i iechyd (e.e. 'problemau iechyd'). Disgrifiodd ymatebwr arall y posibilrwydd o 'symptomau diddyfnu' pe bai alcohol yn mynd yn rhy ddrud i yfwyr dibynnol a chyfeiriodd un arall at y 'straen a'r caledi ychwanegol' y byddai'r rhai na fyddant yn gallu yfed mwyach yn ei deimlo. Hefyd, cyfeiriodd nifer fechan o ymatebwyr at y niwed posibl i iechyd sy'n gysylltiedig â defnyddio alcohol anghyfreithlon ('bydd mwy o alcohol cartref yn achosi mwy o broblemau iechyd', 'gall pobl sy'n bragu eu diod eu hunain achosi problemau eraill').
- 7.38 Mae'r cyfeiriadau prin at niwed posibl i iechyd gan y grŵp hwn yn nodedig o gofio'r pwyslais yr oedd y darparwyr a'r yfwyr i gyd a gafodd eu cyfweld yn ei roi ar y mater pwysig hwn.

Niwed cymdeithasol

- 7.39 Cafodd y posibilrwydd y gallai yfwyr wneud heb hanfodion fel bwyd, dillad a thalu biliau'r cartref eu crybwyll gan ambell ymatebwr a gwblhaodd yr arolwg (e.e. 'rhoi blaenoriaeth i alcohol o flaen bwyd a phethau pwysig eraill'). Dywedodd rhai darparwyr y gallai ail-gyllidebu fel hyn gael canlyniadau cymdeithasol pwysig (e.e. 'bydd gan ddefnyddwyr lai o incwm gwario – a all gynyddu problemau cymdeithasol'). Eglurodd un darparwr y gallai arwain at 'fwy o bobl yn defnyddio banciau bwyd am na allant fforddio i brynu'r bwyd a'r alcohol sydd ei angen arnynt i'w cadw'n ddiogel'. Roedd un arall yn rhagweld 'y byddai arian ar gyfer bwyd/rhent/biliau'n cael ei wario ar alcohol ac y bydd hyn yn achosi i fwy o bobl wynebu digartrefedd'.
- 7.40 Mynegodd sawl ymatebydd hefyd bryderon am effaith bosibl yr ail-gyllidebu hwn ar deuluoedd, ac yn enwedig plant. Cafodd hyn ei fynegi'n groyw iawn gan un ymatebydd:
- 'Rwyf yn gweithio â theuluoedd a fydd yn yfed beth bynnag fydd cost alcohol. Os bydd yn costio mwy, does dim amheuaeth na fydd y plant yn cael llai o fwyd, meddyginiaethau, dillad ac ati.'

- 7.41 Ar yr un trywydd, roedd ymatebwr arall yn rhagweld y bydd pobl sy'n ddibynnol ar alcohol yn parhau i yfed 'beth bynnag fydd ei bris' ac y bydd hyn 'yn effeithio ar bobl ifanc a gallai olygu na fydd anghenion mwy o bobl ifanc yn cael eu diwallu am resymau ariannol'.
- 7.42 Awgrymodd un ymatebwr y gallai isafbris am alcohol 'annog rhai pobl i ddewis gwario ar hanfodion yn hytrach nag alcohol', ac y byddai hynny'n fudd posibl ac yn ganlyniad positif. Fodd bynnag, aeth ymatebwr arall ymlaen i egluro 'ei bod yn ddigon posibl y gallai annog eraill i ddewis alcohol ar draul hanfodion eraill fel bwyd. Gallai hyn gael effaith negyddol ar aelodau'r teulu nad ydynt yn yfed.'
- 7.43 Roedd perthnasoedd ag aelodau'r teulu'n agwedd arall y credai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr a fyddai'n debygol o ddiodeff. Roedd rhai darparwyr hefyd yn poeni am y posibilrwydd o 'dyndra cynyddol' a 'ffraeo' rhwng ffrindiau os byddai yfwyr yn gofyn am fenthyca mwy a mwy o arian:
- 'Fel y dywedais yn gynharach os na fydd y bobl sydd angen alcohol yn gallu cael gafael ynddo, a fyddant yn troi at eu teulu am fwy a mwy o arian? A fyddant yn arddangos ymddygiad mwy gwrthgymdeithasol o fewn teuluoedd a chymunedau sy'n ei gwneud yn anos i bobl ymdopi?' (Darparwr, Cyfweliad 32)
- 7.44 Nodwyd sawl math o niwed cymdeithasol arall gan rai darparwyr. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch:
- allgau cymdeithasol, dieithrio ac unigedd cynyddol (e.e. 'unigolion yn ynysu eu hunain ac yn peidio defnyddio gwasanaethau', 'bydd yn arwain at eu hynysu/eu hallgau fwy byth');
 - dyledion a chaledi ariannol (e.e. 'gallant brofi caledi ariannol os bydd yn rhaid iddynt wario mwy i dalu am arferion yfed difrifol');
 - rhaniadau cymdeithasol mwy difrifol (e.e. 'gwahanu dosbarth posibl, bydd y rhai na allant fforddio alcohol o ansawdd da yn cael eu gorfodi am resymau ariannol i ddewis opsiwn rhatach'); a
 - ffyrdd mwy afreolus o fyw e.e. 'bydd pobl yn parhau i ariannu eu harferion yfed, a gallai hynny arwain at ddwyn, a ffordd fwy afreolus o fyw').
- 7.45 Roedd y rhan fwyaf o'r problemau iechyd a chymdeithasol tybiedig yn cael eu cysylltu ag yfwyr dibynnol, pobl yr oedd darparwyr yn siŵr a fyddai'n parhau i yfed beth bynnag fo'r pris. Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr yn cydnabod yr effaith

bosibl ar fathau eraill o yfwyr yn ogystal ag ar randdeiliaid eraill. Er enghraifft, roedd un darparwr yn rhagweld:

'Bydd pobl yn osgoi prynu alcohol yn eu siopau lleol a gallai hynny gael effaith ar fusnesau lleol.' (Darparwr, Arolwg 29)

7.46 Roedd sawl darparwr yn rhagweld y byddai cwmnïau cynhyrchu'n codi eu prisiau'n gyffredinol gan gynhyrchu mwy o elw iddynt. Disgrifiodd un darparwr sut y gallai hyn weithio mewn gwirionedd:

'Mwy o ddyledion ac mae cynhyrchwyr yn gosod premiwm ar ddiodydd "o ansawdd gwell" er mwyn mynd â'u diodydd i "fand dosbarth" uwch i'w wahaniaethu oddi wrth gynnyrch "israddol". Felly, mae'n dreth ar bawb ac mae'r cynhyrchwyr ar eu hennill ac mae'r cyfoethog yn mynd yn gyfoethocach.'
(Darparwr, Arolwg 91)

7.47 Er bod y darparwyr yn poeni am niwed posibl i iechyd yn fwy na dim, roedd yr yfwyr yn rhoi mwy o bwyslais ar y niwed cymdeithasol posibl a all ddod yn sgil isafbris am alcohol. Eu pryder mwyaf oedd y byddai yfwyr (a'u teuluoedd) yn dewis mynd heb eitemau hanfodol fel bwyd, dillad, rhent a thalu biliau eraill er mwyn ariannu eu defnydd o alcohol. Y farn gyffredinol ymhlith yfwyr oedd bod yfwyr dibynnol yn benodol yn debygol o 'ddewis alcohol' ar draul popeth arall. Roedd sylwadau nodweddiadol a wnaed gan yfwyr yn cynnwys:

'Llai o fwyd, perygl o filiau cardiau credyd uwch, plant ddim yn cael digon o ofal i enwi dim ond ychydig o'r canlyniadau anfwriadol.' (Yfwr, Arolwg 14)

'Bydd pobl sy'n ddibynnol ar alcohol yn gwneud heb hanfodion sylfaenol am fod y gost o ateb eu hanghenion yn uwch. (Nwy, trydan a bwyd). Mae'r cymorth i bobl sy'n ddibynnol ar alcohol yn cael ei lethu gan y niferoedd uwch sy'n gofyn am help at eu dibyniaeth am nad yw'r unigolyn yn gallu delio â'r gost. Yna'r posibilrwydd o gymryd opiadau lle mae pobl ddibynnol yn gorfod defnyddio ffynonellau incwm anghyfreithlon i dalu am bopeth. Mae dwyn o siopau'n bosibl, neu waith rhyw etc.' (Yfwr, Arolwg 22)

7.48 Pan oedd darparwyr yn nodi mathau o niwed cymdeithasol, roedd yr yfwyr yn canolbwyntio'n bennaf ar yr effaith bosibl ar fywyd o ddydd i ddydd yfwyr unigol:

- Roedd yfwyr yn poeni y byddai isafbris yn arwain at galedi ariannol ac wedyn 'mwy o ddyledion' a 'thlodi cynyddol'.

- Roeddent yn bryderus hefyd am yr effaith ar blant (e.e. ‘gallai olygu y bydd plant yn cael llai o fwyd wrth i rieni roi blaenoriaeth i alcohol ar draul bwyd’); a hefyd
- Y perygl o ynysu ymhellach garfan o gymdeithas sydd eisoes wedi’i gwthio i’r cyrion (e.e. ‘dieithrio defnyddwyr alcohol dibynnol ymhellach’).

7.49 Roedd pryderon ymhlith yfwyr fod isafbris am alcohol yn targedu aelodau tlotaf cymdeithas:

‘Cosbi’r rhai tlotaf unwaith eto!’ (Yfwr, Arolwg 41)

‘Mae isafbris ar unrhyw beth yn mynd i dargedu’r rhai ar incwm isel ac o gefndir economaidd-gymdeithasol is bob tro.’ (Yfwr, Arolwg 40)

Baich ar wasanaethau

7.50 Mae’r posibilrwydd y gallai isafbris am alcohol gynyddu’r baich ar wasanaethau craidd yn rhywbeth yr oedd sawl ymatebwr wedi tynnu sylw ato. Cafwyd sylwadau cyffredinol gan ddarparwyr ar yr effeithiau posibl ar y ‘gwasanaethau brys’. Roedd eraill yn fwy penodol, a disgrifiwyd sgil-effaith bosibl niwed i iechyd ar y GIG, yr heddlu a gwasanaethau trin camdefnyddwyr sylweddau, fel:

‘Os na allant fforddio i barhau â’u lefelau yfed presennol bydd hyn yn beryglus iawn iddynt. Bydd hyn yn ei dro’n cael effaith enfawr ar y GIG os byddant yn cael symptomau diddyfnu. Bydd effaith fawr ar yr heddlu hefyd gan y bydd y tebygolrwydd y bydd pobl yn troseddu i ariannu eu defnydd o alcohol yn cynyddu. Mae gwasanaethau’r trydydd sector eisoes dan bwysau ac mae eu harian yn brin ond mae perygl y byddant yn cael eu llethu gan bobl sydd mewn angen dirfawr am help ar unwaith (Darparwr, Arolwg 7)

7.51 Gwnaethpwyd sylw ar y gwasanaethau ‘sydd eisoes dan bwysau’ gan ddarparwr arall hefyd a gyfeiriodd at y rhestrau aros hir am wasanaethau clinigol a’r perygl y gallai hyn ei olygu i yfwyr dibynnol.

7.52 Roedd yr ymatebwr hwn hefyd yn poeni sut y byddai meddygon teulu sydd heb gael hyfforddiant digonol yn gallu delio â chymhlethdod trin yfwyr dibynnol:

‘Ni fydd yfwyr dibynnol yn gallu ariannu eu defnydd o alcohol a bydd hynny’n peryglu eu bywydau gan fod rhestrau aros hir cyn cael gafael ar wasanaethau clinigol. Bydd symptomau diddyfnu’n effeithio ar lawer sy’n mynd i adrannau damweiniau ac achosion brys. Bydd cyfraddau troseddu’n cynyddu i dalu am bris uwch alcohol. Ni fydd meddygon teulu’n cael hyfforddiant digonol i allu delio â

chymhlethdodau camddefnyddio alcohol a'r symptomau diddyfnu." (Darparwr, Arolwg 68)

- 7.53 Yn wahanol i'r darparwyr, nid oedd effaith bosibl isafbris am alcohol ar wasanaethau'n fater a gafodd lawer o sylw gan yfwyr. Yn wir, dim ond tri ymatebwr a gyfeiriodd o gwbl at ddarpariaeth gwasanaethau cymorth yn eu hatebion.

Dulliau eraill o gael gafael ar alcohol

- 7.54 Roedd llawer o ymatebwyr wedi'u hargyhoeddi y byddai yfwyr dibynnol yn debygol o ddal ati i yfed boed y pris yn codi neu beidio. Disgrifiodd rai ymatebwyr ystod o strategaethau ymdopi yr oeddent yn credu y byddai yfwyr yn eu defnyddio i hwyluso parhad eu defnydd o alcohol. Cafodd y posibilrwydd y gallai rhai yfwyr fragu eu halcohol eu hunain gartref ei grybwyll gan sawl ymatebwr. Roedd rhai darparwyr yn bryderus am ansawdd diod wedi'i bragu gartref a pheryglon corfforol distyllu gwirodydd (e.e. 'gellir rhagweld cynnydd mewn bragu cartref a gorddosau sy'n gysylltiedig ag alcohol am na fyddant yn gwybod ei gryfder', 'gall hyn fod yn beryglus iawn os yw'n cynnwys gwirodydd', 'peryglon posibl yn sgil cynnydd mewn "hooch peryglus").

- 7.55 Roedd rhai darparwyr yn poeni y byddai'r farchnad ddu mewn alcohol (sydd, yn ôl un darparwr, yn bodoli eisoes ar ffurf fodca ffug wedi'i fewnforio) yn tyfu o ganlyniad i isafbris:

'Gallai annog mwy o bobl neu gangiau o droseddwyr i werthu nwyddau ffug.'
(Darparwr, Arolwg 9)

'Gallai arwain at gynnydd mewn alcohol anghyfreithlon ac wedi'u smyglo.'
(Darparwr, Arolwg 81)

- 7.56 Tynnodd un darparwr sylw at beryglon posibl alcohol y farchnad ddu i iechyd ac, fel sawl darparwr arall, gwnaeth gymariaethau ag argaeledd tybaco anghyfreithlon:

'Gall alcohol y farchnad ddu gynyddu, fel smyglo tybaco anghyfreithlon. Os digwydd hyn, ni fydd pobl yn gwybod beth maent yn ei yfed ac mewn sawl rhan o'r byd (gan gynnwys Prydain) mae achosion o ddallineb a marwolaethau wedi'u cofnodi o ganlyniad i alcohol rhad, ffug.' (Darparwr, Arolwg 48)

7.57 Cyfeiriwyd at siopa ar draws ffiniau gan nifer fach o ymatebwyr (e.e. ‘prynu dros y bont’). Gwnaeth ddau ymatebwr sylw ar yr effaith bosibl ar fusnesau sy’n agos at y ffin â Lloegr. Roedd un ymatebwr yn poeni y byddent ‘yn fwy tebygol o orfod cau’ efallai oherwydd y prisiau rhatach a fydd yn Lloegr.

Newid sylweddau

7.58 Cafodd y posibilrwydd y gallai rhai yfwyr newid i sylweddau rhatach o ganlyniad i isafbris am alcohol ei grybwyll gan sawl ymatebwr (e.e. ‘gallai rhai pobl newid i sylweddau eraill, rhatach’, ‘dwi’n ofni y byddan nhw’n troi at sylweddau rhatach’, ‘felly bydd mwy o berygl y gallant droi at gyffuriau a fyddai’n fwy fforddiadwy’).

7.59 Y pryder mwyaf oedd bod newid sylweddau’n gallu bod yn beryglus ac y gallai arwain at fwy o niwed (e.e. ‘gall defnyddwyr ddefnyddio sylweddau mwy niweidiol – gan eu rhoi mewn mwy o berygl’).

7.60 Mae’n ddiddorol nodi bod un darparwr yn poeni y gallai troi at gyffuriau fod yn broblemus oherwydd bod ‘llai fyth o ddarpariaeth i ddiddfyfnu oddi ar gyffuriau – ar hyn o bryd dim ond dau wely sydd ar gael yn holl ardal [Bwrdd Iechyd a Enwyd]³⁴’.

7.61 Os oedd darparwyr yn sôn am newid, roeddent gan amlaf yn cyfeirio at bobl a oedd yn ddibynnol ar alcohol:

‘Gall pobl sy’n ddibynnol ddewis defnyddio cyffuriau rhatach. Sylweddau Seicoweithredol Newydd (NPS) neu ddibynnu ar feddyginiaethau dros y cownter neu bresgripsiwn.’ (Darparwr, Arolwg 59)

7.62 Roedd sawl darparwr yn poeni y byddai yfwyr yn troi at ganabinoidau synthetig (e.e. ‘bydd yfwyr yn troi at opsiynau eraill rhatach fel cyffuriau, gan gynnwys sbeis’). Roedd un darparwr yn credu y gallai arwain at ddefnyddio ‘NPS’, heb nodi pa fath, ac at ddibyniaeth ar ‘feddyginiaethau dros y cownter a phresgripsiwn’. Roedd un arall yn poeni y byddai ‘mwy o gymhellant i ddefnyddio cynnyrch sydd heb eu bwriadu i gael eu cymryd gan bobl’.

7.63 Cafodd y posibilrwydd y gallai yfwyr newid o alcohol i sylweddau eraill ei grybwyll gan lawer o’r rhai a gwblhaodd yr arolwg yfwyr. Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn rhagweld os byddai alcohol yn rhy ddrud, yna gallai yfwyr ‘gael eu temptio i droi’ at sylweddau eraill fel rhywbeth gwahanol i ‘feddwi’n gaib’.

³⁴ Mae manylion am y gwasanaeth hwn yn ddiennw am resymau moesegol.

- 7.64 Mae'n ddi-ddorol nodi nad oedd y sylwadau a gafwyd am newid sylweddau'n cynnwys cyfeiriad at unrhyw sylwedd penodol heblaw am un cyfeiriad at 'fwy o ddefnydd o doddyddion'. Roedd y sylwadau hyn yn fwy cyffredinol na'r rhai a gafwyd gan ddarparwyr ac roeddent yn cynnwys ymadroddion fel: 'cam-drin sylweddau', 'cyffuriau eraill', 'sylweddau eraill', 'opsiynau rhatach', 'cyffuriau anghyfreithlon', 'cyffuriau' a 'camddefnyddio sylweddau'.
- 7.65 Cyfeiriodd nifer fechan o ymatebwyr at grwpiau yr oeddent yn credu a fyddai fwyaf tebygol o newid (e.e. 'y bobl hynny sy'n prynu diodydd o archfarchnadoedd/siopau diodydd trwyddedig a allai gael eu temptio i droi at gyffuriau eraill oherwydd y gost', 'rhai ar incwm isel, yn enwedig y digartref. At beth allan nhw droi?').

Newid math o alcohol

- 7.66 Cafodd y posibilrwydd y byddai yfwyr yn newid o un math o alcohol i un arall ei grybwyll gan nifer fach yn unig o'r darparwyr a ymatebodd. Tynnodd un darparwr sylw at y ffaith y gallai newid i ddi-d alcoholaidd ratach, llai cryf 'o bosibl sbarduno symptomau diddyfnu mewn yfwr am fod eu cyrff wedi arfer ag alcohol cryf'. Awgrymodd un arall 'y gallai rhai pobl newid yr hyn maent yn ei yfed' a chwestiynodd a yw rhai pobl yn yfed sylweddau mwy peryglus er mwyn gael yr effaith maent yn ei dymuno. Awgrymodd ymatebwr arall y gallai 'wneud i bobl yfed diodydd cryfach, gwirodydd yn hytrach na seidr er enghraifft. Bydd yn cael effaith anghymesur ar y grwpiau tlotaf a mwyaf agored i niwed ...'.

Dadleoli

- 7.67 Awgrymodd sawl yfwr stryd y gallai cyflwyno isafbris am alcohol ddadleoli'r boblogaeth hon i Loegr lle nad oes isafbris am alcohol wedi'i gyflwyno. Er bod nifer yr ymatebion a gyfeiriodd at yr effaith hon yn fychan, dywedodd cyfweleion fod symudiadau o boblogaethau digartref yn rhywbeth cymharol gyffredin. Nododd un o'r ymatebion fod yr ymddygiad hwn yn fwy tebygol o ddigwydd na 'neidio'n ôl a blaen dros y ffin' (h.y. trip i Loegr gyda'r bwriad o ddod ag alcohol rhad yn ôl i'w werthu neu ei yfed) gan nad oes gan y boblogaeth hon mo'r arian na'r drafnidiaeth i deithio'n ôl a blaen:

I: lawn. Beth am bobl...? Ar y thema honno, pobl yn mynd i Loegr dod â fo'n ôl gyda nhw?

A1: Dwi erioed wedi clywed am hynny.

A3: Ni allaf weld pobl ddigartref yn gwneud hynny, a dweud y gwir. Ni allaf weld pobl y stryd, rydach chi'n gwybod, y bobl sy'n cael eu galw'n bobl y stryd. Dwi ddim yn eu gweld nhw'n gwneud hynny.

A2: Wel, os byddan nhw'n mynd i ffwrdd, ni fyddan nhw'n dod yn ôl.

A3: os byddan nhw'n mynd yno, mi fyddan nhw'n aros yno.

A1: I ddod â digon ohono fo'n ôl, mi fyddai'n rhaid iddyn nhw gael trafndiaeth. Nid oes gan y rhan fwyaf o fegeriaid a phobl y stryd ddim trafndiaeth. Felly, os ydyn nhw am ddod â digon yn ôl, cyflenwadau, i allu troi a dweud, "Reit, rwyf wedi gwneud gwahaniaeth drwy fynd yno a dod â fo'n ôl efo fi," mi fyddai angen fan arnyn nhw. Nid yn unig does ganddyn nhw ddim fan, does ganddyn nhw mo'r arian ychwaith.

A3: Os byddan nhw'n ei wneud, ni fyddan nhw'n mynd yno i siopa. Mi fyddan nhw'n mynd yno, ac os byddan nhw'n mynd yno, mi wnawn nhw aros yno ac yfed. (Yfwr, Cyfweliad Grŵp A)

Crynodeb

7.68 Yn y bennod hon mae data'r arolwg a'r cyfweliadau wedi'i ddefnyddio i ganfod beth mae yfwyr a darparwyr yn ei wybod ac yn ei feddwl am y ddeddfwriaeth isafbris am alcohol yn ogystal â'u canfyddiadau am y buddiannau a'r problemau posibl (canlyniadau andwyol) a all godi o ganlyniad i'w gweithredu ledled Cymru. Y prif gasgliadau yw:

- Er bod ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth yn gymharol uchel ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg mae lefel dealltwriaeth fanwl o'r polisi'n wael ar y cyfan ymhlith darparwyr ac yfwyr, gydag ambell eithriad nodedig yn y ddau grŵp.
- Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (darparwyr ac yfwyr) yn credu y bydd yfwyr dibynnol yn parhau i yfed alcohol mewn ffordd broblemus beth bynnag fydd y cynnydd yn ei bris.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gallu nodi a disgrifio ystod fwy o ganlyniadau negyddol i'r polisi na buddiannau posibl.
- Y prif fuddiannau tybiedig a nodwyd gan ymatebwyr oedd y gallai leihau lefelau yfed alcohol cryf ymhlith rhai yfwyr a lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.

- Roedd y prif bryderon tybiedig a nodwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â'r cynnydd posibl mewn troseddau meddiangar ac â niwed i iechyd a niwed cymdeithasol.

8. Effaith bosibl ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed

Prif negeseuon

- Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn besimistaidd ynglŷn ag effaith isafbris am alcohol ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed yr yfwyr.
- Roedd darparwyr yn rhagweld na fyddai yfwyr dibynnol yn gallu ymdopi â'r newid yn y pris ac y byddent yn troi at ddiodydd cryfach, yn bragu eu diodydd eu hunain (gan gynnwys gwirodydd) gartref, ac yn cyflawni mwy o droseddau meddiangar i ariannu'r parhad yn eu defnydd o alcohol.
- Roedd yfwyr yn llai tebygol o awgrymu newidiadau yn eu hymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed o ganlyniad i isafbrisiau.
- Roedd yfwyr risg isel/canolig yn benodol yn rhagweld na fyddai isafbris yn cael llawer o effaith arnynt am nad oeddent yn yfed digon i gael eu heffeithio neu am y byddant yn gallu fforddio i ymdopi â'r newid.
- Nid oedd yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth yn rhagweld llawer o newid yn eu defnydd o alcohol a hynny'n bennaf am y byddent yn defnyddio strategaethau ymdopi (e.e. siopa dros y ffin, cyflawni mwy o droseddau) a fyddai'n eu galluogi i barhau i yfed.

8.1 Rhan bwysig o'r astudiaeth oedd ymchwilio i effaith bosibl polisi isafbris am alcohol ar faint o alcohol a yfid ac ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol. Cafodd cwestiynau felly eu cynnwys yn yr arolwg ac yn y cyfweiliadau i ymchwilio i'r materion hyn. Gofynnwyd i ddarparwyr ac yfwyr i fyfyrion ar yr effaith bosibl ar amrywiaeth o ymddygiadau gan gynnwys: faint oedd yn cael ei yfed, y math o alcohol oedd yn cael ei yfed, y brand oedd yn cael ei yfed, dulliau ariannu a'r lleoliad lle'r oedd yr alcohol yn cael ei brynu ac wedyn ei yfed. Yn y bennod hon rydym yn adolygu'r hyn roedd yfwyr a darparwyr yn credu a fyddai'n digwydd.

Faint o alcohol oedd yn cael ei yfed

8.2 Roedd darparwyr yn besimistaidd ar y cyfan ynglŷn ag effaith isafbris ar lefel enghreifftiol o 50c ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol ac roeddent yn rhagweld y byddai yfwyr dibynnol yn parhau i yfed beth bynnag fyddai'r cynnydd yn ei bris (e.e. 'mae dibyniaeth yn ddibyniaeth ac ni fydd isafbris am alcohol yn effeithio ar ymddygiadau dibynnol').

- 8.3 Roedd data ansoddol o'r arolygon a'r cyfweiliadau'n cadarnhau'r canfyddiadau hyn, gan awgrymu na fyddai'r ddeddfwriaeth yn cael llawer o effaith ar lefelau yfed oherwydd ei natur 'arwynebol', h.y. trin 'symptom' y caethiwed yn hytrach na'r 'achos'. Roedd un darparwr a gwblhaodd yr arolwg wedi egluro hyn yn dda:
- 'Mae alcoholiaeth yn gaethiwed a bydd pobl yn gwneud yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i fwydo eu harferiad.' (Darparwr, Arolwg 26)
- 8.4 Heb gymorth a thriniaeth ychwanegol i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn roedd darparwyr yn teimlo na fyddai isafbris am alcohol yn cael dim effaith ar batrymau yfed yfwyr dibynnol:
- 'Dwi'n meddwl ei fod yn wastraff arian, dylent yn hytrach wario'r arian neu roi'r sylw i ganfod pam mae pobl yn yfed ac ochr gymdeithasol hynny.' (Yfwr, Cyfweiliad 09)

Strategaethau ymdopi – barn darparwyr gwasanaeth

- 8.5 I ymdopi â'r codiad cynyddol mewn prisiau, roedd darparwyr yn rhagweld y byddai yfwyr dibynnol yn defnyddio nifer o 'strategaethau ymdopi'. Yr un amlycaf a ragwelid oedd 'newid i fathau eraill (cryfach) o alcohol', ac yna 'troseddau meddiangar', 'bragu alcohol cartref', a 'prynu alcohol ar y farchnad ddu'. Er enghraifft, roedd dros hanner y darparwyr a holwyd (58 y cant) yn teimlo bod isafbris yn debygol o effeithio ar y math o alcohol fyddai'n cael ei yfed gan yfwyr dibynnol (gweler Tabl 8.1 isod).

Tabl 8.1: Tebygolrwydd o effaith ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol (darparwyr)

	Tebygol iawn	Tebygol	Ddim yn debygol nac annhebygol	Annhebygol	Annhebygol iawn	Cyfanswm
Faint a yfir	7 (7%)	24 (25%)	17 (18%)	31 (32%)	18 (19%)	97 (100%)
Math a yfir	19 (20%)	36 (38%)	16 (17%)	19 (20%)	6 (6%)	96 (100%)
Brand a yfir	24 (25%)	33 (34%)	19 (20%)	16 (17%)	4 (4%)	96 (100%)
Dull ariannu	41 (43%)	36 (38%)	10 (11%)	6 (6%)	2 (2%)	95 (100%)
Lle mae'n cael eu prynu	21 (22%)	36 (38%)	21 (22%)	13 (14%)	5 (5%)	96 (100%)
Lle mae'n cael eu hyfed	11 (12%)	17 (18%)	31 (32%)	26 (27%)	11 (12%)	96 (100%)

Nodiadau'r tabl: Rhai achosion ar goll.

8.6 Yn wir, yn yr ymatebion ansoddol, y consensws ymhlith y darparwyr oedd y byddai yfwyr yn chwilio am y ddiod ratach a chryfach i'w hyfed. Cafwyd sylwadau gan y rhan fwyaf o ddarparwyr fod pobl sy'n yfed seidr gwyn cryf yn aml yn gwneud hynny oherwydd ei fforddiadwyedd a'i gryfder cymharol, yn hytrach nag am eu bod yn ei fwynhau. O ganlyniad, pe bai pris yr alcohol gwannach, rhad (fel seidr) yn codi i'r un lefel â diodydd cryfach, mwy costus, rhagwelid y byddai yfwyr yn troi at y diodydd cryfach hynny. Yn ystod y cyfweiliadau â darparwyr nodwyd y gallai'r newid hwnnw gyfrannu mewn rhai achosion at ganlyniadau negyddol i iechyd:

'Bydd, ac yna byddant yn meddwl bod gwirodydd yn amlwg yn lefel arall eto o alcoholiaeth, bydd ymddygiad pobl yn cael ei effeithio ac yn y blaen. Felly, dwi'n deall bod seidrau cryf yn gryf ond mae'n amlwg bod yfed fodca'n mynd â phethau i lefel arall. Felly, dwi'n meddwl bod posibilrwydd mai dyna fydd pobl yn ei wneud.' (Darparwr, Cyfweiliad 32)

8.7 Rhagwelwyd cynnydd mewn troseddau meddiangar hefyd er mwyn talu am alcohol drutach (e.e. 'cynnydd mewn dwyn o siopau neu ymddygiadau eraill sy'n ariannu caethiwed fel y fasnach mewn rhyw', 'cynnydd mewn dyledion a gweithgarwch troseddol gwaith rhyw') gan nifer o ddarparwyr; er mai nifer fach yn unig o

ymatebwyr a soniodd am gynnydd posibl mewn begera a benthyca (e.e. 'cynnydd posibl mewn begera') neu ail-gyllidebu eu hadnoddau presennol (e.e. 'gwario arian cynnal yr aelwyd ar alcohol'). Nodwyd dwyn o siopau gan lawer o gyfweleion fel y strategaeth ymdopi fwyaf cyffredin yma, yn enwedig ymhlith yfwyr digartref ar y stryd:

'Mi ydw i'n siŵr y bydd yn cael effaith ar droseddu oherwydd yn hytrach na thalu punt chwe deg, punt saith deg fel maen nhw'n ei wneud nawr am botel o seidr [enw'r Brand] neu [enw'r Brand] nad yw'n cynnwys dim afalau, os ydych chi'n dweud y bydd yn costio pum punt yna dwi'n meddwl y byddwn ni'n gweld cynnydd enfawr mewn dwyn o siopau.' (Darparwr, Cyfweliad 35)

- 8.8 Cafodd y posibilrwydd y byddai yfwyr yn bragu eu halcohol eu hunain gartref ei grybwyll gan sawl ymatebwr mewn cyfweliadau. Roedd rhai darparwyr yn poeni am natur anhysbys alcohol cartref a pheryglon corfforol yfed diodydd o'r fath:

'Os bydd pobl yn meddwl nad ydynt yn mynd i allu fforddio prynu'r alcohol o'r siop dwi'n meddwl y byddant yn rhoi cynnig ar ei wneud eu hunain a rhaid inni feddwl sut allwn ni reoli hynny, sut allwch chi ei fonitro? Sut allwn ni fesur cryfder canrannol alcohol, mi wyddom nad yw'n fanwl gywir bob tro pan fyddwch yn bragu alcohol cartref a gall salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol fod yn risg, a hefyd alcohol ffug, gweithgarwch troseddol, mae'r rhain yn ffactorau pwysig.' (Darparwr, Cyfweliad 29)

- 8.9 Yn olaf, mynegwyd pryderon gan sawl darparwr yn eu hymatebion i'r arolwg ac mewn cyfweliadau ynglŷn â datblygiad marchnad ddu bosibl o ganlyniad i isafbrisiau (e.e. roedd yn debygol o wthio'r farchnad alcohol dan ddaear, mwy o stwff ffug', 'efallai bydd rhai'n cael eu cymell i brynu alcohol ffug', 'stwyff o dan y cownter, stwyff heb ei reoleiddio'). Unwaith eto, roedd darparwyr yn ymwybodol o oblygiadau iechyd marchnad ddu/alcohol wedi'i fewnforio ac yn arbennig, peryglon yfed alcohol cryf iawn, heb ei reoleiddio:

'Rwyf wedi gweld yr hyn a ddigwyddodd gyda thybaco a sut y cododd pris hwnnw, ac erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o dybaco'n ffug, am bris mwy fforddiadwy. Bydd yr un peth yn digwydd gydag alcohol, ac yna bydd llai byth o reoleiddio arno fo. Duw a ŵyr beth fydd pobl yn ei yfed yn y diwedd.' (Darparwr, Cyfweliad 04)

Strategaethau ymdopi – barn yfwyr

- 8.10 Roedd yfwyr yn llai tebygol o ragweld newidiadau yn eu hymddygiad o ganlyniad i isafbrisiau. Yn wir, roedd mwyafrif helaeth (tua 80 y cant) yfwyr yn meddwl nad oedd dim un o'r chwe³⁵ ymddygiad sy'n gysylltiedig ag yfed yn debygol o newid o ganlyniad i isafbris am alcohol (gweler Tabl 8.2 isod).

Tabl 8.2: Tebygolrwydd o effaith ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol (yfwyr)

	Tebygol iawn	Tebygol	Ddim yn debygol nac annhebygol	Annhebygol	Annhebygol iawn	Cyfanswm
Faint a yfir	2 (2%)	7 (8%)	11 (12%)	24 (26%)	49 (53%)	93 (100%)
Math a yfir	4 (4%)	8 (9%)	6 (7%)	18 (20%)	56 (61%)	92 (100%)
Brand a yfir	3 (3%)	9 (10%)	6 (7%)	18 (20%)	55 (60%)	91 (100%)
Dull ariannu	5 (6%)	3 (3%)	10 (11%)	18 (20%)	55 (60%)	91 (100%)
Lle mae'n cael eu prynu	3 (3%)	5 (6%)	10 (11%)	17 (19%)	53 (60%)	88 (100%)
Lle mae'n cael ei yfed	2 (2%)	4 (5%)	11 (12%)	17 (19%)	55 (62%)	89 (100%)

Nodiadau'r tabl: Rhai achosion ar goll.

- 8.11 Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn argyhoeddedig y byddent hwy (ac yfwyr dibynnol eraill) yn parhau i yfed beth bynnag fyddai'r cynnydd yn y pris. Felly, effaith isafbris fyddai addasu neu ddatblygu unrhyw strategaethau ymdopi sydd ganddynt eisoes.
- 8.12 Disgrifiodd rhai ymatebwyr ystod o'r strategaethau posibl yr oeddent yn credu y byddai yfwyr yn eu defnyddio i'w helpu i barhau i ddefnyddio alcohol. Roedd hyn yn cynnwys: newid i ddiodydd alcoholaidd cryfach; bragu eu diodydd eu hunain (gan gynnwys gwirodydd) gartref; a chyflawni mwy o droseddau meddiangar i gael yr arian i barhau i yfed. Fodd bynnag, roedd y strategaethau hyn yn amrywio'n ôl lefelau yfed yr unigolion.

³⁵ Y maint a yfydd, math o alcohol, brand alcohol, dulliau ariannu, lleoliad y pryniant, lleoliad y defnydd.

- 8.13 Un esboniad am y gwahaniaeth rhwng safbwyntiau darparwyr ac yfwyr ar effaith bosibl isafbrisiau ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed yw'r math o yfwyr sy'n cael eu hastudio. Gofynnwyd i'r darparwyr a gwblhaodd yr arolwg, er enghraifft, i ystyried effaith bosibl isafbris am alcohol ar ymddygiad 'defnyddwyr gwasanaeth', sydd o ran eu natur yn debygol o fod yn yfwyr problemus. Ar y llaw arall, gofynnwyd i'r yfwyr a gwblhaodd yr arolwg i ystyried sut y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar eu hymddygiad hwy. Gall y ffaith eu bod yn yfwyr risg isel/canolig yn bennaf³⁶ (gyda chymharol ychydig o yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth), felly helpu i esbonio'r gwahaniaeth barn. Yn wir, pan aeth tîm yr ymchwil ati i gymharu yfwyr risg isel/canolig gyda'r yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth o ran ymddygiadau y gellid eu rhagweld, roedd y grŵp olaf yn llawer mwy tebygol o ragweld newidiadau mewn ymddygiad sy'n gysylltiedig ag yfed na'r grŵp cyntaf³⁷.
- 8.14 Mae'n bwysig nodi hefyd mai nifer fach yn unig o yfwyr dibynnol ar y pryd a gymerodd ran yn y cyfweiliadau ansoddol. Yn wir, roedd rhai ohonynt yn sych ar y pryd, ac roedd rhai'n yfed lefelau mwy cymedrol. Mae'n bwysig cadw hyn mewn cof felly wrth adolygu'r canfyddiadau. Gan gadw hyn mewn cof, rydym wedi categoreiddio'r gwahanol esboniadau yn seiliedig ar y math o yfwr: risg isel/canolig, neu uchel/tebygol o fod yn gaeth. Cyflwynir y canfyddiadau ar wahân isod.

Yfwyr risg isel-canolig

- 8.15 Roedd yfwyr risg isel-canolig yn awgrymu y byddent yn parhau i yfed alcohol beth bynnag fyddai'r cynnydd yn y pris. Un esboniad a gafwyd gan ymatebwyr i'r arolwg oedd gan mai dim ond lefelau isel o alcohol roeddent yn eu hyfed yna ni fyddai'r newid yn y pris yn effeithio arnynt (e.e. 'dwi ddim yn yfed digon iddo i achosi i newid dim', 'mae faint dwi'n ei wario ar alcohol yn gyfran ddibwys o fy incwm', 'Dim ond ychydig o alcohol fi'n ei yfed. Fi bron byth yn goryfed'. Eglurhad cyffredin arall oedd bod gan yr yfwr ddigon o arian i dalu am yr alcohol roedd yn ei yfed (e.e. 'cyflog', 'Mae gen i ddigon o arian', 'Dwi'n yfed alcohol cymharol ddrud beth bynnag.. mewn tafarnau ac ati'). Dywedodd un ymatebwr na fyddai'n newid eu trefniadau ariannu gan y byddai'n addasu faint o alcohol a yfid i'w gadw'n fforddiadwy:

'Fydda i ddim yn gwario mwy na sydd gen i, er fy mod yn cael fy nghyfrif fel rhywun sy'n byw o dan y 'ffin tloidi'. Mae'n debyg y byddwn yn yfed llai mewn

³⁶ Wedi'i seilio ar eu sgoriau ar y pecyn AUDIT, gweler Tabl B.2 yn Atodiad B.

³⁷ Roedd y canfyddiadau'n arwyddocaol yn ystadegol ond mae maint bychan y celloedd (hyd yn oed ar ôl cwtogi'r categorïau i'r graddau rhesymol bosibl) yn golygu bod y canlyniadau'n annibynadwy.

tafarnau ac ati, a mwy gartre os buaswn yn colli fy ngwaith. Felly ni fuasai cynnydd yn y pris yn effeithio llawer.’ (Yfwr, Arolwg 50)

- 8.16 Y farn gyffredinol oedd y byddai yfwyr risg isel-canolig yn gallu parhau â'u patrymau yfed cyfredol ar ôl cyflwyno isafbris, naill ai am eu bod yn gallu fforddio peidio â newid dim neu am nad oeddent yn yfed digon i orfod newid dim.

Yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth

- 8.17 Nid oedd yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth (gan gynnwys yfwyr digartref ar y stryd a defnyddwyr 'trwm') ychwaith yn rhagweld llawer o newid yn eu defnydd o alcohol. Fodd bynnag, yn wahanol i yfwyr risg isel/canolig, roedd y grŵp hwn yn awgrymu y byddent yn defnyddio strategaethau ymdopi penodol i'w galluogi i barhau i yfed. Soniodd dau yfwr am y posibilrwydd o droi at wirodydd cryfach (e.e. "os bydd pris lager neu win yn codi i fod yn debyg i wirodydd, mi fydda i'n debygol o brynu gwirodydd yn eu lle"), canfyddiad a adlewyrchwyd yn nata'r cyfweiliadau hefyd:

'Os yw potel o seidr yn costio £2.50 nawr a'ch bod wedyn yn gorfod talu £8.00, rydych yn mynd i wneud i bobl yfed fodca yn lle seidr. Sori, ond mae'n wir.' (Yfwr, Cyfweiliad 31)

- 8.18 Mae'n ddiddorol nodi mai dim ond un ymatebwr a ddywedodd pe bai'r prisiau'n debyg i'w gilydd ar ôl y newid, y buasai'n newid i wirodydd i gael yr effaith yn gyflymach (e.e. 'tebygol o newid i wirodydd i gael yr effaith yn gynt os bydd y prisiau'n debyg').
- 8.19 Cafwyd peth arwyddion hefyd y gallai yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth benderfynu cynhyrchu eu halcohol eu hunain os bydd yn anfforddiadwy. Er nad oedd bragu cartref yn cael ei grybwyll yn aml ymhlith yfwyr, roedd rhai'n credu y byddai mwy ohono'n cael ei gynhyrchu yn dilyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Aeth rhai yfwyr mor bell â disgrifio cynlluniau i ddechrau cynhyrchu eu halcohol eu hunain:

'Wel, rwyf wedi gwneud rhywfaint o ymchwil ac mae gen i gynlluniau a phopeth yn barod i wneud distyllfa fach yn y sied. Addasu sosban frys a gallwch gynnal eich arferion yfed a gwneud ychydig o arian.' (Yfwr, Cyfweiliad 09)

'Mi fyddan nhw'n meddwl mod i'n gwneud yn iawn ac mi fydda i yn fy fflat efo pedwar cit bragu cartref yn gweithio. Ydach chi'n dallt be sy gen i?' (Yfwr, Cyfweiliad 36)

'Oes. Mae gen i ffrindiau sy'n ei wneud yn rheolaidd, ac rwyf wedi ei yfed o, ac mae o'n dda.' (Yfwr, Cyfweliad 22)

8.20 Dywedodd yfwyr eraill, fodd bynnag, na fyddent yn debygol o fragu alcohol yn eu cartref. Dywedodd un cyfwelai na fyddai'n barod i brofi dim oedd wedi'i gynhyrchu gartref, ond dywedodd criw o yfwyr stryd na fyddai gan y garfan hon yr adnoddau i gynhyrchu alcohol anghyfreithlon:

'Fyddwn i ddim yn cyffwrdd yn y c***u. Gawn nhw ei gadw fo. Dwi ddim yn barod i yfed dim heb sêl ar y caead.' (Yfwr, Cyfweliad 31)

I: Na, fydden nhw ddim yn barod i'w wneud o. Ni fyddai ganddyn nhw'r amser i'w wneud o, na'r awydd chwaith. Ni fyddai ganddyn nhw'r ewyllys.

I: Na'r lle.

A2: Na'r lle i'w wneud o hefyd.

A1: Yn union. Na'r lle i'w wneud o chwaith. Na, a bod yn onest, ni allaf ei weld yn digwydd. Allwch chi?

A3: Mae'n cymryd gormod o amser i'w wneud.

A1: Yn union. Yr unig beth sydd ei angen yw tatws neu afalau, mymryn o fara...

A3: Ychydig o furum.

A1: Afalau, tatws, siwgr, dŵr, a rhywle cynnes i'w gadw.

A2: Yr eplesu. Ond fyddai hynny ddim yn digwydd. (Yfwr, Cyfweliad Grŵp A)

8.21 Yn olaf, o'r data cyfweliadau, y ffordd a ragwelid amlaf i gael alcohol anghyfreithlon yn dilyn cyflwyno isafbrisiau, oedd drwy brynu neu bentyrru alcohol o wledydd lle nad yw isafbrisiau'n bodoli ar hyn o bryd, a Lloegr yn benodol. Dywedodd rhai cyfranogwyr fod hyn yn digwydd eisoes, a bod unigolion yn pentyrru alcohol o dramor i'w werthu yng Nghymru ar ôl i'r prisiau godi:

A Ie, mynd i ffwrdd am noson neu ddwy, dod yn ôl gyda llond fan ac yna'i werthu.

C O ble mae'r alcohol yn dod?

A Gwlad Belg, unrhyw le. (Yfwr, Cyfweliad 02)

8.22 Roedd cyfranogwyr yn teimlo y byddai'r arfer hwn fwyaf tebygol o ddigwydd mewn lleoliadau'n agos at y ffin â Lloegr (e.e. Casnewydd, Cas-gwent, y Trallwng, Wrecsam) lle gellid teithio'n ôl a blaen i brynu alcohol yn gymharol rhwydd:

'Gallaf ddychmygu sut fyddai pobl yn meddwl "wel, dim ond ychydig filltiroedd i ffwrdd ydw i. Mi af draw yno a'i brynu yno am ei fod yn rhatach", efallai.' (Yfwr, Cyfweliad 23)

'Wel, mi fuasai'n ddigon hawdd i fynd yno. Mi awn, gwnawn? Dyna beth maen nhw'n mynd i'w wneud. Yn enwedig gan fod y tollau wedi mynd erbyn hyn. Pam lai?' (Yfwr, Cyfweliad 25)

'Yma, dim ond mater bach o fynd i lawr y ffordd yw e. Mae'n werth y drafferth o yrru am awr i brynu alcohol sy'n llawer rhatach...sut ydych chi'n mynd i atal smyglo dros y ffin? A ydyn nhw'n mynd i gael gorsafoedd archwilio ar yr M4?' (Yfwr, Cyfweliad 15)

Crynodeb

- 8.23 Mae'r bennod hon wedi edrych ar effaith bosibl cyflwyno isafbris am alcohol ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed gan ddefnyddio data'r arolwg a'r cyfweliadau.
- 8.24 Roedd darparwyr yn besimistaidd ar y cyfan ynglŷn ag effaith isafbris am alcohol ar ymddygiadau sy'n gysylltiedig ag yfed. Roedd y rhan fwyaf yn rhagweld na fyddai yfwyr dibynnol yn gallu ymdopi â'r cynnydd yn y pris ac y byddent yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau (e.e. newid i fathau cryf o alcohol, bragu eu halcohol eu hunain neu gyflawni mwy o droseddau) er mwyn parhau i yfed.
- 8.25 Roedd yfwyr, fodd bynnag, yn llai tebygol o ragweld newid yn eu hymddygiad o ganlyniad i isafbrisiau. Dywedodd yfwyr risg ganolig na fyddai eu lefelau yfed yn debygol o newid llawer gan y byddant yn gallu parhau i yfed yr un faint neu am nad oeddent yn yfwyr mawr ac na fyddent felly'n teimlo gwasgfa. Nid oedd yfwyr 'risg uchel, tebygol o fod yn gaeth' ychwaith yn rhagweld llawer o newid yn eu defnydd o alcohol a hynny'n bennaf am y byddent yn defnyddio strategaethau ymdopi (e.e. siopa dros ffiniau, cyflawni mwy o droseddau) a fyddai'n eu galluogi i barhau i yfed.

9. Effaith bosibl ar agweddau eraill ar fywydau yfwyr

Prif negeseuon

- Ar y cyfan, roedd y darparwyr o'r farn y byddai isafbris am alcohol yn cael canlyniadau negyddol yn bennaf ar bob agwedd ar fywydau yfwyr, yn enwedig ar eu hamgylchiadau ariannol, eu hymddygiad troseddol ac iechyd meddwl.
- Roedd llawer yn teimlo mai yfwyr dibynnol fyddai'n teimlo'r effeithiau negyddol fwyaf.
- Roedd darparwyr ac yfwyr yn credu y byddai yfwyr yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ymdopi â'r effaith ar eu cyllidebau. Roedd hyn yn cynnwys: ailgyllidebu'r adnoddau sydd ganddynt yn barod, benthyca gan deulu a ffrindiau, mwy o fenthyca ffurfiol drwy fynd i ddyled mewn siopau neu dafarnau lleol, a begera ar y stryd.
- Roedd llawer o ymatebwyr i'r arolwg a'r cyfweleion hefyd yn rhagweld cynnydd mewn troseddau meddiangar (dwyn o siopau'n bennaf).
- Rhagwelwyd hefyd y byddai isafbris yn cael effaith ar iechyd meddwl yfwyr ac ar berthnasoedd teuluol, a hynny'n bennaf o ganlyniad i'r straen a'r pryder cynyddol y byddai yfwyr a fyddai'n ei chael yn anodd i reoli'r cynnydd yn y prisiau.
- Dywedwyd fod yr effaith y byddai isafbrisiau'n ei gael ar yfwyr ar Gredyd Gymhwysol hefyd yn bryder.

- 9.1 Roedd canfod effaith bosibl cyflwyno isafbris am alcohol ar fywydau yfwyr yn fwy cyffredinol hefyd yn un o brif nodau'r ymchwili. Roedd cwestiynau a oedd yn ymchwilio i effeithiau ehangach isafbris am alcohol felly wedi'u cynnwys yn yr arolwg ac yn y cyfweiliadau. Mae'r bennod hon yn edrych ar yr hyn mae darparwyr ac yfwyr yn credu a fyddai'n digwydd i yfwyr o ran eu: hamgylchiadau ariannol, cyflogaeth, iechyd meddyliol a chorfforol, eu perthnasoedd â'u teulu a'u ffrindiau, tai a threfniadau byw, a hefyd eu hymddygiad troseddol.

Tebygolrwydd o effaith ar fywydau defnyddwyr gwasanaeth

- 9.2 Gofynnwyd i ddarparwyr a gwblhaodd yr arolwg ar-lein ddatgan pa mor debygol yr oeddent yn meddwl y byddai isafbrisiau'n effeithio ar wahanol agweddau ar fywydau defnyddwyr gwasanaeth (gwelwer Tabl 9.1 isod). Nid yw'n syndod efallai mai amgylchiadau ariannol oedd yr agwedd yr oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu i chi'n ddeydfyddai'n 'debygol' neu'n 'debygol iawn' o gael ei heffeithio (85 y cant).

Dilynwyd hyn gan: ymddygiad troseddol (83 y cant); iechyd meddwl (75 y cant); perthnasoedd ag aelodau'r teulu (67 y cant); tai (58 y cant); perthnasoedd â ffrindiau (56 y cant); a chyflogaeth (34 y cant).

Tabl 9.1: Tebygolrwydd o effaith ar ymddygiadau'n gysylltiedig ag yfed (darparwyr)

	Tebygol iawn	Tebygol	Ddim yn debygol nac annhebygol	Annhebygol	Annhebygol iawn	Cyfanswm
Teulu	23 (24%)	42 (43%)	25 (26%)	7 (7%)	1 (1%)	96 (100%)
Ffrindiau	20 (21%)	34 (35%)	35 (36%)	7 (7%)	1 (1%)	97 (100%)
Iechyd corfforol	23 (24%)	38 (39%)	24 (25%)	10 (10%)	3 (3%)	98 (100%)
Iechyd meddwl	26 (27%)	47 (48%)	14 (14%)	9 (9%)	2 (2%)	98 (100%)
Cyflogaeth	14 (14%)	20 (20%)	46 (47%)	12 (12%)	6 (6%)	98 (100%)
Amg ariannol	40 (41%)	43 (44%)	9 (9%)	3 (3%)	2 (2%)	97 (100%)
Tai	21 (21%)	36 (37%)	32 (33%)	5 (5%)	4 (4%)	98 (100%)
Troseddu	32 (33%)	49 (50%)	12 (12%)	5 (5%)	0 (0%)	98 (100%)

Nodiadau'r tabl: Rhai achosion ar goll.

9.3 Yn wahanol i ddarparwyr, roedd y rhan fwyaf o'r yfwyr a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo nad oedd isafbris yn debygol o effeithio ar unrhyw rai o'r wyth agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys eu hamgylchiadau ariannol (gweler Tabl 9.2 isod). Y prif reswm am hyn oedd am "nad oeddent yn yfwyr mawr" neu am y byddant yn gallu ymdopi â'r cynnydd yn y pris. Yn anffodus, ychydig iawn o ymatebwyr a roddodd eglurhad am eu hateb, efallai am eu bod erbyn hynny wedi blino ar ateb cwestiynau (roedd y cwestiynau hyn i'w cael ar ddiwedd yr holiadur). Mae felly'n anodd gweld unrhyw batrymau eglur yn y sylwadau ansoddol. Y farn gyffredinol, fodd bynnag oedd bod yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth yn teimlo bod isafbris yn debygol o effeithio ar eu bywydau (e.e. 'bydd yn achosi llanast ariannol imi') gydag yfwyr risg isel-canolig yn teimlo i'r gwrthwyneb (e.e. 'Dwi ddim yn yfwr mawr, felly ni fydd yn cael dim/dim llawer o effaith').

Tabl 9.2: Tebygolrwydd o effaith ar agweddau eraill ar eich bywyd (yfwyr)

	Tebygol iawn	Tebygol	Ddim yn debygol nac annhebygol	Annhebygol	Annhebygol iawn	Cyfanswm
Teulu	7 (8%)	7 (8%)	9 (10%)	6 (7%)	63 (69%)	92 (100%)
Ffrindiau	6 (7%)	6 (7%)	10 (11%)	5 (5%)	65 (71%)	92 (100%)
Iechyd corfforol	3 (3%)	7 (8%)	13 (14%)	3 (3%)	65 (71%)	91 (100%)
Iechyd meddwl	6 (7%)	6 (7%)	15 (16%)	4 (4%)	61 (66%)	92 (100%)
Cyflogaeth	3 (3%)	4 (4%)	13 (14%)	4 (4%)	66 (73%)	90 (100%)
Amg ariannol	8 (9%)	9 (10%)	12 (13%)	5 (6%)	57 (63%)	91 (100%)
Tai	4 (4%)	6 (7%)	11 (12%)	5 (6%)	65 (71%)	91 (100%)
Troseddu	4 (4%)	2 (2%)	13 (14%)	4 (4%)	67 (74%)	90 (100%)

Nodiadau'r tabl: Rhai achosion ar goll.

9.4 Yn ddiddorol, pan ofynnwyd i yfwyr a oedd wedi cwblhau'r arolwg i fyfyrion ar effaith bosibl isafbris am alcohol ar yfwyr eraill, gwelwyd patrwm gwahanol o ganlyniadau'n dod i'r amlwg. Roedd y rhan fwyaf o yfwyr (87 y cant, 79/91) yn rhagweld y byddai cyflwyno isafbris am alcohol yn effeithio ar fywydau yfwyr eraill. Roedd y rhesymau a roddwyd am hyn yn amrywiol, ond gwelwyd dwy thema gyffredin, sef y caledi ariannol y byddai rhai yfwyr (a'u teuluoedd) yn ei brofi a'r angen i rai yfwyr droseddu er mwyn cael yr arian i barhau i yfed.

Amgylchiadau ariannol

9.5 Roedd ddarparwyr ac yfwyr fel ei gilydd yn fwy tebygol o ragweld y byddai isafbris am alcohol yn cael effaith ar amgylchiadau ariannol yfwyr nag ar unrhyw agwedd arall ar eu bywydau (gweler Tablau 9.1 a 9.2 uchod).

9.6 Roedd yr ymatebion ansoddol o'r arolygon gan ddarparwyr yn dangos nad oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu y byddai hyn er gwell (e.e. 'posibilrwydd o fwy o ddyledion', 'tlotach', 'bydd rhagor o arian yn cael ei wario ar alcohol', 'Roeddwn i'n arfer ysmegu a faint bynnag oedd y prisiau'n codi, roeddwn yn dal i ysmegu ac yn gwario llai ar bethau eraill. Dwi'n siŵr y bydd yr un peth yn wir am alcohol).

9.7 Roedd ambell ddarparwr yn meddwl y gallai hyn gael sgil effaith ar agweddau eraill ar fywydau yfwyr (e.e. 'byddai eu gwariant ar alcohol yn cynyddu a gallai hynny leihau gwariant ar hanfodion fel bwyd a gwres').

- 9.8 Roedd rhai darparwyr yn credu y byddai'r tebygolrwydd o broblemau ariannol yn uwch ymhlith yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth (e.e. 'i'r rhai hynny ar y pegwn yfed trymaf gallai olygu problemau ariannol dwysach').
- 9.9 Fodd bynnag, roedd un darparwr yn credu y gallai yfwyr risg isel-canolog gael eu heffeithio hefyd am ei bod yn bosibl y byddant yn 'neilltuo cyfran uwch o'u hincwm ar gyfer prynu alcohol, gan esgeuluso pethau eraill fel biliau, bwyd, dirwyon, cynnal aelodau eraill o'r teulu' (Darparwr, Arolwg 81).
- 9.10 Un darparwr yn unig a grybwyllodd y posibilrwydd y gallai isafbris gael effaith bositif ar amgylchiadau ariannol yfwyr, ac roedd yn credu y gallai helpu yfwyr i 'cadw trefn ar eu materion ariannol'.
- 9.11 Yn ystod cyfweiliadau ansoddol, roedd sawl darparwr yn rhagweld y byddai yfwyr yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ymdopi â'r straen ariannol a fyddai'n cael ei achosi yn sgil cyflwyno isafbrisiau. Awgrymodd ambell ddarparwr y byddai rhai yfwyr yn ail-gyllidebu'r adnoddau sydd ganddynt i ryddhau arian i'w wario ar alcohol (e.e. defnyddio arian a arferai gael ei ddefnyddio i dalu biliau i brynu alcohol):
- 'Mae hwn yn un anodd, yn enwedig os ydych chi'n delio â chleientiaid sy'n gaeth i gyffuriau. Mi awn nhw heb fwyd i brynu bag o heroin. Mi all hynny'n awr ddigwydd yn achos alcohol. Felly, efallai y gwnawn nhw ar lai o fwyd a hanfodion eraill a'r pethau y dylent fod yn eu gwneud o gwmpas y tŷ, i gynilo er mwyn prynu'r alcohol.' (Darparwr, Cyfweiliad 14)
- 'Mi fyddan nhw'n barod i wneud y tro. Byddan nhw'n siŵr o ddod o hyd i ffordd o brynu eu cwrw neu eu seidr a bydd pethau eraill yn cael eu gadael ar ôl. Os ydynt yn cael budd-dal tai a heb ddigon i dalu am eu rhent a'u diod, mi fyddant yn dewis eu diod ar draul eu rhent.' (Darparwr, Cyfweiliad 22)
- 9.12 Cyllidebu adnoddau sydd ganddynt yn barod (e.e. bwyd, biliau nwy/trydan) oedd y strategaeth ymdopi y cyfeiriwyd ati amlaf gan yfwyr hefyd. Dywedodd y rhan fwyaf o yfwyr eu bod wedi gwneud hyn yn y gorffennol os nad oeddent yn gallu fforddio alcohol. Er bod cyllidebu'n aml yn cael ei gysylltu â gwneud heb hanfodion dyddiol a biliau'r aelwyd, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd na fyddent fwyaf na thebyg yn gwario arian ar fwyd mewn sefyllfa o'r fath:
- 'Rargian, os byddai'n rhaid dewis rhwng bwyd neu ddiod, diod fyddai hi bob tro. Ia, tad, yn bendant.' (Yfwr, Cyfweiliad 27)

'Ac os ydych chi yn y sefyllfa lle'r ydych chi'n dal i yfed a bod gennych arian i brynu bwyd neu brynu diod, rydych yn mynd i brynu diod.' (Yfwr, Cyfweliad 14)

9.13 Nododd yfwyr eraill sut y byddent yn dargyfeirio arian o filiau'r aelwyd a hanfodion eraill i dalu am eu harferion yfed. Byddai hyn yn aml yn arwain at gynyddu dyledion ac anawsterau ariannol:

R: Yn y gorffennol doeddwn i jest ddim yn talu'r biliau.

I: Felly, sut oeddech chi'n talu amdano?

R: Doeddwn i ddim yn talu biliau, dim ond yn yfed. (Yfwr, Cyfweliad 15)

'Os ydynt yn dlawd yna does ganddyn nhw ddim llawer o arian. Mi allan nhw yfed llawer a phenderfynu peidio â bwyta, sydd yr un mor ddrwg. Achos dyna beth sy'n digwydd – mae pobl yn colli diddordeb mewn bwyta. Efallai na fyddant yn talu eu biliau; ac maen nhw'n cael eu troi allan o'u cartref. Gallai pob math o bethau felly ddigwydd. Rydych yn meddwl "lawn: 50c a tydach chi ddim yn rhoi dim byd yn ei le.'" (Cyfweliad, Yfwr 21)

9.14 Roedd strategaeth ymdopi arall a nodwyd gan ddarparwyr ac yfwyr yn cynnwys benthycu arian gan ffrindiau ac aelodau agos o'r teulu. Yma, gwelwyd dau fath gwahanol o fenthycu, a oedd yn ddibynnol ar y math o yfwr dan sylw. Yn achos yfwyr stryd, roedd yn gyffredin i ddarparwyr gyfeirio at 'gyfuno' adnoddau ymhlith y garfan hon:

'Ac yna'r diwrnod wedyn eich tro chi yw hi oherwydd, "Mi fyddwn yn iawn fory am fod Tom yn cael arian fory," neu mi fydd Taliad Annibyniaeth Personol neu mi fydd rhyw fudd-dal arall sy'n dod ag incwm. Felly, mae'n gweithio ...o safbwynt diogelwch mae'n debyg mai dyna'r peth gorau y gallech ei wneud a bod yn onest. Felly, os ydych chi'n dioddef o symptomau diddyfnu ac rydym wedi cael ... rydym yn yfed x o alcohol dros gyfnod yn y bore ac rwyf yn deffro yn y bore a dwi ddim yn teimlo'n rhy dda a dwi'n gwybod y bydd arian ar gael heddiw, mi fyddaf yn dweud, "Tom, dwi'n teimlo'n ofnadwy, rydw i'n crynu, yn chwysu, yn teimlo'n sâl", symptomau cyffredin diddyfnu. Yna mi fydda i'n dweud, "Cer i brynu can o'r cwrw cryf iawn imi." Mae'n dda gwybod ei fod ar gael ... Felly, mae'n rhoi sicrwydd mewn byd ansicr.'" (Darparwr, Cyfweliad 31)

9.15 Disgrifiwyd strategaeth fenthycha debyg yn ystod cyfweiliadau ansoddol ag yfwyr hefyd. Dangosodd y cyfweiliadau hyn ei bod yn drefn gymharol gyffredin, yn enwedig ymhlith yfwyr stryd, i gyfuno arian i brynu alcohol os nad oeddent yn gallu ei fforddio ar eu pen eu hunain:

A2: Gallai wneud iddynt feddwl ddwywaith, am fod y pris mor uchel. Ond eto, os ydynt mewn criw o ffrindiau, mi fydd pawb yn cyfrannu. Felly, ella mai dim un person fydd yn ei brynu, ond bydd tri neu bedwar yn gwneud cyfraniad, a dyna sut maen nhw'n gwneud pethau.

A3: Ond wedyn, drwy ei wneud felly, rydych yn dal i sôn am yr un faint o arian os oes tri ohonoch neu beidio....

A1: Yn union. Yr un faint o arian.

A2: Ydy, ond dim dyna dwi'n ddweud, os oes un person ella na wnawn nhw mo'i wneud o, ond os oes tri neu bedwar...

A3: Allan nhw ddim fforddio ei brynu ar eu pen eu hunain, felly mi fydd pawb yn cyfrannu.

A2: Gwneud cyfraniad, ia, dyna'r peth. Pawb yn talu siâr. Siâr gan bawb. (Yfwr, Cyfweiliad Grŵp A)

9.16 Ar y llaw arall, roedd rhai nad ydynt yn yfwyr stryd yn fwy tebygol o fenthycha arian neu alcohol gan aelodau agos o'r teulu neu ffrindiau. Cadarnhawyd y pwynt hwn gan ddarparwyr ac yfwyr yn ystod cyfweiliadau ansoddol:

'Ac un o'r problemau sydd ganddyn nhw ac mae'n dipyn o ystrydeb ond mae'r berthynas mam-mab lle mae'r mab yn ddeugain oed ac yn dal i fyw gartref. Mae angen arian arno i brynu alcohol a gan ei bod yn fam, mae hi'n rhoi'r arian iddo fo. Felly gellid gweld cynnydd mewn aelodau o'r teulu sy'n profi cam-drin ariannol gan bobl sy'n ddibynnol ar alcohol oherwydd ar hyn o bryd mi gewch chi'r "Does gen i ddim arian, dwi angen arian, chi yw fy mam, chi yw fy nhad, chdi ydi fy ngwraig, fy ngŵr, fy mab, fy merch, rhowch arian i mi." Os oes gennych chi rywun gyda chi 24 awr y dydd yn dweud "rhowch bum punt imi, dwi angen diod" felly mi all hynny gael effaith, yn bendant.' (Cyfweiliad, Darparwr 14)

'mae ffrindiau'n rhoi benthyg pres inni, dwi'n ei gymryd o le bynnag fedrai a deud y gwir.' (Yfwr, Cyfweiliad 03)

'Ffrindiau. Ia, ffrindiau, a'r teulu a dwi'n amlwg yn gofyn i'r teulu am roi benthyg imi.' (Darparwr, Cyfweliad 34)

'Mi es i weld modryb ac ewythr am fy mod yn gwybod eu bod nhw'n yfed bob nos felly mi wyddwn y gallwn yfed am ddim yn eu tŷ nhw drwy'r nos.' (Yfwr, Cyfweliad 22)

- 9.17 Nododd dau yfwr am nad oeddent, ar adeg yn y gorffennol, yn gallu fforddio alcohol, roeddent wedi cael agor math o gyfrif yn eu siop leol. Roedd y ddau ohonynt yn teimlo bod hwn yn ffordd o ymdopi a allai ddigwydd oherwydd isafbris:

'Yn bersonol, dwi wedi bod i'r siop ac wedi dweud fy mod wedi anghofio fy ngherdyn gartref, pethau felly, neu ddweud y byddaf yn talu fory, a chan ei bod yn siop leol maent yn fy adnabod...Doedden nhw ddim yn hapus iawn ond mi wnaethon nhw adael imi wneud hynny, ond mi ddaethon nhw i ddeall yn y diwedd. Mae pobl yn dod o hyd i ffyrdd o oresgyn y pethau ma.' (Yfwr, Cyfweliad 01)

'Roeddwn yn cael credyd yn siop y gornel lle byddwn i'n manteisio ar y £200 oedd ar gael. Felly roedd hynny'n un ffordd o'i gael a fyddai wedi dod i ben. Ond eto, efallai mi faswn i wedi cael fy nhalu, wedi talu hynny, a mynd i ddyled eto.' (Yfwr, Cyfweliad 11)

- 9.18 Er bod yfwyr yn gallu cael gafael ar alcohol fel hyn, roedd defnyddio'r strategaeth ymdopi hon yn arwain at ragor o ddyledion. Mynegodd ambell yfwr y farn bod rhai perchnogion tafarnau hefyd yn gyfrifol am adael i'r arfer hwn ddatblygu a bod hynny'n cynyddu'r straen ariannol ar yfwyr dibynnol:

'Wel, mi wn fod rhai tafarnau'n gadael i bobl gael cyfrif. Dydyn nhw ddim i fod i wneud hynny. Dwi wedi gwneud hynny yn y gorffennol, ac mi oedd fy nheulu'n gandryll am eu bod nhw'n gwybod mai nhw fyddai'n gorfod talu fy nyledion yn y diwedd...mae gen i gyn lleied o arian. Mi oeddwn i'n yfed yn y dafarn ond allwn i byth fforddio talu amdano. Mi oeddwn ni'n yfed, wyddoch chi.... ac yna'n amlwg mae pobl yn cael benthyg arian hefyd gan... fy nheulu. Do, dwi wedi gweld pobl eraill yn ei wneud yn y dafarn hefyd, maent yn trio benthyg arian i fwydo eu harferiad. Wel, dwi'n meddwl y dylid cael rheol sy'n dweud na all tafarnwyr adael i bobl gael cyfrif gan fy mod i wedi llosgi fy mysedd oherwydd hynny, ac mae'n beth ofnadwy eich bod yn gallu mynd i'r sefyllfa yna. Mi all hynny ddigwydd mewn un sesiwn yfed. Ac wedyn mi ydach chi mewn dyled.' (Yfwr, Cyfweliad 34)

9.19 Yn ystod cyfweiliadau ansoddol, dywedodd rhai yfwyr hefyd y byddent yn chwilio am ffyrdd o 'wneud arian' drwy ddulliau penodol. Yn achos yfwyr stryd, roedd hyn yn debygol o fod ar ffurf begera:

A2: A dweud y gwir, mi ydan ni weithiau'n gorfod mynd allan a gwneud y pres, h.y. begera neu weithio i'w gael.

A3: Rydym yn dod o hyd i'r arian. (Yfwr, Cyfweiliad Grŵp A)

'Mi ydw i'n fodlon begera am arian i'w gael. Mi dwi'n fodlon gwneud be sy'n rhaid i gael diod. Dwi'n gaeth i alcohol.' (B3, Yfwr, Cyfweiliad Grŵp B)

9.20 Roedd rhai nad ydynt yn yfwyr stryd hefyd yn credu y byddai hyn yn digwydd ymhlith y boblogaeth ddigartref, er bod eu ffordd hwy o wneud arian yn wahanol. Iddynt hwy, roedd gwerthu eitemau o'r cartref i gael arian am alcohol yn dechreg gyffredin a nodwyd os nad oeddent yn gallu fforddio alcohol:

'Mae'n gallu bod yn anodd weithiau. Fedrai ddim ei fforddio. Mi ydw i'n cael benthyg gan hwn a'r llall ... ella bydd yn rhaid i mi roi fy Xbox yn y Cash Exchange, o na, PS2, sori. Mae'n iawn ar y pryd. Yna, pan ddaw'r diwrnod a dwi'n mynd allan a gwario £40 a chael fy PlayStation allan. £40, £70, £50-£70, ydach chi'n dallt be sy gen i?...Mae'n o'n ofnadwy os ydach chi'n gweld be sy gen i? Weithiau mi gawsoch chi fy yn y sefyllfa yna hefyd, os ydach chi'n dallt be sy gen i.' (Yfwr, Cyfweiliad 36)

'I mi, ychydig o fisoedd yn ôl, mi fuaswn i'n dal i wario, dal i brynu, yn chwilio am arian, mi allwn fod yn gwerthu hen bethau o'r tŷ neu unrhyw beth arall felly.' (Yfwr, Cyfweiliad 08)

Ymddygiad troseddol

9.21 Dywedodd y rhan fwyaf o'r darparwyr a gwblhaodd yr arolwg y buasai isafbris yn effeithio ar ymddygiad troseddol yfwyr (gweler Tabl 9.1 uchod).

9.22 Yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn am fod ymatebwyr yn credu y byddai yfwyr yn cyflawni troseddau i gael yr arian i barhau i yfed alcohol (e.e. 'cynnydd mewn troseddau i allu parhau i yfed a thalu am alcohol').

9.23 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at fathau penodol o droseddau cynhyrchu incwm (e.e. 'byrgleriaeth, lladradau personol, dwyn o siopau'), er bod eraill yn fwy cyffredinol yn eu hatebion (e.e. 'gallai arwain at ymddygiad troseddol'). Roedd un a ymatebodd i'r

arolwg yn rhagweld cynnydd mewn amryw o wahanol fathau o droseddau gan gynnwys mewnfurio alcohol anghyfreithlon, lladradau, dwyn a lladradau o dafarnau:

‘Gallai arwain at gynnydd mewn mewnfurio a delio mewn alcohol ffug. Gallai arwain at fwy o ladradau o storfeydd alcohol. Dwyn alcohol oddi ar bobl agored i niwed neu hyd yn oed y cyhoedd. Cyrchoedd ar dafarnau, efallai?’ (Darparwr, Arolwg 52)

- 9.24 Ychydig yn unig o ddarparwyr a gyfeiriodd at y posibilrwydd o ostyngiad mewn troseddu (e.e. ‘cysylltiad wedi’i brofi rhwng alcohol a throseddu. Mae’n debyg y byddai yfed llai o alcohol yn cael effaith ar ymddygiad unigolion, lleihau troseddau sy’n gysylltiedig ag alcohol’, ‘gall fod yn llai tebygol o gyflawni troseddau difrifol’).
- 9.25 Datgelodd cyfweiliadau ansoddol fod y rhan fwyaf o ddarparwyr wedi’u hargyhoeddi y byddai yfwyr dibynnol yn parhau i yfed alcohol mewn ffordd broblemus er gwaethaf cyflwyno isafbris. Yn ystod y cyfweiliadau hyn, disgrifiwyd ystod o strategaethau ymdopi yr oeddent yn credu y byddai yfwyr yn eu defnyddio i barhau i ddefnyddio alcohol ar ôl cyflwyno’r gyfraith newydd. Gan gadarnhau canfyddiadau’r arolwg, un o’r strategaethau ymdopi sy’n cael eu rhagweld fwyaf yw yfwyr yn cyflawni mwy o droseddau meddiangar. Nodwyd dwyn o siopau fel y strategaeth ymdopi fwyaf cyffredin o bosibl, yn enwedig ymhlith yfwyr stryd:
- ‘Os na allant fforddio prynu faint bynnag sydd ei angen arnynt, dwi’n meddwl y gwnawn nhw ddechrau ei ddwyn o.’ (Darparwr, Cyfweiliad 14)
- ‘Dim ond alcohol mae yfwyr stryd ei angen, rhaid iddynt ei gael, maent yn troseddu’n barod felly mi fyddant yn chwilio am ffyrdd i’w gael o, felly begera efallai ac ella y gwnawn nhw fwy o hynny, ond dwyn hefyd.’ (Darparwr, Cyfweiliad 37)
- 9.26 Gan gyd-fynd â barn y darparwyr, roedd yfwyr hefyd yn rhagweld cynnydd mewn ymddygiad troseddol o ganlyniad i isafbris am alcohol, yn enwedig os oeddent yn ddibynnol ar alcohol a bod eu sefyllfa ariannol yn anodd (h.y. yn ddigartref ar y stryd). Y troseddau roedd yfwyr yn credu y byddai’n cynyddu oedd dwyn o siopau a lladradau:
- R: Y peth arall yw pobl sy’n methu cael gafael ar alcohol os ydynt yn ddibynnol, mi allan nhw farw, yn llythrennol, o ganlyniad i symptomau diddyfnu, felly dwi’n meddwl ei fod yn achos pryder mawr nad ydyn nhw wedi meddwl yn iawn am y peth a bod yn onest, ac am eu bod yn gwybod

bod angen alcohol arnyn nhw dwi'n meddwl bod hynny'n mynd i arwain at ragor o droseddau stryd, lladradau a'r math yna o beth i dalu am eu harferion yfed.

I: Felly, troseddau stryd, lladradau, sut fydd hynny'n edrych, sut all hynny ddigwydd ydach chi'n meddwl?

R: Dwi'n meddwl y byddwch chi'n gweld achosion o fygio, ond wedyn dwi'n meddwl y bydd llawer o siopau, pobl yn mynd i siopau cornel ac yn cerdded allan efo potel o seidr. Mewn archfarchnadoedd mae'r trefniadau diogelwch yn weddol lac. Os nad oes neb yn gwyllo mi all fod yn ddigon hawdd i gerdded allan efo potel o seidr o dan eich cesail. Felly, dwi'n meddwl y bydd mwy o ddwyn o siopau ac efallai mwy o ddwyn oddi ar bobl ar y stryd hefyd.

I: A ydych chi'n meddwl bod math penodol o yfwr a all fod yn fwy tebygol o ymddwyn fel hyn?

R: Pobl ddigartref ar y stryd efallai, gan eu bod nhw mewn sefyllfa ariannol llawer gwaeth. Os nad oes ganddyn nhw hostel neu gyfeiriad diogel, ni fyddant yn cael unrhyw fath o fudd-dal, felly mae hynny'n mynd i fod yn broblem fawr. (Yfwr, Cyfweiliad 22)

I: O ran, a dwi'n sôn am arferion yfed yma. Er enghraifft, os ydych chi eisiau gwario mwy ar...?

R: Mae'n arferiad, yn tydi? Mae'n gyffur... mae'n gwneud pobl yn gaeth. Byddwn yn siŵr o weld mwy o droseddu.

I: Pam ydych chi'n dweud hynny?

R: Wel, maen nhw'n cyflawni lladradau nawr a phob math o bethau am gyffuriau, yn tydyn nhw? Felly, mi fyddai troseddau sy'n gysylltiedig ag alcohol yn debygol o gynyddu. Pris alcohol a stwff, felly mae'n debygol y byddai lefelau troseddu'n codi. (Yfwr, Cyfweiliad 15)

Iechyd meddwl

9.27 Roedd tri chwarter o'r darparwyr a gwblhaodd yr arolwg yn credu ei fod yn 'debygol' neu'n 'debygol iawn' o gael effaith ar iechyd meddwl defnyddwyr gwasanaeth (gweler Tabl 9.1 uchod). Roedd y farn yn rhanedig, fodd bynnag, o ran natur yr effaith, a fyddai'n bositif ynteu'n negyddol.

- 9.28 Awgrymodd rhai darparwyr y gallai arwain at welliannau i iechyd meddwl (e.e. ‘mae alcohol yn iselydd felly dylai iechyd meddwl pobl wella’, ‘mae cysylltiad rhwng alcohol ac iechyd meddwl, felly bydd rhywfaint o fuddiannau’, ‘mae cysylltiad cryf rhwng camddefnyddio alcohol ac iselder felly gobeithio y gwelwn y bydd iechyd meddwl yn gwella’) neu welliannau mewn mynediad at wasanaethau iechyd meddwl (e.e. ‘Os ydynt yn yfed, ni fydd [gwasanaethau] iechyd meddwl yn fodlon gwneud dim â hwy. Os bydd isafbris uned yn gwneud iddynt roi’r gorau i yfed, yna gallant ddefnyddio’r cymorth hwn’.) Ar y llaw, arall, roedd eraill yn rhagweld y byddai dirywiad yn iechyd meddwl defnyddwyr gwasanaeth a hynny’n bennaf oherwydd y straen a achosid wrth orfod dod o hyd i ragor o arian i dalu am eu defnydd o alcohol (e.e. ‘straen a gorbryder drwy fod heb arian’, ‘mwy o straen wrth geisio dod o hyd i ragor o arian’).
- 9.29 Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddai dirywiad mewn iechyd meddwl yn deillio o ganlyniad i deimlo’n ynysig (e.e. ‘pe baent yn aros adref i yfed mwy o alcohol yna gallai hyn effeithio ar eu hiechyd meddwl’) neu drwy roi perthnasoedd teuluol dan straen (e.e. ffræo â ffrindiau a theulu a fydd yn cael effeithiau negyddol ar iechyd meddwl’).
- 9.30 Yn gyffredinol, ymddengys fod darparwyr yn poeni am y straen ychwanegol y byddai isafbris am alcohol yn ei roi ar yfwyr a oedd, meddent, eisoes o dan straen a phwysau (e.e. ‘mae’n straen arall ar bobl nad ydynt yn delio’n dda â’r straen maent yn ei brofi’n barod, yn enwedig problemau â Chredyd Cynhwysol’, ‘gallai’r pwysau sydd arnynt o ran medru fforddio’r alcohol sydd ei angen arnynt i gadw’n ddiogel yn gorfforol arwain at fwy o orbryder ac iselder’).
- 9.31 Yn ystod cyfweiliadau, dywedodd ambell yfwr hefyd eu bod yn poeni y bydd cyflwyno isafbris am alcohol yn cynyddu lefelau straen a/neu orbryder:
- C2: Mi allaf weld lefelau straen yn cynyddu hefyd.
- I: Dwi’n gweld. Dywedwch ragor wrtha i.
- C2: Dyna mae pawb yn ei ddweud. Os ydynt o dan straen, maent yn cael diod. Deffro’r bore wedyn, “lawn, efallai na ddylwn fod wedi cael gormod i’w yfed, ond dwi’n teimlo’n well.” Os na allwch ei fforddio, ac yn methu cael diod, dwi’n dal yn mynd i fod o dan straen. (Yfwr, Cyfweiliad Grŵp C)

9.32 Tynnwyd sylw at fater yr effeithiau posibl ar iechyd meddwl yfwyr yn ystod cyfweiliadau ansoddol â darparwyr hefyd. Roedd cyfweleion yn cytuno'n gryf y byddai'r effeithiau hyn yn rhai negyddol, gan ddweud ei bod yn debygol y byddent fwyaf amlwg o ran cynnydd mewn lefelau straen a/neu orbryder ymhlith yfwyr o ganlyniad i isafbris am alcohol:

R: ... Yr hyn dwi'n ei olygu yw os yw pobl yn fwy desbret am na allant gael gafael ar eu seidr rhad, mae lefel eu gorbryder yn mynd i fod yn uwch ac mae mwy o berygl y bydd popeth yn chwalu a..... (Darparwr, Cyfweiliad 32)

Perthnasoedd ag aelodau'r teulu

- 9.33 Roedd tua dau draean (67 y cant) o ddarparwyr yn rhagweld y byddai isafbris am alcohol yn cael effaith ar berthnasoedd ag aelodau'r teulu (gweler Tabl 9.1 uchod).
- 9.34 Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'n debygol o gael effaith negyddol yn sgil y pwysau ariannol y byddai'n ei achosi i deuluoedd (e.e. 'rhoi mwy o bwysau ar gyllid y teulu', 'gallai roi straen ar berthnasoedd os yw rhywun eisiau arian i brynu alcohol').
- 9.35 Disgrifiodd rhai darparwyr y posibilrwydd y byddai yfwyr yn ail-gyllidebu gwariant yr aelwyd ac yn 'gwario mwy o arian ar alcohol ac nid ar aelodau'r teulu, e.e. plant'.
- 9.36 Disgrifiodd eraill gynnydd posibl mewn benthyca oddi wrth aelodau'r teulu gan ragweld y byddai 'ffraeo'n dilyn os na fyddant yn cael yr arian'.
- 9.37 Dim ond nifer fach o ymatebwyr oedd yn rhagweld lleihad yn y defnydd o alcohol a gwelliant mewn perthnasoedd teuluol (e.e. 'mae alcohol yn cael effaith niweidiol ar lawer o deuluoedd felly rhaid i leihad mewn defnydd ohono fod yn beth positif er nad wyf wedi fy argyhoeddi y bydd yn gwneud gwahaniaeth mawr'.) Eglurodd un ymatebwr y byddai'r effaith ar deuluoedd yn amrywio'n ôl y math o yfwyr.
- 9.38 Yn ystod cyfweiliadau ansoddol bu darparwyr (ac yfwyr hefyd i raddau llai) yn trafod goblygiadau posibl isafbris am alcohol i berthnasoedd yfwyr ag aelodau eu teulu. Roedd mwyafrif llethol y cyfweleion yn dweud eu bod yn rhagweld y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael effaith andwyol yn hyn o beth. Yn benodol, roeddent yn rhagweld y buasai'n ychwanegu at y straen ar rai perthnasoedd sydd eisoes yn profi tyndra oherwydd defnydd o alcohol:

I: lawn. Beth ydych chi'n feddwl fydd yr effaith ar eraill? Ar deuluoedd neu ffrindiau rhai sy'n yfed, er enghraifft?

R: Dwi'n meddwl y gallai pethau fod yn anodd iawn oherwydd ei fod ... os yw pobl yn gwario mwy o arian... rydym yn sôn am droseddau a phetha', ond nid oes sôn am bobl sy'n cymryd oddi ar eu teuluoedd eu hunain a phethau felly, gan nad oes dim sôn, mae fel pe bai ddim yn digwydd ... felly mi allai hynny fod ar gynydd, wrth iddo fynd yn uwch i fyny ar y rhestr o flaenoriaethau, yr alcohol, ac mae'n mynd i achosi mwy o straen ar deuluoedd. Mae'n niweidiol i iechyd corfforol a phethau felly, ac mae hynny'n mynd i wneud i aelodau'r teulu boeni mwy a dioddef mwy fyth o straen. Ac yna mae'r ochr gyfreithiol os yw pobl yn ceisio gwneud alcohol a phethau yng nghartrefi pobl, neu os ydynt yn prynu alcohol ac yn gwerthu ... dach chi'n gwybod, dod â fo o rywle sydd heb isafbris, a'i werthu yma. Ydi, dwi'n meddwl ei fod yn mynd i achosi llawer o straen drwy orfod byw efo aelod o'r teulu sy'n camddefnyddio sylwedd... ni fydd hyn yn helpu pethau... yr isafbris. (Darparwr, Cyfweliad 24)

Q Rydych wedi dechrau crybwyll y peth, beth ydych chi'n feddwl fydd effaith isafbris am alcohol ar rannau eraill o'u bywydau, neu i'r teulu sy'n byw â nhw?

A Yn amlwg, mi ydw i'n meddwl y byddai'n achosi i fwy o berthnasoedd chwalu, gan mai dyna sydd wedi digwydd yn y gorffennol oherwydd os yw pobl yn yfed cymaint, efallai y bydd hynny'n achosi mwy o ffraeo, efallai'n achosi mwy o ffraeo i gael mwy o ddiod, y math yna o beth, dyna dwi ei angen. Felly, dwi'n meddwl y bydd mwy o berthnasoedd yn chwalu, a bydd pobl efallai yn gweld eu bod nhw ar eu pen eu hunain fwy.

Q Felly mi fydd yn achosi llawer mwy o dyndra mewn perthnasoedd o bosibl?

A Bydd. (Darparwr, Cyfweliad 08)

Tai a threfniadau byw

9.39 Gwelwyd patrwm tebyg o ganlyniadau ymhlith darparwyr o ran effaith bosibl isafbris am alcohol ar dai a threfniadau byw (gweler Tabl 9.1 uchod). Mewn geiriau eraill, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn meddwl bod isafbris am alcohol yn debygol o ddylanwadu ar drefniadau byw yfwyr a bod hynny at ei gilydd yn cael ei weld fel rhywbeth negyddol. Ymhlith y rhai hynny a oedd yn rhagweld newid, roedd y rhan fwyaf yn pryderu y gallai yfwyr golli eu cartref os na fyddant yn gallu talu eu rhent neu eu morgais (e.e. 'diffygdalu ar daliadau rhent/morgais efallai', 'y perygl o golli

tenantiaeth oherwydd eu gwariant ar alcohol', 'cynnydd mewn dyledion a chynnydd mewn cyfraddau troi allan am nad yw biliau rhent/morgais yn cael eu talu). Dim ond nifer fach o ymatebwyr a awgrymodd effeithiau positif posibl (e.e. 'gallai helpu i gadw tenantiaethau a gwella'r siawns o gael cartref mwy sefydlog', 'gobeithio y bydd buddiannau').

- 9.40 Thema gyffredin a gosodd yn ystod cyfweiliadau â darparwyr oedd pryder y byddai'r trefniadau credyd cynhwysol newydd ar gyfer talu budd-daliadau'n cyfrannu at allu yfwyr dibynnol i reoli eu cyllideb fisol. Byddai hyn yn ei dro'n golygu y byddai yfwyr yn cael anhawster talu eu rhent ac felly'n gweld dyledion yn crynhoi a/neu'n canfod eu hunain heb gartref.

'Ydw, dwi'n meddwl mai'r peth yw ... fedrai ddim cofio'r enw nŵan, ond mae'n amlwg bod y ffordd o dalu budd-daliadau wedi newid yn ddiweddar, felly mae pobl yn cael cyfandaliad ac mae disgwyl iddynt gyllidebu drostynt eu hunain. Ochr yn ochr â hyn, ac mae'n achosi problemau'n barod, nid oes amheuaeth yn fy meddwl i y bydd pobl sy'n ddibynnol, sydd o bosibl yn yfed mwy am eu bod yn gweld eu hunain â swm mawr o arian, pan ddylent fod yn ei ddefnyddio i dalu biliau a bydd hyn, yn achos y bobl yma, yn siŵr o waethygu'r broblem honno.'

(Darparwr, Cyfweiliad 21)

Gallai, mi allai os bydd pobl yn blaenoriaethu ac mi wyddom fod pobl yn rhoi blaenoriaeth i gyffuriau dros fwyd, rhent, biliau a phethau felly. Felly os ydych chi fel dwi'n dweud yn benderfynol o gario ymlaen a gwneud yr hyn rydych yn ei wneud mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ddod o hyd i fwy o arian a bydd yn rhaid i'r arian hwnnw ddod o hanfodion ac yn enwedig os nad ydych chi'n cael llawer, os ydych chi ar rywbeth fel cant pedwar deg o bunnoedd bob pythefnos neu rywbeth felly, mae pethau'n reit llwm.'

(Darparwr, Cyfweiliad 28)

- 9.41 Yn ystod cyfweiliadau ansoddol, mynegodd yfwyr safbwyntiau negyddol tebyg ynglŷn ag effeithiau posibl isafbris am alcohol. Mynegodd rai ohonynt bwyntiau tebyg ynglŷn â chredyd cynhwysol, gydag eraill yn rhagweld y byddai'n rhaid iddynt roi blaenoriaeth i'w gwariant ar alcohol ar draul agweddau eraill ar eu bywydau, gan gynnwys costau rhent ac ati, o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth newydd:

I: lawn. Felly, mi fyddai mwy o hynny'n digwydd. Felly, symud adnoddau o un peth i beth arall. lawn, felly ail-gyllido.

C3: Peidio talu eu biliau, neu bethau felly.

C4: Rydych yn diweddu mewn dyled.

C1: Peidio talu eich rhent.

I Unrhyw bethau eraill y gall pobl...?

C1: Gyda Chredyd Cynhwysol yn dod i mewn, ac rydych yn gweld y pres mawr ar ddiwedd y mis, maen nhw'n mynd i wario'r cyfan ar gwrw.

C2: Ydw, dwi'n meddwl byddai lot yn gwneud hynny.

C1: Dyna fyddai'r peth mwyaf. Ni fydd ganddyn nhw bres wedyn i dalu eu cyngor a'u rhent, ac mi fyddan nhw'n cael eu taflu allan.

I: Felly, mi allai hynny fod yn ganlyniad. Felly, mi allan nhw wario'u pres i gyd.

C1: Byddant, mi fyddant'. (Yfwr, Cyfweliad Grŵp C)

'Mae hynny'n un peth os ydych chi'n defnyddio sylweddau a bod gennych chi filiau i'w talu, mae biliau'n mynd yn bethau eilradd. Dwi wedi cael fy nhroi allan cyn heddiw, oherwydd...'. (Yfwr, Cyfweliad 14)

I: Dyma un o'r cwestiynau o'n i eisiau ei ofyn i chi.

R: Dillad ac esgidiau ac ella y byddan nhw allan ar y strydoedd.

I: Ia, dyna be ...

R: Os na allan nhw fforddio talu'r rhent am eu bod yn talu cymaint am y seidr neu beth bynnag roedd yn arfer ei dalu cynt. (Yfwr, Cyfweliad 17)

Perthnasoedd â ffrindiau

- 9.42 Roedd effaith bosibl isafbris am alcohol ar berthnasoedd â ffrindiau'n debyg mewn sawl ffordd i'r effeithiau a ragwelwyd yn achos perthnasoedd â'r teulu.
- 9.43 Roedd llawer o ddarparwyr a gwblhaodd yr arolwg yn bryderus am y posibilrwydd o 'wrthdaro cynyddol' a 'ffraeo' rhwng ffrindiau am fod yfwyr yn gofyn am fenthyca symiau mwy o arian. Roedd un ymatebwr yn rhagweld y gallai yfwyr gymdeithasu'n llai aml am na fyddant yn gallu fforddio hynny. Roedd un arall, ar y llaw arall, yn credu y gallai isafbris am alcohol annog 'mwy o siarad â ffrindiau'. Roedd rhai ymatebwyr yn credu y gallai wneud i yfwyr 'ofyn am help gan eu bod yn awr yn gwybod bod angen iddynt roi'r gorau iddi' neu wneud iddynt symud 'gefnu ar gylch negyddol o ffrindiau'. Ar yr ochr negyddol, credai dau ymatebwr y gallai 'achosi mwy o ymladd ymhlith carfanau o yfwyr'.

9.44 Gan gyd-fynd â data'r arolwg, datgelodd y cyfweiliadau ansoddol â darparwyr ddarlun cymysg o ran effeithiau disgwylidig isafbris am alcohol ar berthnasoedd yfwyr â ffrindiau. Roedd rhai darparwyr yn credu y byddai'r ddeddfwriaeth yn llesol yn yr ystyr y byddai'n annog yfwyr i gymdeithasu mwy drwy yfed mewn tafarnau yn hytrach nag ar eu pen eu hunain:

R Wel, dim eu stopio nhw. Yn bersonol, dwi'n meddwl tybed a fydd yn cael pobl yn ôl i glybiau, a thafarnau. Oherwydd mae pris uchel am unedau'n cael ei godi mewn tafarnau a fyddant yn newid i fod yr un fath â'r archfarchnadoedd, a yw'r duedd honno'n mynd i newid?

I Mae hwnna'n bwynt pwysig iawn. Felly, rydych yn edrych ar y peth o safbwynt unigrwydd?

R Ydw. Mae pobl yn yfed mwy gartref, ond os byddai hynny'n newid a bod pris alcohol yr un faint yn yr archfarchnadoedd ag yn y tafarnau, a fyddai pobl yn mynd allan fwy o'u cartrefi ac yn dewis mynd i'r dafarn? Mi fyddan nhw, fwy na thebyg. ...

I Mae hynna'n ddiddorol iawn. Dwi ddim wedi clywed hynna o'r blaen a dwi'n meddwl bod o'n beth da. Canlyniad posibl gwirioneddol bositif.

R Ydi. Os byddai tafarnau ar yr un lefel ag archfarchnadoedd, yna be mae pobl yn debygol o'i wneud? A fyddan nhw'n mynd i lawr i'w ASDA, Tesco lleol pan fydd bargeinion, pan nad ydyn nhw ar gael dylen i ddweud, os byddai prisiau tafarnau'r un fath, oherwydd os gwnewch chi edrych ar y peth, rydych yn gwneud prisiau os ydynt yn cael eu codi gan y bragdai, neu beth bynnag, yr un prisiau ... gellid delio â hynny. Yn gwrthweithio yn erbyn hynny wedyn gyda phobl yn mynd i'r tafarnau, y gymuned, mwy, pethau felly. Gallai gynyddu nifer y swyddi yn y sector. Er y byddech yn colli rhai o sectorau eraill ... (Darparwr, Cyfweiliad 25)

9.45 Nid oedd darparwyr eraill, fodd bynnag, yn gweld darlun mor obeithiol. Yn hytrach, roeddent yn awgrymu na fyddai yfwyr sy'n dioddef gorbryder cymdeithasol yn ystyried mynd i'r dafarn. Hefyd, roedd ambell ddarparwr yn rhagweld y gallai yfed mewn tafarnau arwain at yfed mwy o alcohol:

I: A yw hynny'n ddatganiad rhesymol?

R: Ydi, os gwnewch chi feddwl am y peth, er mae'r bobl sy'n yfed gartref yn yfed gartref am nad ydynt eisiau mynd allan rhyw lawer ond mae llawer o

bobl yn ynysu eu hunain, yn yfed ar eu pen eu hunain am bob math o resymau. Felly dwi ddim yn meddwl y bydd y bobl hynny ...nid ydynt fwya' sydyn yn mynd i ddweud "reit, dwi am fynd i'r dafarn rŵan", ond pwy a wŷr, efallai y gwnawn nhw...

I: Felly, efallai ei bod yn rhy hwyr iddyn nhw, ond gallai fod yn ...?

R: I rai pobl sydd heb gyrraedd hynny eto, yna ydi, yn bendant. Gallai weithio felly. (Darparwr, Cyfweliad 28)

R: Felly, mae pobl dwi wedi gweithio â hwy yn fy llwyth achosion yn teimlo bod mynd i'r dafarn yn gwneud iddynt yfed mwy ac mae awyrgylch tafarn yn gwneud iddynt yfed mwy ac mae hynny'n fath o rwystr iddyn nhw, lleihau eu defnydd o alcohol yw'r ffaith eu bod allan a'u bod yn cael rhyngweithio'n gymdeithasol gydag alcohol. Mae hynny'n rhywbeth a ddaeth i fy meddwl yn sydyn, os yw pobl yn gwario arian mewn tafarn mi all fod yn anodd iawn iddyn nhw i dorri cylch fel'na o fynd i'r dafarn, gael y rhyngweithio cymdeithasol ac mae gen i bobl sy'n yfed nid am eu bod nhw eisiau yfed mewn gwirionedd ond am fod angen y peth cymdeithasol hwnnw arnynt ...ydi hynny'n gwneud synnwyr?

I: Ydy, mae o.

R: Dim ond er mwyn cael y rhyngweithio cymdeithasol ond maent mewn gwirionedd yn yfed llawer mwy o alcohol nag yr hoffent ei yfed oherwydd hynny. Felly mi all weithio'r ddwy ffordd, dwi'n meddwl. (Darparwr, Cyfweliad 29)

Crynodeb

- 9.46 Yn gyffredinol, roedd darparwyr yn rhagweld y byddai isafbris am alcohol yn cael canlyniadau negyddol yn bennaf ar bob agwedd ar fywydau yfwyr, yn enwedig eu hamgylchiadau ariannol, ymddygiad troseddol ac iechyd meddwl. Roedd llawer yn credu mai yfwyr dibynnol a fyddai'n teimlo'r effeithiau negyddol fwyaf.
- 9.47 Roedd yfwyr, ar y llaw arall, yn awgrymu na fyddai'r ddeddfwriaeth newydd yn debygol o effeithio ar unrhyw agwedd ar eu bywydau, efallai am fod y rhan fwyaf ohonynt yn yfwyr cymedrol yn hytrach nag yfwyr peryglus neu niweidiol.
- 9.48 Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt i fyfyrion ar effeithiau posibl isafbris am alcohol ar yfwyr eraill, roedd patrwm y canlyniadau'n wahanol. Yn wir, roedd y rhan fwyaf o

yfwyr yn rhagweld y byddai isafbris am alcohol yn cael effaith negyddol ar yfwyr eraill (yfwyr dibynnol yn bennaf) yn enwedig o ran eu hamgylchiadau ariannol, eu trefniadau byw a'u hymddygiad troseddol.

- 9.49 O safbwynt materion ariannol, roedd darparwyr ac yfwyr yn rhagweld y byddai yfwyr yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ymdopi â'r effaith ar eu cyllideb. Roedd hyn yn cynnwys: ail-gyllidebu eu hadnoddau; benthyca gan deulu a ffrindiau; mwy o fenthyca ffurfiol drwy gael cyfrif mewn siopau neu dafarnau lleol; a begera ar y stryd.
- 9.50 Roedd llawer o ddarparwyr a ymatebodd i'r arolwg ac a gyfwelwyd yn rhagweld posibilrwydd o gynnydd mewn troseddu. Yn bennaf, rhagwelwyd y byddai troseddau meddiangar (dwyn o siopau'n bennaf) yn cael eu cyflawni naill ai i gael arian i brynu alcohol neu i gael alcohol yn uniongyrchol.
- 9.51 Roedd effaith bosibl isafbris am alcohol ar iechyd meddwl yfwyr yn cael ei ragweld yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn straen a gorbryder y byddai yfwyr yn ei brofi wrth iddynt deimlo bod y cynnydd mewn pris yn rhywbeth anodd i ymdopi ag ef.
- 9.52 Roedd sgil effaith hyn ar aelodau'r teulu ac ar ffrindiau hefyd yn achos cryn bryder i ddarparwyr ac yfwyr.
- 9.53 Roedd yr effaith y byddai isafbris am alcohol yn ei chael ar yfwyr sy'n cael Credyd Cynhwysol hefyd yn bryder sylweddol. Mynegodd yfwyr a darparwyr fel ei gilydd ofnau y byddai yfwyr sy'n cael y budd-dal hwn (yn aml mewn un taliad) yn ei chael yn fwy anodd fyth i reoli eu cyllidebau misol ar ôl i bris alcohol godi.

10. Paratoi, Cynllunio a Chymorth

Prif negeseuon

- Nid oedd llawer o ddarparwyr yn gwybod a oedd eu sefydliad yn gwneud unrhyw beth i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol. Roedd gan reolwyr fwy o wybodaeth na staff mewn rolau eraill sy'n awgrymu nad oedd negeseuon pwysig yn cael eu rhaedru i lawr i weithwyr rheng flaen bob amser.
- Er bod nifer fach o sefydliadau yn paratoi ar gyfer y newid yn y ddeddfwriaeth, roedd cytundeb cyffredinol ymhlith darparwyr ac yfwyr bod angen mwy o waith paratoi i godi ymwybyddiaeth ohono ac i wella mynediad at wasanaethau cymorth priodol.
- Dim ond nifer fach o yfwyr oedd yn rhagweld y byddent yn gwneud unrhyw beth i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol ac yn y rhan fwyaf o achosion roedd y datrysiad arfaethedig yn un tymor byr a oedd yn cynnwys crynhoi cyflenwadau cyn i'r ddeddf ddod i rym. Ychydig yn unig o yfwyr a grybwyllodd ddatrysiadau tymor hir fel cael triniaeth a chwtogi ar faint roeddent yn ei yfed.


10.1 Mae'r bennod hon yn defnyddio data a gasglwyd yn yr arolygon a'r cyfweiliadau ag yfwyr a darparwyr i ganfod os, a sut, mae sefydliadau ac unigolion yn paratoi ar gyfer gweithredu isafbris am alcohol yng Nghymru. Mae'r hyn mae darparwyr ac yfwyr yn credu sydd ei angen i helpu yfwyr i baratoi am y newid yn y prisiau hefyd yn fater yr ymchwiliwyd iddo. Y brif nod oedd gweld beth ellid ei wneud i helpu i gynyddu buddiannau cyflwyno isafbris am alcohol a lleihau unrhyw niwed posibl.

A yw eich sefydliad yn paratoi ar gyfer isafbris am alcohol?

10.2 Nid oedd llawer o ddarparwyr yn ymwybodol o'r hyn roedd eu sefydliad yn ei wneud i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol. Dangosodd ychydig llai na hanner (46 y cant) o'r darparwyr a gwblhaodd yr arolwg nad oeddent yn gwybod beth oedd yn digwydd yn eu sefydliad o ran isafbris am alcohol (gweler Ffigur 10.1 isod).

Ffigur 10.1: A yw eich sefydliad yn paratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol

Is your organisation preparing for the introduction of a Minimum Price for alcohol in any way? (e.g. developing new services, devising new tools, recruiting new staff, promoting awareness of MUP, etc)



- 10.3 Dangosodd y cyfweleion yr un diffyg ymwybyddiaeth: ‘A bod yn onest does gen i ddim syniad beth maen nhw [yr asiantaeth] yn ei wneud’ (Darparwr, Cyfweliad 14), ‘A dweud y gwir dwi ddim yn teimlo mod i’n cael gwybod rhyw lawer’ (Darparwr, Cyfweliad 05). Datgelodd y dadansoddiad o ddata’r arolwg fod darparwyr mewn rolau rheoli yn llawer mwy tebygol³⁸ o wybod beth oedd yn digwydd yn eu sefydliad o ran isafbris am alcohol, gan ddangos efallai nad oedd y negeseuon yn rhaeadru i lawr o’r rheolwyr i’r staff rheng flaen. Cafodd yr anghydbwysedd hwn o ran gwybodaeth ei ddisgrifio hefyd gan rai o’r darparwyr yn ystod eu cyfweiliadau: ‘Nid ydw i wedi clywed dim, Wel, does dim wedi dod i lawr i’n lefel ni. Dwi’n siŵr bod gwaith yn cael ei wneud ar rai lefelau, oes, ond dwi ddim wedi clywed sôn amdano fo ac nid yw’n rhan o gyfarfodydd tîm eto’ (Darparwr, Cyfweliad 10).
- 10.4 Nid oedd y diffyg ymddangosiadol hwn o ran rhannu gwybodaeth o reidrwydd yn cael ei weld fel problem gan ddarparwyr. Eglurodd un, er enghraifft, nad oedd o bwys nad oedd ef/hi yn gwybod beth oedd yn digwydd ar y lefelau uwch oherwydd ‘ar ddiwedd y dydd, pa bynnag gleient sy’n dod drwy’r drws byddaf yn teilwra fy ffordd o weithio ar eu cyfer nhw fel unigolion’ (Darparwr, Cyfweliad 14). Awgrymodd un arall nad oedd hyn yn broblem am fod angen iddynt aros i weld beth fyddai’n digwydd cyn datblygu a rhoi unrhyw ymateb ar waith: ‘Nid oes cynllun ar ei gyfer, dim adnoddau ychwanegol, dwi ddim yn credu. Mae’n fater o aros a gweld a fydd yn cael effaith ac yna meddwl, iawn, dyna beth mae angen inni ei wneud’ (Darparwr, Cyfweliad 08). Eglurodd darparwr arall er nad oedd ‘wedi gweld dim gwahaniaethau o gwbl’ yn ei wasanaeth, nid oedd hyn yn broblem gan fod ei sefydliad yn ‘esblygu’r gwasanaeth yn barhaus beth bynnag’, a’i fod yn ymwybodol bod isafbris am alcohol

³⁸ Chi-squared test, 21.221, 2 df, p<.001.

ar yr agenda yng Nghymru a'i fod 'mewn gwirionedd wedi ei gefnogi fel dull o leihau niwed.' (Darparwr, Cyfweiliad 02).

Beth mae eich sefydliad yn ei wneud i baratoi ar gyfer isafbris am alcohol?

- 10.5 Pan ddywedodd darparwyr fod eu sefydliadau'n paratoi am y newid yn y ddeddfwriaeth, nododd y rhan fwyaf fod y gwaith paratoadol yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r isafbris am alcohol ac ar gyfeirio yfwyr at ffynonellau cymorth priodol. Disgrifiodd ymatebwyr i'r arolwg, er enghraifft, fod eu sefydliadau yn: 'hybu ymwybyddiaeth', 'codi ymwybyddiaeth', 'tynnu sylw eu holl ymwelwyr at yr wybodaeth', 'drwy roi gwybodaeth', 'rhannu gwybodaeth am isafbris am alcohol', 'gwneud defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol o'r newidiadau a'r help i gael gwasanaethau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion'. Hefyd, disgrifiodd y darparwyr a gafodd eu cyfweld ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o'r bwriad i gyflwyno isafbris am alcohol. Disgrifiodd un, er enghraifft, bwysigrwydd 'bod yn weddol agored gyda'n defnyddwyr gwasanaeth' (Darparwr, Cyfweiliad 29) ynglŷn â chyflwyno isafbris am alcohol. Eglurodd un arall fod ei sefydliad yn hyrwyddo'r gyfraith newydd yn ei swyddfeydd drwy ddefnyddio adnoddau dwyieithog a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru: 'Felly, rydym yn arddangos y taflenni a gawsom yn y digwyddiad hwnnw yn Llanelli. Maent ar gael ymhob un o'n ystafelloedd ymgynghori. Yn hollol ...ddwyieithog, dyna beth all neu all ddim fod yn digwydd.' (Yfwr, Cyfweiliad 04).
- 10.6 Yn ychwanegol at weithgareddau codi ymwybyddiaeth, dywedodd ambell ddarparwr fod eu sefydliad yn gwneud mathau eraill o waith paratoadol. Eglurodd rhai o ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn trafod goblygiadau posibl y newid mewn pris â defnyddwyr gwasanaeth: 'rydym yn hysbysu defnyddwyr gwasanaeth, ac yn trafod yr effeithiau posibl wrthynt fel unigolion', 'trafod y canlyniadau a'r problemau posibl'. Cyfeiriodd un ymatebwr at y ffaith fod eu sefydliad yn rhoi pwyslais penodol ar 'hyrwyddo agweddau positif isafbris am alcohol' i helpu defnyddwyr gwasanaeth i edrych arno fel cyfle i roi sylw i'w hymddygiad yfed problemus.
- 10.7 Mewn ambell achos, dywedodd darparwyr eu bod yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i helpu i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol. Er enghraifft, eglurodd un rheolwr ei fod wedi gwahodd yr adran Safonau Masnach i ddod i siarad â'i dîm: 'Yr ail beth rwyf wedi'i wneud yw, rwyf wedi cysylltu â'r Safonau Masnach Lleol, ac mae rhywun yn dod atom ar 2 Ebrill i siarad â ni am alcohol ffug' (Darparwr, Cyfweiliad 04). Cafwyd disgrifiad hefyd gan nifer fach o

ymatebwyr o ymgysylltiad â sefydliadau allanol i helpu i baratoi ar gyfer y newid yn y ddeddfwriaeth: 'rydym yn cael ymweliad gan Safonau Masnach i allu adnabod alcohol ffug a'r niwed y gall ei achosi', 'mae rhywun o Alcohol Concern wedi ymweld â'n grwpiau'n rheolaidd'.

- 10.8 Mewn ychydig o achosion, roedd y dull partneriaeth hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu darparwyr i baratoi ar gyfer y cynnydd posibl yn nifer y bobl a fydd yn chwilio am help: 'mae staff yn ymwybodol o'r polisi ac maent yn gweithio â phartneriaid i helpu mwy o bobl i ddod at ein gwasanaethau', 'rydym yn gweithio â phartneriaid i baratoi ar gyfer cynnydd posibl yn nifer yr atgyfeiriadau'.
- 10.9 Roedd yr angen am adnoddau ychwanegol i ymdopi â'r cynnydd posibl yn y galw am driniaeth a chymorth yn achos pryder i ychydig o'r darparwyr a gwblhaodd yr arolwg. Dywedodd un nad oedd eu sefydliad yn paratoi ar gyfer isafbris am alcohol 'am nad oes gennym yr arian i wneud hynny'. Dywedodd eraill nad oedd eu sefydliad yn gallu recriwtio rhagor o staff na datblygu deunyddiau priodol (e.e. i addysgu yfwyr am y niwed posibl yn sgil newid i gyffuriau eraill) oherwydd diffyg cyllid: 'mae'r arian sydd ar gael i gynnig gwasanaeth mwy trylwyr, a fyddai'n cynnwys mwy o ddeunyddiau addysgol ar gyffuriau eraill, yn brin'.

Beth mae yfwyr yn ei wneud i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol?

- 10.10 Dywedodd y rhan fwyaf o yfwyr yn yr astudiaeth hon na fyddent yn cymryd unrhyw gamau i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol. Yn wir, dywedodd 82 y cant o ymatebwyr i'r arolwg nad oeddent yn bwriadu gwneud unrhyw beth i baratoi. I rai, y rheswm dros beidio gwneud dim oedd am nad oeddent yn credu y byddai'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt naill ai am 'nad oeddent yn yfwr mawr' neu 'am eu bod yn gallu fforddio ei hanwybyddu'. I eraill, y rheswm dros wneud dim oedd am nad oedd ganddynt ddigon o adnoddau i wneud unrhyw waith paratoadol. Nodwyd yfwyr stryd digartref, er enghraifft, gan rai cyfweleion fel grŵp a fyddai'n ei chael yn arbennig o anodd i baratoi ar gyfer y newid mewn pris oherwydd eu hansefydlogrwydd o fyw ar y strydoedd:

'Wel, welai ddim pa wahaniaeth fydd hyn yn ei wneud gan ei fod yn mynd i ddigwydd beth bynnag, a sut maen nhw'n mynd i baratoi ar ei gyfer achos does ganddyn nhw ddim arian nac adnoddau i brynu'r alcohol beth bynnag. Allan nhw ddim cynllunio. Nid yw fel pe baent yn medru cynilo arian ar gyfer y dyfodol am nad oes ganddyn nhw ddim yn y lle cyntaf.' (Yfwr, Cyfweiliad 22)

10.11 Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nid oedd llawer o yfwyr yn gwybod am y bwriad i gyflwyno isafbris am alcohol cyn y cyfweiliad, sy'n golygu nad oedd llawer ohonynt wedi cael cyfle i feddwl am unrhyw gamau y gallent eu cymryd i baratoi am y newid. Fodd bynnag, ar ôl clywed y gallai'r pris godi cyn hir dywedodd nifer fach o yfwyr y byddant yn mynd ati i bentyrru alcohol cyn i'r gyfraith gael eu gweithredu:

'A wyddoch chi be, pan fydd y pris yn codi'r tro nesa mi fydda i'n mynd i brynu seidr. Dwi'n mynd i brynu cwpwl o focsys i'w storio'n barod ar gyfer y lol yma.'
(Yfwr, Cyfweiliad 36)

10.12 Cyfeiriodd ymatebwyr i'r arolwg at eu bwriad i bentyrru alcohol rhatach sawl tro: 'prynu cyn y newid a chadw stoc', 'stocio cyn unrhyw newid yn y pris', 'stocio i fyny ar alcohol', 'cyn ei gyflwyno mae'n debyg y byddaf yn manteisio ar gynigion ac yn prynu llawer efo'i gilydd, yn enwedig os oes rhywbeth fel y Dolig neu barti ar y ffordd'. Dywedodd nifer o ymatebwyr i'r arolwg y gallai pentyrru arwain at yfed trymach mewn rhai achosion. Meddai un: 'Byddaf yn stocio i fyny, rhag ofn ac mae'n debyg y byddaf yn yfed mwy o ganlyniad'. Cafwyd esboniad mwy manwl gan un arall:

'Rwyf wedi meddwl am bentyrru. Mae arbediad posibl o £10 i £15 yr wythnos (drwy ei brynu ymlaen llaw) yn gynllun gwell na rhoi arian yn y banc neu gyfrif cynilo. Fodd bynnag, gall mwy o alcohol yn y tŷ fod yn demtasiwn i yfed mwy, sy'n golygu y byddai unrhyw arbedion posibl yn diflannu'. (Yfwr, Arolwg 50)

10.13 Gwnaed pwynt tebyg gan un o'r cyfweleion a oedd wedi dechrau pentyrru alcohol eisoes oherwydd ei sefyllfa ariannol anodd ar ôl colli ei swydd, yn hytrach na disgwyl am yr isafbris am alcohol:

'Ydw, rydw i wedi dechrau stocio'n barod, ac ar ôl i chi ddeud wrtha i y bydd yn dod ddiwedd y flwyddyn dwi'n mynd i storio mwy a mwy, gan fy mod am wario fy arian ar hynny. Dwi ddim angen gormod o arian o gwmpas y lle gan fy mod ar fudd-daliadau. Felly mi fydd gen i storfa fach, sydd ddim yn glyfar iawn, oherwydd wrth gwrs mi fydd alcohol yn y tŷ ac rydych yn dod at ddiwedd potel, rydych yn meddwl am fynd i'r gwely, ond os oes gennych chi storfa, rydych yn meddwl, a wel, waeth imi gael gwydraid arall. Felly, dwi'n meddwl ei fod yn beth negyddol iawn i'w wneud, ond os yw'n golygu y byddaf yn arbed arian, ac yn enwedig am fy mod yn colli fy ngwaith. Os na faswn i'n colli fy ngwaith, faswn i ddim yn poeni cymaint, ond mae'r ffaith fy mod yn colli fy ngwaith yn beth mor fawr'. (AP2)

- 10.14 Cafodd camau paratoadol eu crybwyll gan nifer fach yn unig o yfwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth. Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg, dywedodd ambell un y byddent yn chwilio am help proffesiynol i'w helpu i baratoi ar gyfer y newid yn y ddeddfwriaeth: 'pa fath o help ar gyfer yfwyr dibynnol, h.y. dadwenwyno, cymorth adsefydlu, hunanatgyfeirio at CDAT'³⁹, 'byddaf yn dal i fynd at fy ngweithiwr allweddol yn y gwasanaethau alcohol ac yn gwneud dewisiadau gwell i roi'r gorau i yfed', 'Rwyf yn cael help i drio rhoi'r gorau i yfed alcohol'. Awgrymodd cwpwl o ymatebwyr y byddent yn ymdrechu i gwtogi heb sôn am ymgysylltu ag unrhyw wasanaethau (e.e. 'ceisio cyrraedd fy nod o beidio yfed cyn gynted â phosibl, 'yn trio rhoi'r gorau iddi').
- 10.15 Cafodd bwriad i yfed llai o alcohol ei grybwyll hefyd gan un o'r cyfweleion a ddywedodd y byddai'r cynnydd yn y pris yn eu hannog i dorri i lawr neu newid i lager gwannach. Felly, byddai goblygiadau ariannol isafbris yn gweithredu fel 'sbardun' i yfed llai:
- I: A ydych chi'n eich gweld eich hun yn gwneud unrhyw beth i baratoi, dywedwch fod pethau'n mynd i'r gwaethaf ac na fyddwch yn gallu dadwenwyno erbyn hynny, a ydych chi'n meddwl y byddwch yn gwneud unrhyw beth i baratoi am hyn? Mi fydd yn effeithio arnoch chi oherwydd y math o ddiod rydych yn ei hyfed.
- R: Wel na, mi fyddai'n rhaid imi gwtogi, mor syml â hynny. Fel rydw i'n dweud, hyd yn oed os byddai gen i ddigon o arian, faswn i ddim yn gwario £9 ar botel o seidr, byth. Mi allwn lenwi fy nghypryddau neu... faswn i ddim yn gwario fel'na, byth.
- I: lawn, felly a fyddwch chi'n paratoi drwy dorri i lawr?
- R: Ia, torri i lawr. Naill ai hynny neu newid i rywbeth arall, lager neu rw bath. ... (Yfwr, Cyfweiliad 18)
- 10.16 Ymhlith yr ymatebwyr i'r arolwg, camau eraill a grybwyllwyd yn llai aml oedd ail-gyllidebu (e.e. 'cynllunio fy nghyllideb yn well drwy brynu bwyd o siopau rhatach') a siopa ar dros ffiniau (e.e. 'siopa dros y ffin'). Edrychwyd yn fanylach ar y materion hyn ym mhenodau cynharach yr adroddiad.

³⁹ Tîm Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol [CDAT].

Beth ellir ei wneud i helpu yfwyr i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol?

10.17 Roedd nifer fach o bobl yn teimlo nad oedd llawer y gellid ei wneud i baratoi ar gyfer y newid mewn prisiau. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o yfwyr a darparwyr⁴⁰ yn credu bod pethau y gellid eu gwneud, a rhoddodd llawer ohonynt fanylion am gamau posibl y gellid eu cymryd. Roedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd ymhlith y ddau grŵp yn cyfateb yn daclus â'r camau a oedd yn cael eu cymryd eisoes gan rai gwasanaethau sef, codi ymwybyddiaeth am y newid i brisiau a chyfeirio yfwyr at wasanaethau perthnasol.

Codi ymwybyddiaeth a chyfeirio

10.18 Dywedodd darparwyr a gwblhaodd yr arolwg fod codi ymwybyddiaeth yn rhan bwysig o'u 'gwaith addysgol' a bod ei angen ar staff yn ogystal ag yfwyr: 'mwy o ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth newydd ymhlith staff', 'hyfforddi staff, addysgu, hyrwyddo'r gwasanaeth, annog ymgysylltu ac atgyfeirio'. Gwnaed pwynt tebyg yn ymwneud ag addysgu staff gan un o'r yfwyr a gwblhaodd yr arolwg: 'er enghraifft, rwy'n teimlo bod angen i weithwyr cymorth Sector Gwirfoddol Haen 2 gael eu haddysgu a bod ganddynt adnoddau ar y newid hwn er mwyn iddynt allu helpu a chynghori cleientiaid yn well' (Darparwr, Arolwg 63).

10.19 Fel y darparwyr, roedd yr yfwyr hefyd yn gweld pwysigrwydd rhoi cyhoeddusrwydd i ddyfodiad isafbris, yn bennaf am fod 'cymaint ohonom yn gwybod dim am y peth'. Meddai un cyfwelai:

'Dwi'n meddwl y dylai gael ei hysbysebu'n well; dyma'r cyntaf i mi ei glywed am y peth. Felly, nhw sydd i benderfynu pa gamau maent am eu cymryd ar hyn. Ond ie, dwi'n meddwl bod angen mwy o hysbysebu. Dwi'n yfed bob dydd. Wyddwn i ddim am hyn.' (Yfwr, Cyfweliad 18)

10.20 Awgrymodd un ymatebwr i'r arolwg fod codi ymwybyddiaeth yn arbennig o bwysig mewn cymunedau diarffordd lle'r oedd y posibilrwydd o weld marchnad ddu mewn alcohol yn datblygu'n uwch: 'Cynlluniau i godi ymwybyddiaeth mewn cymunedau diarffordd, monitro am wirodydd marchnad ddu a gwerthwyr sy'n targedu alcoholics a grwpiau agored i niwed' (Yfwr, Arolwg 48). Roedd ymatebwyr eraill yn awyddus i weld deunyddiau hyrwyddo'n cynnwys 'cymorth/gwybodaeth ar leihau niwed' a

⁴⁰ Gan gynnwys 78% o ddarparwyr a gwblhaodd yr arolwg.

fyddai'n helpu yfwyr i reoli 'symptomau diddyfnu' a chanlyniadau posibl eraill isafbris am alcohol.

10.21 Roedd y farn yn rhanedig ar werth cynhyrchu deunyddiau hyrwyddo ysgrifenedig. Nid oedd rhai yfwyr dibynnol yn gweld llawer o werth mewn cynhyrchu posteri ond roeddent yn gweld gwerth mewn hysbysebu ar y radio a theledu. Er mai dim ond rhai yfwyr a oedd yn debygol o weld teledu, dywedwyd fod gan radio gynulleidfa ehangach a oedd yn cynnwys yfwyr stryd. Dywedodd un yfwr yn ystod cyfweiliad grŵp mewn 'tŷ gwlyb' fod pobl ddigartref yn aml yn gwrando ar y radio i helpu i basio'r amser pan oeddent yn byw ar y strydoedd:

A3: Dwi ddim yn meddwl basa gosod posteri'n gweithio.

A1: Pwy sy'n mynd i'w darllen nhw?

A3: Faint o bobl ddigartref sy'n mynd heibio poster ac yn ei ddarllen?

A1: Yn union.

I: A ydyn nhw'n gwyllo teledu?

A3: Ydyn, rhowch o ar y teledu.

I: Rhywbeth am y pris.

A3: Ar y radio. Darlledwch o.

A1: Ar y radio ella, hefyd. Ond faint o bobl ddigartref sy'n gwyllo teledu neu radio hefyd? Ar yr un pryd ...

A3: Mi gaech eich synnu.

A1: Dwi'n nabod ambell un ond...

A3: Mi fyddech yn synnu faint. Mae ganddyn nhw i gyd radio. Maen nhw i gyd yn gwrando. Be ydych chi'n feddwl maen nhw'n neud fin nos? (Yfwr, Cyfweiliad Grŵp A)

10.22 Gallai yfwyr eraill weld gwerth mewn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys deunyddiau ysgrifenedig, i hyrwyddo isafbris am alcohol ac i gyfeirio pobl at wasanaethau. Roedd enghreifftiau a roddwyd mewn cyfweiliad grŵp arall gyda chyn yfwyr sy'n awr yn gwella yn cynnwys hysbysfyrddau, posteri ar fysiau a phosteri mewn asiantaethau lle mae yfwyr dibynnol yn mynd yn aml (e.e. banciau bwyd, ceginau cawl a neuaddau eglwys):

I: lawn. Felly, rydych chi wedi sôn am y cyfryngau. Pa fath o gyfryngau i'w defnyddio i ledaenu'r neges? Beth fydd y ffordd oriau? Sut ddylai edrych?

C3: Facebook.

C2: Wel, nad, ddim yn arbennig. Nid ar gyfer yfwyr stryd, mi fyddai hysbysfyrdau'n fwy addas.

I: Hysbysfyrdau.

C2: Bysiau. Hysbysebu lle bynnag y gallwch.

C3: Bysiau, ia.

C4: Mae eglwysi fel hyn yn cynnig gwasanaethau i bobl yn y gymuned sy'n ddigartref, felly mi allech roi gwybod i'r eglwysi a gofyn i'r bobl, hyd yn oed os ydynt yn ddigartref ar y stryd, a ydynt yn defnyddio banciau bwyd neu ryw fath o wasanaethau cymorth, ac y gallan nhw roi gwybod i'w ceginau cawl... (Yfwr, Cyfweliad Grŵp 3)

10.23 Roedd mwyafrif yr yfwyr yn credu bod angen i ba bynnag negeseuon fyddai'n cael eu rhoi fod yn syml ac yn weledol gyda nifer fach yn unig o eiriau. Barnwyd fod eu lledaenu'n eang hefyd yn allweddol i sicrhau na fyddai'r negeseuon yn cael eu hanwybyddu neu eu colli:

'Os ydynt yn ymwybodol ohono ac yn ei ddeall, felly os ydynt yn siarad â phobl, gallant ei egluro wrth bobol, a phethau felly. Mae'n siŵr y byddai'n rhaid iddyn nhw hysbysebu cymaint â phosibl a digon o ... bod yr holl wybodaeth ar gael yn hwylus i bobl, os bydd hynny'n hysbyseb ar y teledu, rhywbeth na fydd pobl yn medru ei anwybyddu.' (Yfwr, Cyfweliad 34)

10.24 Nodwyd hefyd bwysigrwydd defnyddio negeseuon syml wedi'u gosod mewn lleoliadau mae yfwyr dibynnol yn ymweld â hwy'n aml gan ddarparwyr yn ystod eu cyfweliadau. Y gobaith oedd y byddai yfwyr wedi'u paratoi'n well ar gyfer y newid os oeddent o leiaf yn gwybod ei fod yn mynd i ddigwydd.

'O ran defnyddwyr gwasanaeth a'r rhai sy'n yfed, dwi'n meddwl bod angen, yn amlwg, i wasanaethau godi ymwybyddiaeth, a hynny mewn iaith syml y bydd pobl sy'n dod i gysylltiad â gwasanaethau yn ei deall i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod beth yn union yw isafbris am alcohol a beth yw goblygiadau hynny. O safbwynt gwasanaethau, gallant wneud hynny mewn nifer o ffyrdd boed hynny'n

ymgyrchu, darparu taflenni mae digonedd o ffyrdd o wneud hynny.' (Darparwr, Cyfweliad 17)

'Mae angen cyfathrebu felly, mae angen i'r wybodaeth yna fod mewn meddygfeydd, canolfannau iechyd, deintyddfeydd, llyfrgelloedd, ble bynnag mae pobl yn ymgynnull.' (Darparwr, Cyfweliad 16)

- 10.25 Gwnaethpwyd pwynt tebyg gan yfwr a gwblhaodd yr arolwg ar-lein. Tynnodd yr yfwr hwn sylw at bwysigrwydd cael gwared ar y stigma sydd ynghlwm wrth chwilio am help a'r angen i ddarparu cymorth ddydd a nos:

'Dylai ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth mewn mannau sy'n gwerthu neu'n gweini alcohol a hefyd meddygfeydd meddygon teulu, ysbytai, elusennau a gorsafoedd heddlu fod yn hyrwyddo gwasanaethau cymorth ac yn chwalu'r stigma sydd ynghlwm wrth ofyn am help a chael help. Mae llawer o'r help ar gael rhwng 9-5 o'r gloch yn unig ond rhaid cofio bod cyfran uchel o bobl broffesiynol yn yfed yn drwm ond na all fanteisio ar yr help sydd ar gael yn ystod yr oriau hyn ac a fyddai hefyd yn poeni am gyfrinachedd a'r effaith ar eu gyrfa pe baent yn dechrau cael triniaeth.' (Yfwr, Arolwg 71)

Gwella mynediad at wasanaethau

- 10.26 Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am isafbris am alcohol, roedd llawer o ddarparwyr ac yfwyr yn teimlo y byddai angen rhagor o adnoddau i helpu i ymdopi â'r cynnydd posibl yn y galw am help ar ôl y newid i'r ddeddfwriaeth. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd gwella mynediad a chynyddu argaeledd gwasanaethau cymorth gan lawer o'r darparwyr a oedd wedi cwblhau'r arolwg: 'mwy o arian ar gyfer ymyriadau seicogymdeithasol yn ogystal ag ymyriadau clinigol. Mae angen am fwy o waith allgymorth, yn bendant', 'mwy o arian ar gyfer gweithwyr rheng flaen', 'gwasanaethau gwell i helpu pobl â phroblemau alcohol difrifol', 'mae angen mwy o wasanaethau, mae angen mwy o arian ar gyfer canolfannau dadwenwyno'. Gwnaethpwyd pwyntiau tebyg gan ddarparwyr yn ystod y cyfweliadau:

'Mae angen cyllid efallai i gynnig lefelau cymorth uwch, efallai dadwenwyno, efallai cyllid ar gyfer adsefydlu, helpu pobl i wneud y newidiadau hynny, achos dydi'r bobl yma ddim yn mynd i roi'r gorau iddi ar eu pen eu hunain. Nid ydym byth yn dweud wrth bobl am roi'r gorau i yfed pan fyddant yn dod i mewn, rydym yn ceisio ac yn eu cael i anelu at nod, boed hynny'n ymwrthod yn llwyr, neu yfed

o dan reolaeth, mae hynny'n bethau anodd iawn i'w cyflawni. Ie, felly beth fydd yn digwydd iddyn nhw mewn gwirionedd?' (Darparwr, Cyfweliad 10).

'Oes, yn bendant mae angen mwy o adnoddau. Lefelau staffio, nid oes gennym ddigon o staff yn XXX ar gyfer nifer y defnyddwyr gwasanaeth rydym yn gweithio â hwy. Wyddoch chi, mae llwyth achos pobl yn gallu bod cymaint â 40 o ddefnyddwyr gwasanaeth ac nid yw hynny'n help mawr i ddefnyddwyr gwasanaeth os oes cymaint â hynny o bobl, felly mae cael rhagor o staff yn beth mawr.' (Darparwr, Cyfweliad 15)

- 10.27 Roedd yfwyr yn awyddus hefyd i sicrhau bod gan wasanaethau (e.e. Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a Meddygon Teulu) ddigon o adnoddau i ymdopi â'r cynnydd posibl mewn niferoedd cleifion. Roedd galwadau o blith yfwyr a gafodd eu cyf weld am fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl i helpu yfwyr i roi sylw i'r problemau sydd wedi gwneud iddynt yfed yn y lle cyntaf:

'Does gen i ddim syniad, rwyf wedi gweld pobl yn cael eu dadwenwyno. Dwi'n meddwl bod llawer ohono fo'n deillio o gyflyrau iechyd meddwl, mae angen trin hynny ... rwyf wedi cwrdd â phobl ddigartref sydd wedi cael eu cam-drin, pob math o bethau, ac mae angen trin y problemau sylfaenol hynny. Dwi ddim yn meddwl y gwnawn nhw roi'r gorau iddi fel arall, dim o gwbl.' (Yfwr, Cyfweliad 03)

'Dwi erioed wedi dod ar draws alcoholig neu rywun sy'n gaeth i gyffuriau a oedd heb broblem iechyd meddwl neu'r gwrthwyneb. Mae'r ddau beth yn mynd law yn llaw. Mae angen ystyried pam mae pobl yn teimlo felly. Gall fod yn ddiweithdra, diffyg arian, toriadau mewn budd-daliadau. Dyma'r gwir resymau pam mae pobl yn yfed, a tan i hynny cael ei ddatrys mi allan nhw wneud beth fynnon nhw, mi allan nhw wahardd alcohol, mi allan nhw godi'r pris, ond ni fydd hynny'n newid dim.' (Yfwr, Cyfweliad 22)

- 10.28 Roedd yfwyr a gwblhaodd yr arolwg ar-lein hefyd yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymorth iechyd meddwl. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at yr angen i wella mynediad at amrywiaeth o fathau eraill o help hefyd, gan gynnwys: dadwenwyno; cwnsela; cyngor ariannol; gwaith cymdeithasol; a thai.

'Bydd angen mwy o bobl i gynghori ar ddyledion a gweithwyr cymdeithasol i helpu teuluoedd sy'n torri'n ôl ar wariant ar bethau i'r aelwyd er mwyn iddynt gael diod nawr ac yn y man.' (Yfwr, Arolwg 75)

'Efallai y bydd angen sylw meddygol ar bobl os ydynt yn ddibynnol iawn ar alcohol. Ymyriadau meddygol, gwelyau ychwanegol mewn canolfannau dadwenwyno, ac efallai gwasanaethau cwnsela di-dâl i helpu pobl i ddelio â bywyd heb alcohol.' (Yfwr, Arolwg 33)

'Mwy o gymorth arbenigol i rai â phroblemau caethiwed difrifol, a chyngor ariannol i helpu pobl i ddelio â chostau byw uwch a achoswyd gan isafbris am alcohol.' (Yfwr, Arolwg 55)

- 10.29 Dywedodd un o'r ymatebwyr i'r arolwg ar-lein ei bod yn bwysig bod mynediad at wasanaethau cyffuriau ac alcohol yn 'rhwydd' a 'gydag amseroedd ymateb cyflym.' (Yfwr, Arolwg 8).
- 10.30 Soniodd nifer fach o ymatebwyr am y potensial i ddysgu gwersi yn sgil profiadau'r Alban, er bod un yn cydnabod y gallai gwahaniaethau diwylliannol wneud hyn yn anodd (e.e. 'cael mwy o wybodaeth, ymchwilio i sut mae'r newidiadau i alcohol yn y Alban wedi effeithio ar yfed yn yr Alban a gweld a allai rywbeth tebyg ddigwydd yng Nghymru', 'mae'n anodd gwybod gan fod yr Alban yn y broses o werthuso ac mae'r diwylliant yn wahanol iawn i ddiwylliant Cymru'.)

Dim angen am waith paratoadol

- 10.31 Er bod y rhan fwyaf o ddarparwyr ac yfwyr yn credu bod angen gwaith paratoadol i helpu yfwyr i ymdopi â chyflwyno isafbris am alcohol, roedd rhai o'r farn nad oedd angen am waith o'r fath. Yn wir, nid oedd tua dau o bob pump (42 y cant) o'r yfwyr a gwblhaodd yr arolwg yn meddwl bod angen unrhyw systemau cymorth penodol i'w helpu i ymdopi â'r newid yn y pris. Y prif reswm a roddwyd oedd am fod yr holl systemau cymorth angenrheidiol ar gael eisoes. Roedd peth anghytuno, fodd bynnag, o ran a fyddai'r gwasanaethau presennol yn gallu ymdopi â'r newid i'r ddeddfwriaeth. Roedd rhai, er enghraifft, yn meddwl y byddai'r 'asiantaethau cymorth presennol yn gallu ymdopi' gydag eraill yn cydnabod ei bod ar gael ond yn teimlo 'efallai na fyddai'n gallu delio â'r cynnydd yn y galw'. Cafwyd disgrifiad manwl o'r gwasanaethau presennol gan un ymatebwr:

'Mae gwasanaethau tebyg ar gael yn barod fel Un Pwynt Mynediad Cyffuriau ac Alcohol (DASPA) a Drink Wise, Age Well a dwi'n siŵr y gall y problemau cynyddol a achosir gan isafbris am alcohol gael eu crybwyll yn ystod ymyriadau â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.' (Yfwr, Arolwg 5)

10.32 Roedd y rhesymau eraill dros beidio darparu cymorth yn amrywio ac roeddent yn cynnwys y syniad y byddai pobl yn 'cadw'r newid yn y pris mewn cof' gan olygu na fyddai angen cymorth. Awgrymodd un yfwr y byddai darparu cymorth ychwanegol yn ddiangen gan y bydd 'pobl yn yfed waeth faint o help fyddan nhw'n ei gael' ac nid oedd un arall yn gallu gweld pam oedd angen cymorth 'oherwydd yr unig beth maen nhw'n ei wneud yw gosod isafbris. 'Dwi ddim yn gallu gweld pa help fyddai pobl ei angen ar gyfer hynny'. Pwysleisiodd dau yfwr nad oedd angen help arnynt i ymdopi â newid yn y pris ond bod angen help arnynt i roi sylw i'w problemau craidd: 'Nid oes angen help o ran cost; fodd bynnag, mae ei angen o ran helpu pobl i'w galluogi i gydnabod bod ganddynt broblem yfed', 'os na fydd y pris yn newid "arferiad" rhywun, yna'r arferiad sydd angen ei newid ac nid y gost'.

Amseru ac ariannu'r gwaith paratoi

10.33 Argymhellodd rhai darparwyr fod y gwaith paratoi a'r buddsoddiad mewn gwasanaethau yn cael ei wneud cyn gweithredu'r ddeddf i leihau unrhyw niwed posibl ac i sicrhau cyfnod pontio esmwyth. Disgrifiodd un a ymatebodd i'r arolwg yr angen i baratoi ymlaen llaw i osgoi unrhyw sioc fawr: 'er mwyn inni allu cynllunio ymlaen llaw i wneud yn siŵr na fydd yn dod fel sioc/argyfwng mawr' (Darparwr, Arolwg 63). Awgrymodd un arall fod pethau'n cael eu gwneud yn barod i'w rhoi ar-lein ar gyfer sefydliadau a gweithwyr proffesiynol: 'cael pethau'n barod ar-lein i gael eu defnyddio gan asiantaethau/meddygon teulu ac ati.' (Darparwr, Arolwg 65). Gwnaethpwyd pwynt tebyg gan ddarparwr yn ystod cyfweiliad:

'Ie, wn i ddim a yw siopwyr wedi bod yn dweud ymlaen llaw yn eu siopau na fydd peth o'r stwff yma ar gael ar eu silffoedd yn fuan. Wn i ddim a oes angen iddo fynd i lefel y stryd. Mi fuaswn yn gobeithio bod y timau digartrefedd yn barod i weithredu. Yn amlwg, mae gennym ni ein tîm allgymorth, ymhlith y gwasanaethau camdefnyddio sylweddau ar y materion ehangach, dwi'n meddwl ei fod yn rhywbeth mae angen ei ddsbarthu ymhlith ein grŵp cleientiaid a dweud y gwir. Rydw i'n gobeithio y bydd rhywun o dan ymbarél yr APB lleol yn helpu i hyrwyddo hyn wrth i fis Mehefin nesáu.' (Darparwr, Cyfweiliad 01)

10.34 Roedd y rhan fwyaf o yfwyr a darparwyr yn meddwl y dylai'r cyfrifoldeb am ariannu'r gwaith paratoi (h.y. y deunyddiau hyrwyddo a buddsoddiad mewn gwasanaethau) fod yng ngofal Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr i'r arolwg yn meddwl mai eraill ddylai fod yn gyfrifol: 'Iechyd Cyhoeddus Cymru', 'trethi', 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol', 'awdurdodau lleol', 'y GIG', 'y Loteri', 'Byrddau

lechyd a Chynghorau Lleol', 'darparwyr gwasanaeth sy'n darparu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a digartrefedd'. Awgrymodd ambell ddarparwr y dylai'r costau ychwanegol gan eu hariannu gan yr elw yr oeddent yn credu a fyddai'n deillio o isafbris am alcohol: 'dylid defnyddio elw unedau i ariannu gwasanaethau', 'efallai cael mwy o wasanaethau adsefydlu yn lleol. 'Wedi ei ariannu gan y brandiau alcohol mawr', 'ardreth ar y diwydiant diodydd', 'y brandiau mawr i roi arian i wasanaethau alcohol i helpu rhai â phroblemau yfed'.

Crynodeb

- 10.35 Yn y bennod hon mae data'r arolwg a'r cyfweiliadau wedi'i ddefnyddio i edrych ar yr hyn mae yfwyr a darparwyr yn credu sydd ei angen i helpu pobl i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol.
- 10.36 Y prif gasgliad yw er mai ychydig yn unig o sefydliadau sy'n gwneud unrhyw beth ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer isafbris am alcohol, mae cytundeb cyffredinol ymhlith yfwyr a darparwyr bod angen gwneud rhywbeth. Y farn gyffredinol yw y dylai unrhyw waith paratoi ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o isafbris am alcohol mewn ffordd syml a hwylus, ac ar gyfeirio pobl at wasanaethau priodol.
- 10.37 Roedd cytundeb hefyd ynglŷn â'r angen am adnoddau ychwanegol i sicrhau mynediad hwylus a chyflym at wasanaethau priodol a fyddai'n helpu pobl i roi sylw i achosion eu problemau yn ogystal ag i ymateb i anghenion meddygol a chymdeithasol brys a allai codi yn sgil newid ym mhris alcohol⁴¹.

⁴¹ Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddwyd y byddai £2.4 miliwn ychwanegol ar gael yn 2019/20 i'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau rheng flaen lleol ar gyfer rhai sy'n camddefnyddio sylweddau. Gweler datganiad ysgrifenedig [Vaughan Gething dyddiedig 15 Chwefror 2019](#).

11. Casgliadau ac argymhellion

- 11.1 Yn yr adroddiad cyflwynir canfyddiadau astudiaeth dulliau cymysg a oedd yn ymchwilio i ystod o ganlyniadau posibl cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru.
- 11.2 Prif nod yr astudiaeth oedd ymchwilio a allai newid sylweddau (e.e. o alcohol i gyffuriau anghyfreithlon) fod yn ganlyniad cyflwyno isafbris am alcohol.
- 11.3 Roedd gan yr astudiaeth hefyd sawl nod pwysig arall a oedd yn cynnwys ymchwilio i sut y byddai yfwyr yn ymateb ac yn ymdopi â'r newid mewn prisiau ac edrych ar y ffyrdd gorau o ymateb i weithredu isafbris uned am alcohol.
- 11.4 Yn y bennod olaf hon crynhoir a myfyrrir ar y prif ganfyddiadau gyda golwg ar y llenyddiaeth a adolygwyd ym Mhennod 3. Hefyd cyflwynir set o argymhellion a fydd yn helpu i arwain y broses o gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd.
- 11.5 Cyn gwneud hyn mae'n werth nodi fod yr astudiaeth wedi cynnwys casglu set gynhwysfawr o ddata o fewn amser cymharol fyr ac mae wedi adrodd ar ganfyddiadau tri gweithgarwch allweddol: adolygiad cyflym o'r dystiolaeth, 193 o ymatebion i'r arolwg a 76 o gyfweiliadau ansoddol⁴².
- 11.6 Mae'n bwysig nodi hefyd er mai nod isafbris uned am alcohol yw lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol, diben yr astudiaeth hon oedd canolbwyntio'n bennaf ar farn yfwyr sy'n defnyddio gwasanaethau (sydd felly â phroblemau sy'n gysylltiedig ag alcohol) a'r staff sy'n darparu cymorth i bobl o'r fath. *Mae'r canfyddiadau'n amlwg yn adlewyrchu cyd-destun y rhai a holwyd.*
- 11.7 Dylid pwysleisio hefyd fod llawer o'r data a gasglwyd yn ymdrin â chanfyddiadau a phroffwydoliaethau o'r hyn a all ddigwydd ar ôl cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn awgrymu senarios *posibl* yn hytrach na gwirioneddol ar ôl cyflwyno isafbris.

Posibilrwydd o newid sylweddau

- 11.8 Yng nghyd-destun prif nod yr astudiaeth, canfyddiad o'r tebygolrwydd y byddai isafbris am alcohol yn arwain at newid mewn ymddygiad defnyddio sylweddau, roedd sawl neges allweddol. Y gyntaf o'r rhain yw mai, yn achos mwyafrif yr yfwyr, yr unig newid mewn defnydd yn gysylltiedig ag alcohol sy'n debygol ac y bydd hwnnw'n fwy na dim yn addasiad o ymddygiad presennol o fewn y fframwaith prisio

⁴² Cynhaliwyd cyfanswm o 76 o gyfweiliadau. Roedd tri o'r cyfweiliadau hyn yn gyfweiliadau grŵp, sy'n golygu bod cyfanswm nifer y cyfweleion (n=87) yn fwy na chyfanswm nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd.

newydd (e.e. newid y math o alcohol neu newid mewn ymddygiad prynu).

Awgrymwyd hyn oherwydd y teimlad yn achos llawer o yfwyr fod alcohol yn amlwg yn gyffur o ddewis ac nad yw troi at gyffuriau, ac yn enwedig i gyrion gweithgarwch cyfreithlon/anghyfreithlon, yn opsiwn. Roedd awgrym y byddai newid rhwng sylweddau'n fwy tebygol o ddigwydd ymhlith grwpiau penodol, yn enwedig yfwyr stryd a rhai oedd a phrofiad blaenorol o ddefnyddio cyffuriau, canfyddiad a nodwyd hefyd gan Miller a Droste (2013) a Peters a Hughes (2010).

- 11.9 Os byddai yfwyr yn cefnu ar alcohol, rhagwelid y byddai yfwyr yn fwyaf tebygol o droi at feddyginiaethau presgripsiwn fel bensodiasepinau, sy'n efelychu effeithiau alcohol, ac yna canabis a sbeis, gyda dim ond ychydig yn awgrymu newid i gocên neu opiadau. Mae'r canfyddiad hwn yn adleisio canfyddiadau DiNardo a Lemieux (2001) a ganfu fod cyfyngu mynediad at alcohol yn arwain at gynnydd yn y defnydd o ganabis ymhlith myfyrwyr hŷn ysgolion yn yr UDA.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o isafbris uned am alcohol

- 11.10 Un o brif nodau'r astudiaeth oedd canfod yr hyn oedd yn hysbys eisoes am y ddeddfwriaeth, os unrhyw beth. Roedd yn amlwg ymhlith yfwyr a darparwyr mai'r norm oedd dim neu fawr ddim ymwybyddiaeth, a bod hynny o ymwybyddiaeth a fodolai wedi dod i'r amlwg naill ai drwy'r broses ymchwil neu drwy newyddion neu drafodaethau yn y gymuned. Cyfeiriwyd at ddiffyg ymwybyddiaeth o'r fath gan O'May et al (2016) yn eu hastudiaeth o yfwyr dibynnol cyn cyflwyno isafbris uned am alcohol yn yr Alban.
- 11.11 Ychydig yn unig o'r ymatebwyr yn ein hastudiaeth a feddai ar ddealltwriaeth fanwl, bendant a chywir o isafbris am alcohol. Yn gysylltiedig â hyn roedd tair agwedd amlwg. Yn gyntaf, bod yr egwyddor o wneud rhywbeth ynghylch argaeledd a niwed alcohol yn 'beth da' a bod hynny'n arwydd o ddechrau 'newid diwylliannol' drwy feddwl am alcohol. Yn ail, na fyddai cyflwyno Isafbris Uned am Alcohol o 50c (y lefel a ffeirir gan Lywodraeth Cymru) yn gwneud llawer o wahaniaeth ar y cyfan i lefelau yfed pobl. Cafodd hyn ei gyfleu mewn safbwyntiau bod caethiwed a dibyniaeth yn rhy gryf yn achos llawer o yfwyr 'craidd' a bod yfwyr cymedrol yn gallu fforddio i ymdopi â'r newid yn y pris. Yn olaf, fel y nodwyd gan O'May et al (2016) hefyd, y grŵp o unigolion a fyddai'n cael ei effeithio fwyaf yw'r rhai sy'n debygol o fod fwyaf agored i niwed, h.y. yfwyr seidr cryf, sy'n aml yn ddigartref heb fawr ddim adnoddau i ddatblygu strategaethau ymdopi gwahanol, llai niweidiol ac a fyddai'n gynaliadwy.

11.12 Gan amlaf, fel rhan o'r sgysiau hyn, roedd argyhoeddiad bod y cynnydd mewn pris yn dreth, a holwyd droeon i ble fyddai'r refeniw newydd yn mynd ac a fyddai'n cael ei wario ar gynyddu darpariaethau ar gyfer trin yfwyr ai peidio.

Ymdopi â chyflwyno isafbris am alcohol

- 11.13 O gofio mai parhad mewn yfed alcohol yn hytrach na newid torfol i sylweddau eraill oedd yn cael ei ragweld, rhan bwysig o'r astudiaeth oedd canfod sut y gallai yfwyr ymdopi'n ymarferol â'r cynnydd yn y pris a pharhau i yfed. Yn achos yfwyr risg isel-canolig, y teimlad cyffredinol oedd y gallai cyllidebau presennol ddelio ag unrhyw gynydd mewn gwariant ac na fyddai angen unrhyw addasiad neu newid arwyddocaol mewn ymddygiad.
- 11.14 Fodd bynnag, roedd senario gwahanol yn cael ei ragweld yn achos yfwyr risg uchel/tebygol o fod yn gaeth, ac roedd ystod o fecanweithiau ymdopi posibl yn cael eu rhagweld. Roedd peth pryder y gallai llawer o'r strategaethau hyn arwain at ganlyniadau negyddol nid yn unig i'r yfwyr ond hefyd i'w teuluoedd, eu ffrindiau ac i'r cymunedau lle maent yn byw.
- 11.15 Roedd y posibilrwydd y gallai yfwyr dibynnol droi at fathau cryfach o alcohol yn rhywbeth a oedd yn cael ei ragweld gan ddarparwyr gwasanaeth ac yfwyr. Awgrymwyd pan fyddai pris seidrau cryf yn codi i fod yn agos iawn at bris gwirodydd, fodca yn enwedig, y byddai llawer o yfwyr yn dewis gwario £14 (28 uned) ar botel o fodca, yn hytrach na gwario £11.50 (23 uned) ar botel o seidr⁴³. Mae ymchwil o wledydd eraill yn awgrymu y gall newid o un math o alcohol i fath arall cryfach ddigwydd ar ôl cyflwyno isafbris uned am alcohol. Yn yr Almaen, er enghraifft, cafodd cynnydd ym mhris alcopops ei gysylltu â chynnydd yn y defnydd o wirodydd a symudiad tuag at ffafrio diodydd sy'n cael eu cysylltu â phatrymau yfed mwy peryglus (Muller et al., 2010).
- 11.16 Roedd y posibilrwydd o gynydd mewn bragu cartref (gan gynnwys y broses hynod gymhleth o gynhyrchu gwirodydd) a'r defnydd o alcohol ffug tebyg i, neu gan ddefnyddio'r un dulliau â sigarennau ffug (o farchnad ddu y rhagwelwyd a fyddai'n ffynnu'n dilyn cyflwyno isafbris) yn rhywbeth a oedd yn cael ei ragweld gan lawer. Roedd canlyniadau posibl y newidiadau hyn i iechyd yn achos pryder difrifol. Er bod sail y dystiolaeth ar y mater hwn yn weddol brin, mae tystiolaeth i awgrymu nad oes

⁴³ Er bod newid i ddiod sy'n cynnwys cyfanswm llai o unedau na photel o seidr yn gallu ymddangos fel canlyniad positif ar yr olwg gyntaf, mae cyngor meddygol yn awgrymu nad yw hyn o reidrwydd yn wir.

sail i rai o'r pryderon hyn mewn gwirionedd. Canfu ymchwil yng Ngwlad Thai, er enghraifft, fod newid i alcohol anghyfreithlon yn dilyn treth ar wirodydd yn isel iawn (0.8 y cant) ac wedi'i gyfyngu i ardaloedd a oedd â hanes blaenorol o gynhyrchu alcohol anghyfreithlon (Chaiyasong et al., 2011).

- 11.17 Roedd y posibilrwydd y gallai yfwyr gyflawni troseddau meddiangar i gael yr arian i barhau i yfed alcohol yn rhywbeth y cyfeiriwyd ato yn gyson gan ddarparwyr. Roedd yr yfwyr a holwyd gennym yn llai tebygol o ragweld cynnydd yn eu hymddygiad troseddol eu hunain ond roeddent yn rhagweld bod troseddu'n debygol o gynyddu ymhlith yfwyr eraill, yn enwedig rhai dibynnol. Barnwyd mai dwyn o siopau oedd y math o drosedd a oedd fwyaf tebygol o gael ei chyflawni, yn bennaf am y byddai'n sicrhau mynediad cyflym naill ai at alcohol eu hun neu at nwyddau y gellid eu gwerthu i gael arian i brynu alcohol. Roedd y mathau eraill o droseddau a fyddai'n cynhyrchu incwm yn cynnwys lladradau, dwyn a mygio.
- 11.18 Roedd rhai'n rhagweld y byddai unrhyw droseddau o'r fath yn cael eu cyflawni'n unig gan y rhai hynny oedd â phrofiad eisoes o'r fath weithgarwch. Y gred gyffredinol oedd bod y posibilrwydd y byddai yfwyr nad oedd wedi troseddu o'r blaen yn dechrau gwneud hynny'n awr yn annhebygol. Er hynny, roedd y baich posibl y byddai cynnydd mewn troseddau meddiangar yn ei roi ar yr heddlu a gwasanaethau cysylltiedig yn achos cryn bryder. Fodd bynnag, ni ellid cyfiawnhau pryderon o'r fath ar sail ymchwil flaenorol. Yn wir, canfu astudiaethau mewn gwledydd eraill mai anaml yr oedd strategaethau ymdopi a oedd yn cynnwys troseddau cynhyrchu incwm yn cael eu defnyddio gan yfwyr a oedd yn wynebu cynnydd ym mhpris alcohol (Faulkner et al, 2015; Erickson et al, 2018).
- 11.19 Roedd y posibilrwydd y gallai yfwyr ail-gyllidebu eu hadnoddau presennol i ryddhau arian i'w wario ar alcohol yn ffordd arall o ymdopi a nodwyd gan ddarparwyr ac yfwyr. Yr hyn y cyfeiriwyd ato amlaf oedd y byddai yfwyr yn gwneud heb eitemau hanfodol fel bwyd a thalu biliau i barhau i ddefnyddio alcohol. Mae ymchwil flaenorol wedi awgrymu y gallai'r broffwydoliaeth hon fod yn un realistig o gofio mai cyllidebu adnoddau oedd un o'r strategaethau mwyaf cyffredin a ddefnyddid gan yfwyr i'w helpu i ymdopi â chynnydd ym mhpris alcohol mewn gwledydd eraill (Erickson et al 2018, Faulkner et al 2015).
- 11.20 I lawer o'r ymatebwyr, roedd canlyniadau posibl ail-gyllidebu fel strategaeth ymdopi, yn enwedig i aelodau'r teulu, yn achos pryder. Y broblem fwyaf a ragwelid oedd y byddai plant yn gorfod mynd heb fwyd a dillad ac y byddai trefniadau tai'n

ansefydlogi yn sgil rhent neu ad-daliadau morgais heb eu talu. Nodwyd hefyd sgil effaith hyn i gyd ar berthnasoedd ag aelodau'r teulu (e.e. o ganlynid i fwy o straen a gwrthdaro), ac ar iechyd meddwl (e.e. drwy straen a gorbryder cynyddol).

- 11.21 Roedd y posibilrwydd y gallai yfwyr geisio benthycu arian i ariannu eu defnydd o alcohol yn strategaeth ymdopi arall a nodwyd yn yr astudiaeth (gweler hefyd Faulkner et al, 2015). Er bod modd edrych ar hyn fel cam positif ar yr olwg gyntaf i ddatrys y broblem (yn enwedig o'i gymharu â throeddu), yn ymarferol, y farn oedd y gallai'r strategaeth hon ddod â chanlyniadau negyddol yn ei sgil. Un o'r pryderon mwyaf yma oedd y byddai ceisiadau cynyddol am arian yn rhoi straen ar berthnasoedd ac y gallai yn y diwedd arwain at chwalu perthnasoedd.
- 11.22 Roedd pryderon hefyd y gallai benthycu mwy ffurfiol drwy gael cyfrif mewn tafarnau a siopau arwain at gynnydd mewn dyledion a phwysau ariannol, a allai wedyn gael effaith negyddol ar berthnasoedd ag aelodau'r teulu a fyddai o bosibl yn gorfod talu'r ddyled. Roedd yr effaith y byddai isafbris am alcohol yn ei chael ar yfwyr sy'n cael Credyd Cynhwysol yn bryder penodol. Mynegodd yfwyr a darparwyr fel ei gilydd bryder y byddai yfwyr sy'n cael y budd-dal hwn (yn aml mewn un cyfandaliad) yn ei chael yn fwy anodd ceisio rheoli eu cyllidebau misol ar ôl i bris alcohol godi.
- 11.23 Roedd y posibilrwydd y gallai yfwyr gael gafael ar gyflenwadau alcohol o wledydd sydd heb bolisiau isafbris ar y pryd yn strategaeth arall a grybwyllwyd gan ymatebwyr. Barnwyd fod y posibilrwydd o'r newid hwn mewn ymddygiad fwyaf tebygol o ddigwydd mewn ardaloedd sy'n agos at y ffin â Lloegr. Fodd bynnag, rhagwelwyd hefyd y byddai ardaloedd ymhellach o'r ffin (e.e. y Cymoedd) hefyd yn gwneud defnydd o gyflenwadau dros y ffin. Mae'n ddiddorol nodi nad yw'r potensial ar gyfer siopa dros ffiniau yn fater sydd wedi'i drafod mewn astudiaethau blaenorol sydd wedi ymchwilio i ganlyniadau codi pris alcohol.
- 11.24 Cafodd ystod o strategaethau a allai o bosibl alluogi yfwyr dibynol i barhau i yfed ar ôl gweithredu isafbris am alcohol eu nodi. Roedd y rhan fwyaf yn rhai negyddol yn yr ystyr y byddent yn golygu y byddai'r yfwyr yn ymddwyn mewn ffordd a allai achosi niwed iddynt hwy neu i bobl o'u cwmpas. Roedd eraill yn ymddangos yn fwy positif ar yr olwg gyntaf ond, ar y cyfan, roedd yn ymddangos y gallai canlyniadau'r rhain hefyd fod yn negyddol. Nid oedd y posibilrwydd y gallai isafbris am alcohol arwain at yfed llai o alcohol a chael effaith positif ar fywydau yfwyr yn rhywbeth a gafodd ei ragweld yn aml.

11.25 Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, na fyddai'r proffwydoliaethau negyddol hyn o reidrwydd yn cael eu gwireddu ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei gweithredu. Canfu gweithiau ymchwil blaenorol mewn gwledydd lle mae pris alcohol wedi codi (drwy drethi neu isafbris am alcohol) fod strategaethau ymdopi niweidiol fel dwyn alcohol, cyflawni troseddau cynhyrchu incwm a newid alcohol am ddiodydd nad ydynt yn alcohol yn gymharol brin (Black et al., 2011; Faulkner et al., 2015). Hefyd, mae corff sylweddol o ymchwil sy'n dangos cysylltiad rhwng cynnydd ym mhpris alcohol a gostyngiad mewn lefelau yfed alcohol yn gyffredinol (Doran and DiGiusto, 2011; Muller et al 2010; Chaiyasong et al 2011). Yr hyn sy'n anos i'w brofi, fodd bynnag, yw unrhyw ostyngiad mewn lefelau yfed sydd wedi'i achosi gan y newid yn y pris ac nid gan unrhyw ymyriadau cymdeithasol eraill neu newidiadau diwylliannol mewn ymddygiad.

Paratoi a chynllunio ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol

11.26 O gofio'r diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol. Mae'n naturiol ddigon i dybio nad oes dim paratodau ar gyfer y newid arfaethedig yn cael eu gwneud gan ddarparwyr gwasanaeth nac yfwyr mewn gwirionedd. Dim ond mewn nifer fach o ardaloedd roedd ymdrechion i baratoi ar gyfer y newid yn y gyfraith wedi cychwyn ac yn yr ardaloedd hynny nid oedd y gwaith wedi cychwyn tan yn ddiweddar (ar adeg yr ymchwil). Mae'n ddiddorol nodi nad oedd llawer o ddarparwyr yn gwybod a oedd eu sefydliad yn gwneud rhywbeth i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol. Ymddengys fod gan ddarparwyr mewn rolau rheoli fwy o wybodaeth am y mater, gan awgrymu nad oedd negeseuon pwysig yn cael eu rhaeadru i staff rheng flaen bob amser.

11.27 Er bod rhai sefydliadau'n paratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol, roedd llawer mwy nad oedd yn gwneud paratodau, ac felly roedd cytundeb ymhlith darparwyr ac yfwyr fod angen mwy o baratodau. Y farn gyffredinol oedd y dylai unrhyw baratodau ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o isafbris am alcohol mewn ffordd syml a hygyrch ac sy'n cyfeirio pobl at wasanaethau priodol. Roedd cytundeb cyffredinol bod angen adnoddau ychwanegol i sicrhau mynediad hwylus a chyflym at wasanaethau priodol a fyddai'n helpu pobl i roi sylw i achos eu problemau yn ogystal ag ymateb i anghenion meddygol a chymdeithasol brys a allai godi yn sgil newid ym mhpris alcohol. Gwnaed canfyddiadau ac argymhellion tebyg hefyd gan O'May et al (2016) cyn cyflwyno isafbris uned am alcohol yn yr Alban.

11.28 Yn wahanol i'r darparwyr a oedd i gyd yn cytuno bod gwaith i'w wneud ganddynt hwy a'u hasiantaethau, ychydig o yfwyr oedd yn rhagweld y byddent yn gwneud dim i baratoi ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yn ymddangos bod y datrysiadau a awgrymwyd yn rhai tymor byr, ac roeddent yn cynnwys pentyrru alcohol rhatach cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth. Ychydig yn unig o yfwyr a soniodd am ddatrysiadau mwy tymor hir fel cael triniaeth a chwtdogi ar faint o alcohol roeddent yn ei yfed.

Sylwadau i gloi

- 11.29 Mae'r astudiaeth hon wedi cynnig darlun cychwynnol cynhwysfawr o ymwybyddiaeth, y paratodau a'r disgwyliadau ymhlith yfwyr a darparwyr am y newid arfaethedig yn y ddeddfwriaeth. Mae'r prif ganfyddiad yn awgrymu bod cefnu ar alcohol a throï at sylweddau eraill yn debygol ymhlith rhai grwpiau penodol yn unig o'r boblogaeth yfed, sef y rhai hynny sydd â hanes o ddefnyddio sylweddau eraill (gweler hefyd Miller and Droste, 2013). Yn y cyd-destun hwn, mae llawer o'r dystiolaeth yn awgrymu bod yfwyr yn debygol o addasu eu hymddygiadau presennol sy'n gysylltiedig ag yfed i allu parhau â'u hyfed.
- 11.30 Er bod y pwyslais ar lefelau yfed niweidiol a seidr cryf yn benodol i'w groesawu, roedd cryn bryder oherwydd nid yn unig y mae newid yn y pris yn annhebygol o gael effaith ddramatig ar lefelau yfed yn gyffredinol (ymhlith rhai sy'n ddibynnol neu sy'n gallu ei fforddio), ond oherwydd y gallai hefyd arwain at ystod o ganlyniadau negyddol a chael effaith anghymesur ar grwpiau sydd eisoes yn agored i niwed ac wedi'u hymyleiddio. Roedd hyn yn ei dro'n awgrymu bod angen buddsoddi adnoddau i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth (ymhlith yr holl grwpiau rhanddeiliaid gan gynnwys yr heddlu, meddygon teulu, adrannau damweiniau ac achosion brys ac asiantaethau camddefnyddio sylweddau) a hefyd i wella mynediad amserol ar wasanaethau dadwenwyno a thriniaethau (gweler hefyd O'May et al, 2016).

Argymhellion

- 11.31 Ar ôl ystyried y canfyddiadau hyn, gwneir cyfres o argymhellion a fydd yn helpu i arwain y broses o weithredu isafbris am alcohol yng Nghymru:
- Mae angen dirfawr i godi ymwybyddiaeth cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth ymhlith yfwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae'n bwysig bod pobl yn gwybod bod isafbris am alcohol yn yr arfaeth fel y gallant ddechrau paratoi ar gyfer ei ddyfodiad. Bydd

gwella gwybodaeth hefyd yn helpu i roi diwedd ar y camagraff y bydd isafbris am alcohol yn dreth a fydd yn cynhyrchu arian i Lywodraeth Cymru.

- Argymhellir fod deunydd cyhoeddusrwydd yn cael ei gynhyrchu mewn sawl fformat (gweledol a chlywedol) a'u bod yn cael eu dosbarthu ar wahanol blatfformau (cyfryngau cymdeithasol, radio, poster, hysbysfyrddau, wyneb yn wyneb) o gofio amrywiaeth y gynulleidfa a all gael ei heffeithio gan unrhyw newidiadau.
- Dylai isafbris am alcohol fod yn rhan amlwg o'r holl agendâu gweithio a chyfathrebu i ystod eang o asiantaethau (gan gynnwys gwasanaethau iechyd, yr heddlu, prawf, tai/digartrefedd a thrais domestig).
- Dylai darparwyr gwasanaeth ddatblygu pecynnau a fydd yn addysgu staff a defnyddwyr gwasanaeth am ganlyniadau posibl isafbris am alcohol a ffyrdd o leihau unrhyw niwed posibl.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer darparwyr, yn y cyfnod cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth. O gofio rôl allweddol gweithwyr achos sy'n gweithio ag yfwyr penodol, dylai digwyddiadau o'r fath gael eu targedu at y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r yfwyr hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod y digwyddiadau hyn hefyd yn ystyried ffyrdd o helpu yfwyr peryglus a niweidiol nad ydynt ar y pryd mewn cysylltiad â gwasanaethau.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu sawl mesur ataliol i gyfyngu ar unrhyw ganlyniadau niweidiol y ddeddfwriaeth ymhlith yr yfwyr mwyaf niweidiol. Dylid talu sylw penodol i'r grwpiau sydd wedi'u hymyleiddo fwyaf fel yfwyr stryd digartref. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:
 - i. Cynyddu mynediad amserol at wasanaethau dadwenwyno a thriniaethau alcohol⁴⁴.
 - ii. Sicrhau bod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ogystal â gwasanaethau adrannau damweiniau ac achosion brys yn ymwybodol ac wedi'u paratoi ar gyfer cynnydd posibl yn nifer y cleifion a fydd angen triniaeth am symptomau diddyfnu.

⁴⁴ Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £2.4m o gyllid ychwanegol i wasanaethau camddefnyddio sylweddau rheng flaen ac mae trafodaethau ar waith â Byrddau Cynllunio Ardal ar yr angen i wella mynediad at wasanaethau triniaeth.

- iii. Sicrhau bod meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u paratoi ar gyfer cynnydd mewn cleifion sy'n gofyn am feddyginiaethau presgripsiwn fel bensodiasepinau.
 - iv. Addysgu yfwyr ar beryglon newid sylweddau a defnyddio alcohol ffug (alcohol 'bootleg' a chartref).
 - v. Gweithio ag adrannau Safonau Masnach i roi arweiniad i asiantaethau ar argaeledd a natur alcohol ffug.
- Ymgynghori â siopau a'r diwydiant cynhyrchu alcohol i ddeall sut maent yn bwriadu ymateb i'r newid yn y ddeddfwriaeth (e.e. monitro sylw yn y cyfryngau ac edrych a fyddant yn cadw at ysbryd y ddeddf ynteu'n chwilio am ffyrdd i beidio â chydymffurfio)⁴⁵.
 - Yn ystod yr astudiaeth, clywyd sylwadau droeon am effeithiau posibl isafbris am alcohol ar bobl ifanc o dan 18 oed. Rydym felly'n argymhell y dylid ymchwilio i effaith isafbris am alcohol ar yfwyr ifanc gan gynnwys plant fel rhan o'r rhaglen werthuso ehangach.

⁴⁵ Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd â Chonsortium Manwerthu Cymru a Rhwydwaith Diwydiant Alcohol Llywodraeth Cymru ar eu hymateb i'r ddeddfwriaeth newydd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu gwerthusiad o effaith sy'n rhoi pwyslais penodol ar effaith isafbris am alcohol ar fanwerthwyr.

Cyfeiriadau

Panel Cyngori ar Gamddefnyddio Sylweddau (2014) *Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context*.

Amlung, M. T., Acker, J., Stojek, M. K., Murphy, J. G., a MacKillop, J. (2012). Is talk “cheap”? An initial investigation of the equivalence of alcohol purchase task performance for hypothetical and actual rewards. *Alcoholism, Clinical and Experimental Research*, Vol. 36, 716–724.

Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. & Meier, P. (2018). [Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiâu Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: adroddiad terfynol](#).

Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Rhif adroddiad GSR 11/2018.

Araya, D., & Paraje, G. (2018). The impact of prices on alcoholic beverage consumption in Chile. *Plos One*, 13(10). doi:10.1371/journal.pone.0205932

Babor, T., Caetano, R., Casswell, S., Edwards, G., Giesbrecht, N. (2010). *Alcohol: no ordinary commodity: research and public policy*. (2nd edn), Oxford: Oxford University Press.

Baum, F. et al (2006) ‘Participatory action research’, *Journal of Epidemiology and Public Health*, 60(10): 854-857.

Bennett, T. a Holloway, K. (2009) ‘The causal connection between drug misuse and crime’, *British Journal of Criminology*, 49(4): 513-531.

Black, H., Gill, J., & Chick, J. (2011). The price of a drink: levels of consumption and price paid per unit of alcohol by Edinburgh's ill drinkers with a comparison to wider alcohol sales in Scotland. *Addiction*, 106(4), 729-736. doi:10.1111/j.1360-0443.2010.03225.x

Braun, V. a Clarke, V. (2006) ‘Using thematic analysis in psychology.’ *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2). pp. 77-101.

Bretteville-Jensen, A.L. and Sutton, M. (1996). The income-generating behaviour of injecting drug-users in Oslo. *Addiction*, Vol. 91, 63–79.

Bryman, A. (2016) *Social Research Methods*. Oxford: Oxford University Press.

Burgess, R. (1984). *In the Field: An Introduction to Field Research*. Abingdon, Oxon: Routledge.

Chaiyasong, S., Limwattananon, S., Limwattananon, C., Thamarangsi, T., Tangchareonsathien, V., & Schommer, J. (2011). Impacts of excise tax raise on illegal and total alcohol consumption: A Thai experience. *Drugs-Education Prevention and Policy*, 18(2), 90-99. doi:10.3109/09687637.2010.484451

Chandra, S. a Chandra, M. (2015). Do consumers substitute opium for hashish? An economic analysis of simultaneous cannabinoid and opiate consumption in a legal regime. *Drug and Alcohol Dependence*, Vol. 156, 170-175.

Chikritzhs, T.N., Dietze, P.M., Allsop, S.J., Daube, M.M., Hall, W.D. (2009) The “alcopops” tax: heading in the right direction. *The Medical Journal of Australia*, Vol. 190, 294-295.

Clements, K.W. (2004) 'Three facts about marijuana prices', *Australian Journal of Agricultural and Resource Economics*, Vol. 48(2), 271-300.

Csak, R., Demetrovics, Z. a Racz, J. (2013) 'Transition to injecting 3,4-methylene-dioxy-pyrovalerone (MDPV) among needle exchange program participants in Hungary', *Journal of Psychopharmacology*, Vol. 27(6), 559-563.

Degenhardt, L., Conroy, E., Day, C., Gilmour, S. and Hall, W. (2005a). The impact of a reduction in drug supply on demand for and compliance with treatment for drug dependence. *Drug and Alcohol Dependence*, Vol. 79, 129–135.

Degenhardt, L., Day, C. a Hall, W. (2005b). Was an increase in cocaine use among injecting drug users in New South Wales, Australia, accompanied by an increase in violent crime? *BMC Public Health*, Vol. 5, 40.

Degenhardt, L., Day, C., Gilmour, S. a Hall, W. (2005c). Patterns of illicit drug use in NSW, Australia following a reduction in heroin supply. *International Journal of Drug Policy*, Vol. 16, 300-307.

DiNardo J. a Lemieux, T. (2001). Alcohol, marijuana, and American youth: the unintended consequences of government regulation. *Journal of Health Economics*, Vol. 20, 991-1010.

Doran, C. M., & DiGiusto, E. (2011). [Using taxes to curb drinking: A report card on the Australian government's alcopops tax](#). *Drug Alcohol Rev*, 30(6), 677-680.

Elder, R. W., Lawrence, B., Ferguson, A., Naimi, T. S., Brewer, R. D., Chattopadhyay, S. K., Fielding, J. E. (2010). The effectiveness of tax policy interventions for reducing excessive alcohol consumption and related harms. *Am J Prev Med*, 38(2), 217-229. doi:10.1016/j.amepre.2009.11.005

- Erickson, R. A., Stockwell, T., Pauly, B. B., Chow, C., Roemer, A., Zhao, J., . . . Wettlaufer, A. (2018). How do people with homelessness and alcohol dependence cope when alcohol is unaffordable? A comparison of residents of Canadian managed alcohol programs and locally recruited controls. *Drug Alcohol Rev*, *37 Suppl 1*, S174-s183. doi:10.1111/dar.12649
- Falkner, C., Christie, G., Zhou, L. F., & King, J. (2015). The effect of alcohol price on dependent drinkers' alcohol consumption. *New Zealand Medical Journal*, *128(1427)*, 9-17.
- Fogarty, J. (2010). THE DEMAND FOR BEER, WINE AND SPIRITS: A SURVEY OF THE LITERATURE. *Journal of Economic Surveys*, *24(3)*, 428-478. doi:10.1111/j.1467-6419.2009.00591.x
- Glaser, B. G., & Strauss, A. L. (1967). *The Discovery of Grounded Theory: Strategies for Qualitative Research*. Chicago: Aldine Publishing Company.
- Hall W. a Chikritzhs T. (2010). The Australian alcopops tax revisited. *The Lancet*, Vol. 377, 1136-1137.
- Hobday, M., Gordon, E., Lensvelt, E., Meuleners, L., Liang, W. B., & Chikritzhs, T. (2016). The effect of price increases on predicted alcohol purchasing decisions and choice to substitute. *Addiction Research & Theory*, *24(6)*, 441-449. doi:10.3109/16066359.2016.1155563
- Home Office (2017) Guidance on banning the sale of alcohol below the cost of duty plus VAT for suppliers of alcohol and enforcement authorities in England and Wales. London Home Office.
- Jiang, H., & Livingston, M. (2015). The Dynamic Effects of Changes in Prices and Affordability on Alcohol Consumption: An Impulse Response Analysis. *Alcohol and Alcoholism*, *50(6)*, 631-638. doi:10.1093/alcalc/agv064
- Jofre-Bonet, M., Petry, N. (2008). Trading apples for oranges? Results of an experiment on the effects of Heroin and Cocaine price changes on addicts' polydrug use. *Journal of Economic Behavior & Organization*, Vol. 66, 281–311.
- Keatley, D., Hardcastle, S., Carragher, N., Chikritzhs, T., Daube, M., Lonsdale, A., and Hagger, M. (2016) Attitudes and beliefs towards alcohol minimum pricing in Western Australia *Health Promotion International* 1–10.
- Kumar, R., O'Malley, P. M., Johnston, L. D., Schulenberg, J. E., & Bachman, J. G. (2002). Effects of school-level norms on student substance use. *Prevention Science*, Vol. 3(2), 105-124.

- Livingston, W a Perkins, A. (2018a) 'Participatory Action Research (PAR) – Critical methodological considerations.' *Drugs and Alcohol Today* 18(1):61-71.
- Livingston, W., Perkins, A., McCarthy, T., Madoc-Jones, I., Wighton, S., Wilson, F. & Nicholas, D. (2018b). [Adolygiad o Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed: Adroddiad Terfynol](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Rhif adroddiad GSR 21/2018. Ar gael yn:
- Meng, Y., Sadler, S., Gell, L., Holmes, J. & Brennan, A. (2014) Model-based appraisal of minimum unit pricing for Wales: an adaptation of the Sheffield Alcohol Policy Model version Cardiff.
- Miller, P.G. a Droste, N. (2013). Alcohol Price Considerations on Alcohol and Illicit Drug Use in University Students. *J Alcoholism Drug Depend.* Vol. 1(2), 109.
- Moore, S. (2010) 'Substitution and complementarity in the face of alcohol-specific policy interventions', *Alcohol and Alcoholism*, 45(5): 403–408.
- Muller, S., Piontek, D., Pabst, A., Baumeister, S. E., & Kraus, L. (2010). Changes in alcohol consumption and beverage preference among adolescents after the introduction of the alcopops tax in Germany. *Addiction*, 105(7), 1205-1213. doi:10.1111/j.1360-0443.2010.02956.x
- Nash, S. G., McQueen, A., & Bray, J. H. (2005). Pathways to adolescent alcohol use: Family environment, peer influence, and parental expectations. *Journal of Adolescent Health*, Vol. 37(1), 19-28.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(2015\) Alcohol a Cham-drin Sylweddau](#). Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2018). [Bil Iechyd y Cyhoedd \(Isafbris am Alcohol\) \(Cymru\): Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1](#). Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Neale, J., Miller, P. a West, R. (2014) 'Reporting quantitative information in qualitative research: guidance for authors and reviewers', *Addiction*, 109: 175-176.
- Neale, J. a West, R. (2015) 'Guidance for reporting qualitative manuscripts', *Addiction*, 110: 549-550.
- Nelson, J. P. (2013a). Does Heavy Drinking by Adults Respond to Higher Alcohol Prices and Taxes? A Survey and Assessment. *43(3)*, 265-291. doi:10.1016/s0313-5926(13)50032-4

Nelson TF, Xuan Z, Babor TF, Brewer RD, Chaloupka FJ, Gruenewald PJ, Holder H, Klitzner M, Mosher JF, Ramirez RL, Reynolds R, Toomey TL, Churchill V and Naimi TS. (2013b). Efficacy and the strength of evidence of U.S. alcohol control policies. *American Journal of Preventive Medicine*, 45 (1):19–28.

O'May, F., Gill, J., Black, H., Rees, C., Chick, J., & McPake, B. (2016). Heavy Drinkers' Perspectives on Minimum Unit Pricing for Alcohol in Scotland: A Qualitative Interview Study. *SAGE Open*, 6(3), 2158244016657141. doi:10.1177/2158244016657141

Peters, E., Rosenberry, Z., Schauer, G., O'Grady, K., Johnson, P. (2017). Marijuana and Tobacco Cigarettes: Estimating Their Behavioral Economic Relationship Using Purchasing Tasks. *Experimental and Clinical Psychopharmacology*, Vol. 25(3), 208–215.

Petry, N. M., & Bickel, W. K. (1998). Polydrug abuse in heroin addicts: a behavioral economic analysis. *Addiction*, Vol. 93(3), 321-335.

Robinson, M., Geue, C., Lewsey, J., Mackay, D., McCartney, G., Curnock, E., & Beeston, C. (2014). Evaluating the impact of the alcohol act on off-trade alcohol sales: a natural experiment in Scotland. *Addiction*, 109(12), 2035-2043. doi:10.1111/add.12701

Roxburgh, A., Degenhardt, L., & Breen, C. (2004). Changes in patterns of drug use among injecting drug users following a reduction in the availability of heroin in New South Wales, Australia. *Drug and Alcohol Review*, Vol. 23, 287–294.

Sharma, A., Sinha, K., & Vandenberg, B. (2017). Pricing as a means of controlling alcohol consumption. *British Medical Bulletin*, 123(1), 149-158. doi:10.1093/bmb/ldx020

Stockwell, T., Auld, M. C., Zhao, J., & Martin, G. (2012a). Does minimum pricing reduce alcohol consumption? The experience of a Canadian province. *Addiction*, 107(5), 912-920. doi:10.1111/j.1360-0443.2011.03763.x


Stockwell, T., Williams, N., & Pauly, B. (2012b). Working and waiting: homeless drinkers' responses to less affordable alcohol. *Drug Alcohol Rev*, 31(6), 823-824. doi:10.1111/j.1465-3362.2012.00422.x

Stockwell, T., Zhao, J., Giesbrecht, N., Macdonald, S., Thomas, G., & Wettlaufer, A. (2012c). The raising of minimum alcohol prices in Saskatchewan, Canada: impacts on consumption and implications for public health. *Am J Public Health*, 102(12), e103-110. doi:10.2105/ajph.2012.301094

Stockwell, T., (2017) Minimum unit pricing for alcohol: the most cost-effective of cancer prevention strategies?, *Expert Review of Anticancer Therapy*, 17:11, 981-983

- Subbaraman, M.S. (2016). Substitution and Complementarity of Alcohol and Cannabis: A Review of the Literature. *Substance use & misuse*, Vol. 51(11), 1399.
- Topp, L., Day, C., & Degenhardt, L. (2003). Changes in patterns of drug injection concurrent with a sustained reduction in the availability of heroin in Australia. *Drug and Alcohol Dependence*, Vol. 70, 275–286
- Vandenberg, B., & Sharma, A. (2016). Are Alcohol Taxation and Pricing Policies Regressive? Product-Level Effects of a Specific Tax and a Minimum Unit Price for Alcohol. *Alcohol Alcohol*, 51(4), 493-502. doi:10.1093/alcalc/agv133
- Wagenaar, A. C., Salois, M. J., & Komro, K. A. (2009). Effects of beverage alcohol price and tax levels on drinking: a meta-analysis of 1003 estimates from 112 studies. *Addiction*, 104(2), 179-190. doi:10.1111/j.1360-0443.2008.02438.x
- Llywodraeth Cymru (2014) [Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau: Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau](#). Cyrchwyd ar 02/10/18.
- Llywodraeth Cymru (2018) Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a Nodiadau Esboniadol: [BIL IECHYD Y CYHOEDD \(ISAFBRIS AM ALCOHOL\) \(CYMRU\)](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn:
- Williams, N. (2011). *Waiting and working: coping responses of individuals enduring homelessness when accessing alcohol and shelter accommodation*. (Honours thesis), University of Victoria, British Columbia.
- Wincup, E. (2017) *Criminological Research: Understanding Qualitative Methods*. London: Sage.
- World Health Organisation (2018) Global status report on alcohol and health 2018. Geneva: World Health Organisation.

Atodiad A - Siart llif prisma o astudiaethau a ganfuwyd drwy chwiliad systematig o lenyddiaeth




Atodiad B – Nodweddion Ymatebwyr i'r Arolwg a'r Cyfweiliadau (Yfwyr a darparwyr)

Tabl B.1: Nodweddion ymatebwyr i'r arolwg (yfwyr) [n=93]

Rhywedd	n	%
Gwryw	45	48.4
Benyw	47	50.5
Anneuaidd	1	1.1
Oedran		
20-24	3	3.2
25-34	21	22.6
35-44	18	19.4
45-54	23	24.7
55-64	23	24.7
65-74	5	5.4
Statws priodasol		
Priod/partneriaeth sifil/cydfyw/perthynas	70	76.1
Sengl, wedi ysgaru, wedi gwahanu	21	22.8
Dewis peidio ag ateb	1	1.1
Math o ardal		
Trefol	10	11.1
Maestrefol	30	33.3
Gwledig	49	54.4
Arall [1]	1	1.1

Nodiadau: Rhai achosion ar goll. [1] 'Diwydiant'.

Ffigur B.1: Ardal Awdurdod Lleol ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg yfwyr



Nodiadau: 2 achos ar goll.

Tabl B.2: Sgoriau AUDIT cyfranogwyr yr 'arolwg yfwyr' [n=90]

Categori sgôr AUDIT	n	%
Risg isel (0-7)	45	50.0
Risg ganolig (8-15)	25	27.8
Risg uchel (16-19)	6	6.7
Caethiwed yn debygol (20-40)	14	15.6
Risg isel-ganolig (0-15)	70	77.8
Caethiwed risg uchel yn debygol (20-40)	20	22.2

Nodiadau: Rhai achosion ar goll.

Tabl B.3: Hanes o ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon ymhlith cyfranogwyr yr ‘arolwg yfwyr’

Sylwedd	7 diwrn od diwet haf	30 diwrno d diwetha f	Y flwydd yn ddiwet haf	Mwy nad 12 mis yn ôl	Erioed	Cyfanswm
Canabis	6 (7%)	3 (3%)	2 (2%)	28 (31%)	52 (57%)	91 (100%)
Ecstasi	1 (1%)	1 (1%)	3 (3%)	19 (21%)	67 (74%)	91 (100%)
LSD	-	-	-	17 (19%)	73 (81%)	90 (100%)
Madarch hud	-	-	2 (2%)	18 (20%)	71 (78%)	91 (100%)
Amffetaminau	-	-	3 (3%)	20 (22%)	68 (75%)	91 (100%)
Methamffetamin	-	-	-	4 (4%)	87 (96%)	91 (100%)
Powdr cocên	2 (2%)	1 (1%)	5 (5%)	17 (19%)	67 (73%)	92 (100%)
Crac cocên	-	-	-	4 (4%)	87 (96%)	91 (100%)
Heroin	-	-	-	3 (3%)	89 (97%)	92 (100%)
Tawelyddion	1 (1%)	1 (1%)	2 (2%)	7 (8%)	80 (88%)	91 (100%)
Steroidau anabolig	-	-	-	2 (2%)	88 (98%)	90 (100%)
PIEDau ansteroidaidd	-	-	-	1 (1%)	87 (99%)	88 (100%)
Ketamin	-	-	1 (1%)	9 (10%)	82 (89%)	92 (100%)
Meffedron	-	-	2 (2%)	8 (9%)	81 (89%)	91 (100%)
GBL/GHB	-	-	-	4 (4%)	86 (96%)	90 (100%)
Canabinoidau syntheticig	-	-	-	2 (2%)	88 (98%)	90 (100%)
BZP	-	-	-		90 (100%)	90 (100%)
Salvia	-	-	-	2 (2%)	88 (98%)	90 (100%)
Khat	-	-	-	3 (3%)	87 (97%)	90 (100%)
Ocsid nitraidd	-	-	1 (1%)	11 (12%)	79 (87%)	91 (100%)

Nodiadau: Rhai achosion ar goll. ‘-’ = ymatebion sero.


Tabl B.4: Nodweddion ymatebwyr i'r arolwg (darparwyr) [n=100]

Rhywedd	n	%
Gwrywaidd	36	36.7
Benywaidd	62	63.3
Ethnigrwydd		
Gwyn - Saeson / Cymry / Albanwyr / Gwyddelod o Ogledd Iwerddon / British	95	96.0
Gwyn – Gwyddelod	1	1.0
Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd	1	1.0
Cymysg – Arall ['Cymreig/Ewropeaidd']	1	1.0
Arall ['Cymreig/Eidalaidd/Pwylaidd]	1	1.0
Ardal BIP [1]		
Aneurin Bevan	31	21.1
Caerdydd a'r Fro	31	21.1
Cwm Taf	24	16.3
Dyfed	11	7.5
Gogledd Cymru	18	12.2
Powys	6	4.1
Bae'r Gorllewin	26	17.7
Math o Wasanaeth		
Alcohol a/neu gyffuriau (arbenigol)	86	86.0
Cyfiawnder troseddol	5	5.0
Digartrefedd/tai	3	3.0
Arall statudol (dim GIG)	6	6.0
Rôl		
Gweithiwr allweddol – gwasanaeth cyffuriau/alcohol	27	27.8
Rheolwr – gwasanaeth cyffuriau/alcohol	16	16.5
Gweithiwr cymorth – gwasanaeth cyffuriau/alcohol	15	15.5
Arall	12	12.4
Nyrs	8	8.2
Gweithiwr cymorth – gwasanaeth arall	7	7.2
Mentor cymheiriaid	5	5.2
Rheolwr – gwasanaeth arall	4	4.1
Comisiynydd	2	2.1
Gweithiwr cymdeithasol	1	1
Hyd eu profiad		
Llai na blwyddyn	14	14.3
1-3 blynedd	32	32.7
4-5 mlynedd	9	9.2
6-9 mlynedd	12	12.2
10+ mlynedd	31	31.6

Sector		
Trydydd sector/ sector gwirfoddol – cyffuriau/alcohol	66	69.5
Trydydd sector/ sector gwirfoddol – arall	10	10.5
GIG	10	10.5
Arall	10	10.5
Gwasanaeth Carchardai EM	3	3.2
Cwmni Adsefydlu Cymunedol	1	1.1

Nodiadau: Rhai achosion ar goll. [1] Roedd ymatebwyr yn gallu dewis atebion lluosog i'r cwestiwn hwn.

Ffigur B.2: Yn ardal pa Awdurdod(au) Lleol yng Nghymru ydych chi'n gweithio? (Ticiwch bob un perthnasol)



Tabl B.5: Nodweddion cyfweleion (defnyddwyr gwasanaeth) [n=49]

Rhywedd	n	%
Gwrywaidd	31	63.3
Benywaidd	18	36.7
Oedran		
20-24	1	2.0
25-34	7	14.3
35-44	9	18.4
45-54	13	26.5
55-64	3	6.1
65-74	1	2.0
75+	1	2.0
Dim data	14	28.6
Ardal BIP		
Aneurin Bevan	17	34.7
Caerdydd a'r Fro	11	22.4
Cwm Taf	8	16.3
Dyfed	1	2.0
Gogledd Cymru	4	8.2
Powys	2	4.1
Bae'r Gorllewin	6	12.2
Yfwr cyfredol neu ddiweddar		
Cyfredol	16	32.7
Diweddar	26	53.1
Dim data	7	14.3
Defnyddio sylweddau eraill (heblaw nicotin)		
Ydy	12	31.6
Nac ydy	5	13.2
Dim data	1	2.6
Prif fath o ddioid		
Cwrw/lager/seidr cryfder arferol	10	20.4
Gwirodydd	8	16.3
Cwrw/lager/seidr cryfder cryf	7	14.3
Gwin	8	16.3
Dim data	16	32.7
Cynhaliwyd y cyfweiliad gan		
Prifysgol Glyndŵr	5	13.2
Figure 8 Consultancy	1	2.6
Prifysgol De Cymru	32	84.2

Nodiadau: [1] cynhaliwyd 38 o gyfweiliadau â 49 o gyfweleion.

Tabl B.6: Nodweddion cyfweleion (darparwyr) [n=38]

Rhywedd	n	%
Gwrywaidd	19	50.0
Benywaidd	19	50.0
Ardal BIP		
Aneurin Bevan	8	20.5
Caerdydd a'r Fro	5	12.8
Cwm Taf	6	15.4
Dyfed	6	15.4
Gogledd Cymru	8	20.5
Powys	3	7.7
Bae'r Gorllewin	2	5.1
Math o Wasanaeth		
Alcohol a/neu gyffuriau (arbenigol)	27	69.2
Cyfiawnder Troseddol	6	15.4
Trais Domestig	1	2.6
Digartrefedd/tai	2	5.1
Statudol arall (dim GIG)	2	5.1
Rôl		
Gweithiwr allweddol /deiliad achosion	12	31.6
	5	13.2
Arall – statudol cyflogedig (dim GIG)	1	2.6
	1	2.6
Gweithiwr allgymorth	1	2.6
Mentor cymheiriaid	3	7.9
Hyrwyddwr adfer	1	2.6
Rheolwr Gwasanaeth	2	5.3
Gweithiwr cymdeithasol	8	21.1
Gweithiwr cymorth	4	10.5
Arweinydd Tîm/Uwch Ymarferydd Arall – trydydd sector cyflogedig		
Hyd eu profiad		
Mwy na 5 mlynedd	32	84.2
Llai na 5 mlynedd	6	15.8
Cynhaliwyd y cyfweiliad gan		
Prifysgol Glyndŵr	10	26.3
Figure 8 Consultancy	2	5.3
Prifysgol De Cymru	26	68.4

Atodiad C – Pynciau wedi'u cynnwys yn Holiaduron yr Arolwg a Chwestiynau'r Cyfweiliadau

Pynciau holiadur yr arolwg – yfwyr

Roedd yr arolwg wedi'i rannu'n gyfres o adrannau i gasglu gwybodaeth fanwl am:

1. Demograffeg (Rhywedd, Ethnigrwydd, Ardal Breswyl, Oedran, Statws Perthnasoedd, Aelwyd, Plant, Cymwysterau, Incwm/Budd-daliadau, Statws Cyflogaeth)
2. Alcohol (Mathau o Ddioid, Faint a yfir, Amllder, Effeithiau, Lleoliad Yfed, Pryniant, Gwariant)
3. Sylweddau Eraill (Anghyfreithlon, Presgripsiwn)
4. Triniaeth a gafwyd (Gorffennol, Presennol)
5. Isafbris am alcohol (Gwybodaeth, Buddiannau, Problemau cael Isafbris Uned am Alcohol; Graddau cytuno ag Isafbris Uned am Alcohol; Effeithiau tebygol Isafbris Uned am Alcohol)
6. Newid Sylweddau (Newidiadau yn y gorffennol boed Alcohol i Gyffuriau neu'r ffordd arall; y Dyfodol – a yw cyflwyno Isafbris Uned am Alcohol yn debygol o effeithio ar ddefnydd o sylweddau eraill)
7. Cymorth posibl a all fod ei angen pan fydd Isafbris Uned am Alcohol yn cael ei gyflwyno.
8. Effeithiau ehangach cyflwyno Isafbris Uned am Alcohol (perthnasoedd â'r teulu, ffrindiau; iechyd corfforol; iechyd meddwl; cyflogaeth; amgylchiadau ariannol; tai; ymddygiad troseddol)

Mae copi llawn o holiadur yr arolwg ar gael ar gais.

Pynciau holiadur yr arolwg – darparwyr

Roedd yr arolwg wedi'i rannu'n gyfres o adrannau i gasglu gwybodaeth fanwl am:

1. Demograffeg (Rhywedd, Ethnigrwydd, Ardal Gyflogaeth)
2. Swydd Bresennol (Lleoliad, Rôl, Hyd Cyflogaeth)
3. Sefydliad (Math, Cymorth a gynigir)

4. Isafbris am alcohol (Gwybodaeth, Buddiannau, Problemau cael Isafbris Uned am Alcohol; Graddau cytuno ag Isafbris Uned am Alcohol; Effeithiau tebygol Isafbris Uned am Alcohol)
5. Paratoi am Isafbris Uned am Alcohol (Beth, os unrhyw beth mae eich sefydliad yn ei wneud i baratoi? Beth allent fod yn ei wneud?)
6. Cymorth posibl a all fod ei angen pan fydd Isafbris Uned am Alcohol yn cael ei gyflwyno
7. Newid Sylweddau (Tebygolrwydd o newid yn achos rhai sydd/heb ddefnyddio sylweddau eraill yn y gorffennol; Grwpiau sydd fwyaf tebygol o newid; Camau posibl i leihau newid)

Mae copi llawn o holiadur yr arolwg ar gael ar gais.

Ymchwil i Ddefnyddwyr sy'n Newid Sylweddau

Cyfweiliad wedi'i Strwythuro'n Rhannol – Yfwyr

Rhagair

- Diolch am roi o'ch amser ac am gytuno i gymryd rhan.
- Sgwrs am y cymhelliad a phryd/sut fydd yn cael ei gyhoeddi.
- Cadarnhad o: ddiben y cyfweiliad (edrych ar isafbris uned am alcohol a newidiadau posibl mewn ymddygiad); gwybodaeth am dîm yr ymchwil a chyllido; edrych ar y daflen wybodaeth i gyfranogwyr, natur wirfoddol a defnydd penodol o ddata (cyfrinachedd).
- Recordio.
- Llofnodi'r ffurflen gydsynio.
- Amlinellu strwythur y cyfweiliad:
 - a) Nifer o gwestiynau penagored amdanoch chi, am eich yfed a defnydd o gyffuriau a sut y gallai isafbris am alcohol effeithio ar hyn. Atebwch mor llawn â phosibl. (Gallaf ysgogi, pan yn briodol).
 - b) Bydd nifer o gwestiynau caeedig yn cael eu defnyddio i gofnodi rhai atebion.
 - c) Nifer o gwestiynau lle gofynnir am gadarnhad o wybodaeth neu i egluro un neu ddau o bwyntiau penodol.

Themâu, cwestiynau a phynciau

Thema	Cwestiynau agoriadol posibl	Pethau i gadw golwg amdanynt – ysgogi pellach
Hunan	<ul style="list-style-type: none">Dywedwch rywbeth wrtha i amdanoch eich hun, eich oed, gyda phwy rydych yn byw a'r hyn rydych yn ei wneud.	<ul style="list-style-type: none">Oedran, rhywedd, cenedligrwydd, ethnigrwydd, byw gyda, statws economaidd, hanes cyflogaeth.
Defnydd presennol	<ul style="list-style-type: none">Dywedwch wrthyf am eich defnydd presennol o alcohol?A ydych chi'n defnyddio unrhyw gyffuriau eraill ar hyn o bryd?	<ul style="list-style-type: none">Math o alcohol, brand, cyfaint, pris.Defnydd o gyffuriau anghyfreithlon a phresgripsiwn, gwariant ar sylweddau.
Defnydd blaenorol a hanes o driniaeth	<ul style="list-style-type: none">Beth am eich defnydd blaenorol o alcohol/cyffuriau? Sut mae eich defnydd wedi newid dros amser?A ydych chi'n cael unrhyw help ar hyn o bryd ar gyfer eich defnydd o alcohol/cyffuriau? (Os ydych, dywedwch ragor am hyn ar gyfer pob sylwedd).Dywedwch wrthym am unrhyw help neu driniaethau blaenorol rydych chi wedi'u cael am alcohol/cyffuriau.	<ul style="list-style-type: none">Patrymau defnydd gwahanol fathau o sylweddau, cysylltiad â gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn y gymuned a'r System Cyfiawnder Troseddol.Nifer yr achosion, math o driniaeth, math o asiantaeth, cymunedol neu'r System Cyfiawnder Troseddol.
Dealltwriaeth o isafbris am alcohol	<ul style="list-style-type: none">A ydych chi wedi clywed llawer am isafbris uned am alcohol (Efallai y bydd angen i chi gynnig eglurhad yma)	<ul style="list-style-type: none">Ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth isafbris uned am alcohol, defnyddio cardiau fflach arian i ddangos y newid posibl mewn prisiau.
Canfyddiadau o isafbris uned am alcohol	<ul style="list-style-type: none">Beth yw eich barn am y newid arfaethedig hwn?	<ul style="list-style-type: none">Agweddau a theimladau tuag at isafbris uned am alcoholHolwch beth maent yn credu fydd y pethau positif a negyddol.

Paratoadau am isafbris uned am alcohol	<ul style="list-style-type: none"> • A ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n gwneud unrhyw beth i baratoi am y newid mewn prisiau? 	<ul style="list-style-type: none"> • Holwch am unrhyw gynllunio (neu ddim) ar gyfer isafbris uned am alcohol; strategaethau ymdopi.
Newid	<ul style="list-style-type: none"> • Fel y gwyddoch o'r cyflwyniad, rydym yn arbennig o awyddus i holi eich barn am newidiadau posibl mewn defnydd o alcohol a chyffuriau eraill. • Gyda hyn mewn golwg, pa effaith ydych chi'n feddwl a gaiff y newidiadau ar y math o alcohol rydych yn dewis ei yfed? • Beth am ddefnydd o sylweddau eraill (ac unrhyw newid rhyngddynt?) • Beth ydych chi'n feddwl y byddwch yn ei wneud? 	<ul style="list-style-type: none"> • Edrychwch ar broffwydoliaethau o ymddygiad yn y dyfodol o ran newid, cymhellion i newid/peidio â newid, ffactorau risg ac amddiffynnol. <hr/> <ul style="list-style-type: none"> • Newid o fewn alcohol (h.y. o un math i un arall, un brand i un arall); newid o alcohol i sylwedd arall (h.y. pa sylweddau), ffynonellau, cyllid, rhesymau.
Adolygu unrhyw achosion blaenorol o newid	<ul style="list-style-type: none"> • (Os nad yw'n amlwg o'r cwestiynau blaenorol) • A oes adegau yn y gorffennol pan wnaethoch chi wedi newid o alcohol i gyffuriau neu fel arall? Os oes, sut a pham? 	<ul style="list-style-type: none"> • Hanes o newid (e.e. pan oedd arian yn brin, neu mewn gwahanol gyd-destunau), wedi newid i/o ba sylweddau, cymhellion, esboniadau.
Effeithiau tybiedig (arnoch eich hun ac ar eraill)	<ul style="list-style-type: none"> • Beth ydych chi'n feddwl fydd effaith cynnydd mewn prisiau arnoch chi? • Beth am yr effeithiau ar eich teulu a'ch ffrindiau? • Beth am yfwyr eraill? Beth ydych chi'n ei ragweld fydd yr effaith arnyn nhw? 	<ul style="list-style-type: none"> • Arferion gwario, troseddu, chwilio am driniaeth, cyflogaeth, llety, iechyd, llesiant. • Ystyried yr effaith bosibl ar deulu a ffrindiau (e.e. llai o arian i'w wario ar fwyd, dillad, llety).
Cymorth	<ul style="list-style-type: none"> • Pa gymorth, os o gwbl, ydych chi'n feddwl a ddylid ei ddarparu i yfwyr i'w helpu i ddelio â'r cynnydd mewn prisiau? 	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodwch yr angen posibl am gymorth o ran iechyd, arian, llety, camddefnyddio sylweddau ac ati.
Unrhyw beth arall	<ul style="list-style-type: none"> • A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am bris alcohol, y newid arfaethedig a chyffuriau eraill? 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddir yr opsiwn i ymatebwyr i roi unrhyw wybodaeth bellach maent yn teimlo a all fod yn berthnasol.

- Diolch

Ymchwil i Ddefnyddwyr yn Newid Sylweddau

Cyfweiliad wedi'i Strwythuro'n Rhannol – Darparwyr

Rhagair

- Diolch am roi eich amser ac i gytuno i gymryd rhan.
- Cadarnhad o: ddiben y cyfweiliad (edrych ar isafbris uned am alcohol a newidiadau posibl mewn ymddygiad); gwybodaeth am dîm yr ymchwil a chyllido; edrych ar y daflen wybodaeth i gyfranogwyr, natur wirfoddol a defnydd penodol o ddata (cyfrinachedd).
- Recordio.
- Amlinellu strwythur y cyfweiliad:
 - a) Nifer o gwestiynau penagored amdanoch chi, am eich yfed a defnydd o gyffuriau a sut y gallai isafbris am alcohol effeithio ar hyn. Atebwch mor llawn â phosibl. (Gallaf ysgogi, pan yn briodol).
 - b) Nifer o gwestiynau mwy caeedig a fydd yn cael eu defnyddio gennyf i gofnodi rhai atebion a/neu a ofynnir i chi naill ai i gadarnhau gwybodaeth a roddir a/neu i gofnodi un neu ddau o bwyntiau penodol.

Themâu, cwestiynau a phynciau

Maes pwnc cyffredinol	Cwestiwn agoriadol posibl	Pethau i gadw golwg amdanynt – ysgogi pellach
Hunan	<ul style="list-style-type: none"> • A allwch chi roi ychydig o wybodaeth amdanoch eich hun, fel oedran, rhywedd, cenedligrwydd ac ati? 	<ul style="list-style-type: none"> • Oedran, rhywedd, cenedligrwydd, ethnigrwydd.
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw natur eich rôl bresennol? • A allwch ddweud wrthyf ers pa bryd ydych chi wedi bod yn gweithio ag yfwyr a defnyddwyr cyffuriau? 	<ul style="list-style-type: none"> • Rôl bresennol, amser yn y rôl bresennol, natur y rôl. • Maint eich profiad yn y maes ymarfer hwn.
Ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth Isafbris am Uned Alcohol	<ul style="list-style-type: none"> • Pa mor ymwybodol ydych chi o Isafbris am Uned Alcohol? • (Yn debygol y bydd angen ymhelaethu ac mewn rhai achosion, egluro) 	<ul style="list-style-type: none"> • Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Isafbris am Uned Alcohol. • O ble mae eu gwybodaeth yn dod. • (Defnyddio cardiau fflach, efallai)
Canfyddiadau o Isafbris am Uned Alcohol	<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw eich barn am Isafbris am Uned Alcohol? • Beth ydych chi'n rhagweld fydd yn digwydd o ganlyniad i godi prisiau? 	<ul style="list-style-type: none"> • Agweddau a theimladau tuag at Isafbris am Uned Alcohol.
Cynllunio ar gyfer Isafbris am Uned Alcohol	<ul style="list-style-type: none"> • Sut, os o gwbl, ydych chi a'ch asiantaeth yn paratoi ar gyfer Isafbris am Uned Alcohol, ac unrhyw help i'r rhai rydych yn gweithio â hwy? 	<ul style="list-style-type: none"> • Natur yr ymateb i Isafbris am Uned Alcohol, cynlluniau i helpu pobl a effeithir gan Isafbris am Uned Alcohol.
Newid	<ul style="list-style-type: none"> • (os heb ei gynnwys/ei gyflwyno uchod) • Yn fwy penodol, sut ydych chi'n gweld ymddygiad yfwyr yn newid, o ran unrhyw newid fel math o alcohol neu gyffuriau eraill a all gael eu defnyddio o ganlyniad i Isafbris am Uned Alcohol? 	<ul style="list-style-type: none"> • Y tebygolrwydd y bydd gwahanol fathau o yfwyr yn newid, pwy sydd mewn mwyaf o berygl, cymhellion, eglurhad • Beth fydd ffurf y newid (h.y. o fewn alcohol ynteu i sylweddau eraill), pa sylweddau, pam, sut?
Effaith	<ul style="list-style-type: none"> • Beth ydych chi'n feddwl fydd effaith debygol Isafbris am Uned Alcohol ar yfwyr, eu teulu a'u ffrindiau, ac eraill? 	<ul style="list-style-type: none"> • Arian, iechyd, llesiant, llety, dillad, bwyd.

Ystyriaeth i anghenion arbennig	<ul style="list-style-type: none"> • Pa bethau ydych chi'n credu y gellir eu gwneud i helpu pobl i ymdopi â'r newid mewn prisiau? • Pwy, a sut ydych chi'n credu ddylai wneud hyn? 	<ul style="list-style-type: none"> • Beth ellir ei wneud i helpu, beth sydd ei angen ar wasanaethau i helpu, pa bryd fydd angen hyn, sut fydd hyn yn cael ei ddarparu?
Unrhyw beth arall	<ul style="list-style-type: none"> • Gan wybod ein bod yn mynd i gael sgwrs am Isafbris am Uned Alcohol, a oes unrhyw beth arall ydych chi wedi meddwl amdano neu'n meddwl y dylem ei glywed ar y mater? 	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoddir yr opsiwn i ymatebwyr i roi unrhyw wybodaeth bellach maent yn teimlo a all fod yn berthnasol.

Diolch.